RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
1/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
24/01/2019

# Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

## Adroddiad Terfynol

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-78964-682-5

Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Adroddiad terfynol
Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru

Awdur(on): ICF Consulting Services Limited mewn cysylltiad ag Ymchwil Arad a Phrifysgol Caerdydd (Dr Dawn Mannay, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Dr Jen Lyttleton-Smith, CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Beadle, S., Bennett, A., Hannah, A. (2018). Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 1/2019
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-implementation-pupil-development-grant-looked-after-children/?skip=1&lang=cy

Barnau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barnau Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Roberts
Is-adran Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5485
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau....................2
Rhestr ffigurau....................3
Byrfoddau....................4
Crynodeb Gweithredol....................5
1. Cyflwyniad....................23
2. Trosolwg o'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal....................34
3. Canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth....................53
4. Llywodraethu....................66
5. Pennu Polisi....................87
6. Dyrannu....................97
7. Monitro a gwerthuso....................133
8. Casgliadau....................155
9. Argymhellion....................163
Atodiadau....................167
**Annex A:** Cyfeiriadau'r adolygiad llenyddiaeth....................167

**Rhestr tablau**

**Tabl 1.1:** Deunydd dogfennol a ddarparwyd ar gyfer pob CARh yn ôl blwyddyn ariannol ...29
**Tabl 2.1:** Lefelau cyrhaeddiad ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn y CARh ...38
**Tabl 2.2:** Dyraniadau cyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mlynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17...44
**Tabl 2.3:** Meini prawf y cynllun cymorth, yn ôl blwyddyn ...45
**Tabl 2.4:** Cyngor ar ariannu arfer gorau ...47
**Tabl 4.1:** Rolau personau dynodedig...67
**Tabl 4.2:** Adnoddau ar lefel CARh...68
**Tabl 4.3:** Trefniadau llywodraethu, yn ôl CARh ...74
**Tabl 6.1:** Prosesau ariannu yn ôl CARh ...99
**Tabl 6.2:** Dyraniadau cyllid a amcangyfrifir...101
**Tabl 6.3:** Gwariant ar lefel CARh yn ôl math o weithgaredd ...103
**Tabl 6.4:** Gweithgareddau wedi'u hariannu yn y GCA 2015/16, yn ôl ALI ...107
**Tabl 6.5:** Gweithgareddau wedi'u hariannu yn ERW yn 2015/16 a 2016/17, yn ôl ALI......110
**Tabl 6.6:** Gweithgareddau wedi'u hariannu yn GwE yn 2015/16 a 2016/17, yn ôl ALI ......113
**Tabl 6.7:** Gweithgareddau a ariannwyd yn CSC yn 2015/16, yn ôl ALI ...116
**Tabl 6.8:** Tystiolaeth o gysoni gweithgareddau gydag arfer gorau ...126
**Tabl 6.9:** Eglurder gwybodaeth ar lefel CARh yn erbyn meini prawf gwerthuso ...127
**Tabl 6.10:** Gwybodaeth am wariant a ddarparwyd gan ALIau ...129
**Tabl 7.1:** Crynodeb o systemau monitro a gwerthuso yn ôl CARh ...135
**Tabl 8.1:** Y prif gasgliadau yn ôl dangosyddion gwerthuso ...156

**Rhestr ffigurau**

Trosolwg o'r ymchwil......7
**Ffigwr 1.1:** Trosolwg o'r fethodoleg gwerthuso ......26
**Ffigwr 1.2:** Trosolwg o ymchwil......27
**Ffigwr 1.3:** Fframwaith gwerthuso......32
**Ffigwr 2.1:** Tueddiadau mewn plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni'r dangosyddion pwnc craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ac yn cyflawni'r Trothwy Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4* (2010-17)......36
**Ffigwr 2.2:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, a'r holl ddysgwyr ar 31 Mawrth 2017......37
**Ffigwr 2.3:** Cynnydd o gymharu â'r cynllun gweithredu ar gyfer thema rhif 5 – 'cryfhau trefniadau ariannu'......41
**Ffigwr 4.1:** Ymwybyddiaeth o ddogfennau arweiniad Llywodraeth Cymru a adroddwyd ....71
**Ffigwr 4.2:** Barnau ar b'un a oedd yr ymgynghori a'r ymgysylltu yn ddigonol ......79
**Ffigwr 4.3:** Sut cafodd penderfyniadau ariannu ar lefel ysgolion eu gwneud? ......79
**Ffigwr 4.4:** Sut cawsoch eich gwneud yn ymwybodol o'r cynllun neu strategaeth ranbarthol? ......81
**Ffigwr 4.5:** Sut cawsoch eich gwneud yn ymwybodol o'r cynllun neu strategaeth leol?......81
**Ffigwr 4.6:** Ymwybyddiaeth o weithgareddau wedi'u hariannu'n rhanbarthol neu gan ALl .83
**Ffigwr 5.1:** Ymwybyddiaeth o strategaeth/cynllun rhanbarthol......92
**Ffigwr 5.2:** Ymwybyddiaeth o strategaeth/cynllun lleol ......93
**Ffigwr 6.1:** Cyfran yr ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant yn ôl blwyddyn......118
**Ffigwr 6.2:** Defnydd cyffredinol o gyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal......119
**Ffigwr 6.3:** Canfyddiadau o'r broses bresennol ar gyfer cael cyllid grant......120
**Ffigwr 6.4:** Tystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau gwario ar lefel ysgolion.124
**Ffigwr 7.1:** Sut mae eich ysgol yn cyfrif am wariant?......138
**Ffigwr 7.2:** Deilliannau gweithgareddau ysgol a ariennir gan y PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal......138
**Ffigwr 7.3:** Cyfran yr ymatebwyr yn mynychu gwahanol weithgareddau CARh neu ALl...142
**Ffigwr 7.4:** Deilliannau ysgolion o ran gweithgareddau hyfforddi CARh neu ALl ......145
**Ffigwr 7.5:** Deilliannau cyfleoedd rhwydweithio/dysgu ar y cyd CARh/ALl i ysgolion......148
**Ffigwr 7.6:** Deilliannau gweithgareddau ysgol wedi'u hariannu gan y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ......149
**Ffigwr 7.7:** Y math o weithgaredd mwyaf llwyddiannus (ticiwch hyd at dri gweithgaredd) 151
**Ffigwr 7.8:** Y lefel mae cyllid yn fwyaf effeithiol arni......152

**Byrfoddau**

| Byrfodd | Diffiniad |
|---|---|
| CSC | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg) |
| GCA | Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru (Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) |
| cPYDd | Cymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith/ Education through Regional Working (Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn cynnwys Cyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Dinas a Sir Abertawe |
| GwE | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru (Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| Cydgysylltydd LACE | Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal |
| CARh | Consortiwm Addysg Rhanbarthol |
| PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal |
| VSH | Rhith Bennaeth Ysgol |

## Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd ICF Consulting, Ymchwil Arad a Phrifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i gynnal gwerthusiad o weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd 2015/16 a 2016/17.

### Cefndir

Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion[1] yn 2012 i ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn helpu lliniaru anfanteision i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Yn 2015, penderfynwyd gwahanu'r cyllid a ddarperir ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYDd) a phlant sy'n derbyn gofal trwy ddau grant ar wahân. Gwnaed dyraniadau ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal i'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol (CARh)[2], yn hytrach nag i ysgolion yn uniongyrchol[3], gyda'r nod o hwyluso ymagwedd fwy strategol at ddefnyddio'r cyllid ar draws y rhanbarthau. Ychydig llai na £4 miliwn y flwyddyn yw'r dyraniad.

Disgwylir i'r grant gynorthwyo gwelliant mewn ysgolion er mwyn lleihau anghydraddoldebau a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal:

- Mae oddeutu 6,000 o blant sy'n derbyn gofal, a cheir cryn amrywio yn y niferoedd rhwng Awdurdodau Lleol (ALlau) ac ysgolion. Gall profiadau blaenorol plant sy'n derbyn gofal, a'u profiad o fod mewn gofal, gael effeithiau difrifol ar eu cynnydd a'u cyrhaeddiad addysgol, ac mae hynny'n effeithio ar eu hyfforddiant galwedigaethol a'u rhagolygon o ran cyflogaeth.
- Er bod y duedd dros gyfnod yn dangos bod presenoldeb a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal (hyd at 2016) wedi gwella'n gyffredinol, ceir bwlch mawr mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill ym mhob cyfnod addysg, ac yn hanfodol yng Nghyfnod Allweddol 4, a gaiff effaith fawr ar ddilyniant. Gwelir hyn i raddau amrywiol yn holl ardaloedd y CARh.

[1] Galwyd yn Grant Amddifadedd Disgyblion yn flaenorol, ac fe'i ailenwyd ym mis Mawrth 2017

[2] Y rhain yw: Consortiwm Canolbarth y De (CSC) ar gyfer Canolbarth De Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg [GCA] ar gyfer De Ddwyrain Cymru, ERW ar gyfer De Orllewin/Canolbarth Cymru, a GWE ar gyfer Gogledd Cymru.

[3] Fel sy'n digwydd ar gyfer y PDG.

**Nodau**

Mae'r astudiaeth yn gwerthuso gweithredu a rheoli'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar ôl y newidiadau yn Ebrill 2015 i ddyrannu a rheoli'r grant, gan gynnwys:

- Sut y datblygwyd polisïau ar ddyrannu a defnyddio cyllid yn effeithiol;
- Sut y gwnaed, ac y gwneir penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid;
- Sut y caiff cyllid ei ddefnyddio gan CARh;
- Sut y cynhwysir partneriaid yn y prosesau hyn;
- Sut y caiff cyllid a ddyrannwyd ei fonitro yn erbyn deilliannau disgwyliedig; a
- Sut mae cyllid yn effeithio ar gyrhaeddiad/lles plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi argymhellion hefyd ar ffyrdd i wella rheoli a gweinyddu'r PDG: argymhellion polisi (i lywio arweiniad a chyngor Llywodraeth Cymru i CARh a rhanddeiliaid) ac argymhellion ymarfer (ar weinyddu a dyrannu'r grant gan CARh, ALlau ac ysgolion) er mwyn hyrwyddo effeithiolrwydd y grant i'r eithaf, yn ogystal â nodi dulliau sy'n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Dull**


Rhwng Rhagfyr 2017 a Mawrth 2018, cynhaliwyd pum prif weithgaredd ymchwil: cyfweliadau, e-arolwg, astudiaethau achos, adolygiad llenyddiaeth a chasglu data eilaidd, fel yr amlinellir yn y diagram isod.

Roedd rhai cyfyngiadau ynghlwm wrth hyn o ran mynd i'r afael â nodau ac amcanion y gwerthusiad. Er mwyn ystyried sut y defnyddiwyd y grant, ar ba weithgareddau a gyda pha ganlyniadau, roedd disgwyl i CARh ac ALlau ddarparu data monitro a gwerthuso yn ogystal â gwybodaeth ddogfennol am ba ddyraniadau a wnaed, a pha wariant yr aed iddo ar weithgareddau a ariannwyd gan grant. Ni ddarparwyd y wybodaeth hon yn gyffredinol, a lle cafodd ei darparu, roedd hi'n wybodaeth o ansawdd gwael yn aml. O ganlyniad, nid oedd modd cysylltu dyraniadau grant CARh yn systematig â'u gwariant ar weithgareddau penodol, a'r allbynnau a'r deilliannau a ddisgwylir ganddynt. Yn absenoldeb data, mewn llawer o achosion, defnyddiwyd tystiolaeth o ddyraniadau cyllidebol yn lle gwariant gwirioneddol, ac o gyfweliadau ansoddol a chyfranogwyr yr astudiaethau achos yn disgrifio gweithgareddau a'u deilliannau canfyddedig.  Dylid edrych ar ffigurau yn yr adroddiad fel amcangyfrifon felly, a dylid eu dehongli'n ofalus.

Yn ogystal:

- Roedd canfyddiadau cyfweliadau wedi'u cyfyngu gan wybodaeth anghyflawn deiliaid swyddi. Mewn nifer o CARh ac ALlau, arweiniodd newidiadau mewn deiliaid swyddi dros gyfnod y gwerthusiad at fylchau mewn gwybodaeth rhanddeiliaid a/neu rhanddeiliaid gwahanol yn adrodd gwybodaeth anghyson. Yn rhannol, goresgynnwyd hyn lle'r oedd modd cyfweld â chyn-ddeiliaid swyddi;
- Er y derbyniwyd cyfanswm o 235 o ymatebion o'r arolwg ysgolion (yn cwmpasu tua 15 y cant o ysgolion) nid oedd hyn yn ddigonol i wneud cymariaethau manwl rhwng CARh.

**Trosolwg o'r ymchwil**



Er mwyn asesu'r dystiolaeth, strwythurwyd amcanion yr ymchwil mewn fframwaith gwerthuso yn ymwneud â chydrannau gweinyddu'r PDG: llywodraethu, pennu polisi, dyrannu, a monitro ac arfarnu.

**Tystiolaeth ymchwil ar weithgareddau i helpu addysg plant sy'n derbyn gofal**

Er mai corff cymharol fach oedd o dystiolaeth gadarn o effaith a oedd ar gael, nododd yr adolygiad y gweithgareddau canlynol fel rhai a allai gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n derbyn gofal:

- Ymyriadau a gyd-gynhyrchir gyda phlant a phobl ifanc ac sy'n ystyried cyd-destun ehangach ac anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Offer strategol: Sefydlu systemau ac offer monitro cadarn a gweithdrefnau gwerthuso clir y mae staff ALI ac ysgolion wedi'u hyfforddi i'w defnyddio. Dylai systemau gynnwys mesurau deilliannau clir sy'n canolbwyntio ar gipio anghenion cyfannol ehangach.
- Gweithgareddau hyfforddi: Darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal a sut i'w bodloni; a darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth i'w helpu i gefnogi anghenion addysgol plant yn well yn y cartref.
- Meithrin gallu: Meithrin gallu drwy'r system ehangach drwy hyfforddiant a darparu cymorth i athrawon dynodedig, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth.
- Cymorth penodol: Mae'r sylfaen gryfaf o dystiolaeth gwerthusiadau gyda dyluniadau trwyadl yn awgrymu y gall ymyriadau tiwtora unigolion a grwpiau bach fod yn effeithiol o ran gwella sgiliau academaidd plant sy'n derbyn gofal. Gall adnoddau deunydd fod yn effeithiol, ond dim ond o'u cyfuno gyda darparu cymorth hyfforddedig i rieni maeth neu diwtoriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn defnyddio adnoddau'n adeiladol.

Mae'r adolygiad yn awgrymu'r ffyrdd canlynol hefyd i reoli a darparu cyllid grant yn effeithiol:

- Recriwtio Rhith Bennaeth Ysgol neu gael aelod staff dynodedig tebyg ar lefel ALI sy'n weithiwyr proffesiynol addysgol uwch a phrofiadol, a'i unig gylch gwaith yw cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal trwy gynllunio strategol, monitro a gwerthuso clir a rhwydweithio gyda rhanddeiliaid ehangach.

- Sicrhau bod tîm strategol bach ond â ffocws da ar lefel ALl sy'n hwyluso adeiladu gallu ar draws ysgolion, timau gwaith cymdeithasol a grwpiau rhanddeiliaid ehangach.
- Sicrhau bod gan bob ysgol aelod o'r uwch dîm rheoli sy'n gyfrifol am gyflawni strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a llywodraethwr dynodedig â dealltwriaeth gadarn o anghenion plant sy'n derbyn gofal.

**Canfyddiadau o'r astudiaeth**

***Llywodraethu***

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod gan bob CARh, ALl ac ysgol berson dynodedig yn gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal, sydd â chyfrifoldeb dros gydlynu, cyflawni a monitro gwariant grantiau a chefnogi rhwydweithio a rhannu arfer gorau. Yn ymarferol, nodwyd amrywiadau mawr o ran maint a pharhad adnoddau ar lefel CARh, ALl ac ysgolion. Gallai'r amrywiadau hyn fod wedi effeithio ar ansawdd, cysondeb a chynnwys gwaith ar bob lefel.

Ar lefel genedlaethol, roedd cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru ar newidiadau i'r grant, dyraniadau grant, blaenoriaethau a'r defnydd disgwyliedig o'r grant yn aml yn cael eu darparu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, ac roedd hynny'n effeithio ar gynllunio a gwario'r grant. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ymwybodol o arweiniad Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu'r PDG ehangach, yn enwedig y dogfennau arweiniad mwy diweddar, ac roedd y mwyafrif yn eu gweld yn ddefnyddiol.

Adroddodd sefydliadau rhanddeiliaid ehangach yn cynrychioli plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed, eu bod yn ymwybodol yn gyffredinol o'r newidiadau i'r grant; fodd bynnag, nid ymgynghorwyd â rhai ynglŷn â newidiadau, ac nid oedd syniad clir gan unrhyw un sut yr oedd yr arian wedi'i wario. Galwodd rhai hefyd am gynnwys plant sy'n derbyn gofal yn fwy systematig mewn prosesau cynllunio a llywodraethu.

Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn mynnu bod CARh, ALlau ac ysgolion yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid ehangach a'u bod yn datblygu trefniadau cydweithio. Fodd bynnag, roedd trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn amrywio gryn dipyn rhwng Consortia Addysg Rhanbarthol: roedd grwpiau llywio ffurfiol gan rai CARh, tra bod rhai eraill yn dibynnu ar ymgynghoriadau mwy anffurfiol, ad hoc gyda rhanddeiliaid. Roedd lefelau ymgysylltu cymysg ymhlith cydgysylltwyr LACE mewn

prosesau cynllunio rhanbarthol, ac ymwybyddiaeth gymysg o weithgareddau/cynlluniau rhanbarthol o fewn ALlau ac ysgolion. Ni nodwyd unrhyw fecanweithiau cyfathrebu ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng CARh ac Allau; fodd bynnag, nodwyd bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd rhwng cydgysylltwyr LACE yn y rhan fwyaf o ranbarthau (er enghraifft trwy grwpiau llywio cydgysylltwyr LACE neu'n fwy anffurfiol).

Yn gyffredinol, nid oedd ysgolion yn cael eu cynnwys ym mhrosesau cynllunio CARh ac ALl a phan oedd arian yn cael ei gadw ar lefel ALl, tystiolaeth gyfyngedig oedd bod ysgolion yn cael eu cynnwys mewn prosesau ar lefel ALl i ddyrannu'r cyllid grant a dderbyniwyd. Yn 2016/17, cafodd mwy o benderfyniadau ar lefel ysgolion eu gwneud drwy gydweithio ar lefel clwstwr neu gyda rhanddeiliaid ar lefel ALl neu CARh nag yn 2015/16. Adroddodd ysgolion am lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o newidiadau i'r grant, ac o gynlluniau rhanbarthol a lleol. Nodwyd dulliau lledaenu amrywiol, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cael eu hysbysu drwy sianelau lleol yn hytrach na rhai rhanbarthol. Adroddodd ymatebwyr o ysgolion fod ganddynt ymwybyddiaeth gymharol dda o gyfleoedd hyfforddi, ond ymwybyddiaeth gyfyngedig o wariant arall y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ar lefel CARh ac ALl. Fe wnaeth ymwybyddiaeth o sut i gael cyllid grant wella rhwng 2015/16 a 2016/17.

Nodwyd enghreifftiau o strwythurau/mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu arfer gorau, ond roedd y rhain ar lefel ALl i ALl fel arfer (er enghraifft trwy'r cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) a grwpiau llywio) yn hytrach na'n cael eu hwyluso gan CARh. Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r rhannu arfer gorau yn digwydd yn anffurfiol neu ar sail ad-hoc.

***Pennu polisi***

Roedd staff CARh ac ALl a grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol, yn gyffredinol, yn deall nodau ac amcanion cenedlaethol y grant a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno gyda blaenoriaethau ar lefel genedlaethol, gan nodi bod newidiadau ac amcanion grant yn angenrheidiol ac amserol. O ystyried y cytundeb cyffredinol o ran blaenoriaethau, byddai arweinwyr CARh yn dymuno symud at fodel cenedlaethol ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau. Fodd bynnag, roedd staff ALl a grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol yn awgrymu'n aml y gallai Llywodraeth Cymru egluro'n well mai penderfyniad polisi cenedlaethol oedd cyflwyno'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r gofyniad am i'r cyllid gael ei gadw ar lefel ranbarthol; darparu arweiniad cliriach ar y mathau o weithgarwch y gellir eu hariannu a pha bobl ifanc a

gwmpesir gan y cyllid; egluro p'un a ddylai deilliannau lles ehangach gael eu hystyried ochr yn ochr â chyrhaeddiad addysgol; a darparu mwy o eglurder ynglŷn â sut dylai plant sy'n symud i mewn neu allan o Gymru gael eu cefnogi gan y grant.

Roedd blaenoriaethau a chynlluniau ar lefel ranbarthol a lleol yn gyson yn gyffredinol; fodd bynnag, nodwyd rhai gwahaniaethau yn y mathau o weithgareddau a gynlluniwyd, yn enwedig ar lefel ALl. Lle'r oedd amrywiadau bach i'w cael, teimlai ALlau eu bod yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol eu poblogaeth. Roedd cysoni blaenoriaethau ar lefel CARh a blaenoriaethau clwstwr yn llai eglur; adroddodd y rhan fwyaf o'r cyfweleion a wnaeth sylwadau ar drefniadau clwstwr fod amrywiadau mawr yng nghynnwys ac ansawdd ceisiadau clwstwr.

Adroddodd pob un o'r pedwar CARh iddynt ddiweddaru cynlluniau ar ôl asesu gwariant, adolygu a thrafod blaenoriaethau yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ac mewn rhai achosion, ar sail y sylfaen dystiolaeth ehangach, canfyddiadau arfer gorau a chanlyniadau gwerthuso. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw brosesau adolygu systematig. Ar lefel ALl, adroddodd tri ALl eu bod wedi diweddaru cynlluniau ar sail monitro a gwerthuso gwariant. Teimlai ymatebwyr i'r arolwg mewn ysgolion fod cynlluniau rhanbarthol, yn gyffredinol, yn ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru ac ymchwil gyfredol a/neu arfer gorau; fodd bynnag, nid oedd hyn mor wir ar gyfer cynlluniau lleol.

***Dyrannu***

Mewn perthynas â dirprwyaethau cyllid:

- Roedd y lefelau (CARh, ALl, ysgol) yr oedd CARh yn dirprwyo cyllid grant iddynt ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau yn amrywio ar draws CARh a rhwng blynyddoedd. Cadwodd pob un o'r CARh rywfaint o gyllid ar gyfer ALlau (yn 2015/16), a chadwodd dau rywfaint o gyllid ar gyfer ALlau yn 2016/17 (nid y GCA na Chonsortiwm Canolbarth y De (CSC)). Darparodd yr holl CARh gyllid i ysgolion (neu glystyrau); rhai yn uniongyrchol (GwE yn y ddwy flwyddyn, CSC a GCA yn 2016/17), a rhai trwy gyllid ALl (CSC a GCS 2015/16, GwE ac ERW), er bod cyfrannau cyllid yn amrywio yn ôl y CARh.
- Nodwyd amrywiadau yn y dull o benderfynu ar ddyraniadau cyllid: yn lle defnyddio data gwasanaethau cymdeithasol i bennu cyfansymiau dyrannu ar gyfer ALlau neu glystyrau ysgolion, fe wnaeth tri CARh ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Tra bod pob un o'r CARh wedi

defnyddio dull fformiwla o ddyrannu cyllid i ALlau; defnyddiwyd y dull ceisiadau yn fwyaf cyffredin ar gyfer dyraniadau ysgol ar lefel CARh neu ALl.

- Roedd rhwng 2 a 12 y cant o'r cyfanswm cyllid rhanbarthol yn cael ei gadw ar lefel CARh; yn gyffredinol, cadwodd CARh gyfran uwch o gyllid ar lefel ranbarthol yn 2016/17 o gymharu â 2015/16. Roedd pob un o'r CARh yn cadw rhywfaint o arian i gyllido arweinyddiaeth a rheolaeth CARh a hyfforddiant lefel rhanbarthol ar faterion ymlyniad a newid ymddygiad. Hefyd, defnyddiwyd cyfran fach iawn o gyllid ar gyfer gweithgareddau rhwydweithio a rhannu arfer gorau yn CSC, ERW a GwE ac ar gyfer cynorthwyo gwell monitro a gwerthuso.
- Ar lefel ALl, ychydig o gyllid a ddefnyddiwyd i wella systemau a phrosesau monitro a gwerthuso; adroddodd bron pob un o'r ALl eu bod wedi defnyddio cyllid i ddarparu hyfforddiant ar lefel ALl; fe wnaeth dros hanner ariannu staff cymorth ar lefel ALl; adroddodd ychydig o dan hanner yr ALlau ar draws yr holl CARh eu bod wedi defnyddio cyllid ar gyfer gweithgareddau rhannu arfer gorau; ac adroddodd bron pob un ohonynt eu bod wedi darparu cymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal. ERW oedd yr unig CARh i ariannu staff cymorth ychwanegol yn gyson ar lefel ALl ym mhob un o'r ALlau.
- Roedd llai o wybodaeth ar gael am y gweithgareddau a ariannwyd trwy geisiadau clwstwr neu ysgolion, ond ceir tystiolaeth o ariannu ar gyfer hyfforddiant ysgolion/clwstwr, recriwtio staff, cymorth unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal/ymyriadau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a strategaethau ysgol gyfan sy'n cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn anghyfartal. Ymddengys mai bach iawn o gyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau monitro a gwerthuso, a rhwydweithio a rhannu arfer gorau.

Ac ar gyfer prosesau ariannu:

- Roedd alldalu cyllid yn hwyr yn effeithio ar allu staff CARh, ALl ac ysgolion i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau. Tynnodd ymatebwyr i'r arolwg ysgolion sylw hefyd at gymorth cyfyngedig gyda cheisiadau cynigion, a mwy o faich gweinyddol yn sgil prosesau ceisiadau clwstwr.
- Ymddengys bod y mwyafrif o'r dyraniadau yn gyson â gofynion grant. Ar lefel CARh, ALl ac ysgolion, mae'r rhain yn gyson i raddau helaeth ag arweiniad a blaenoriaethau cyffredinol lefel CARh. Mae'n anoddach asesu cysondeb cyllid

bwrsariaeth ysgolion a cheisiadau clwstwr gyda blaenoriaethau lefel CARh o ystyried y diffyg wybodaeth glir am wariant a monitro sydd ar gael.

- Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod staff CARh ac ALl wedi defnyddio tystiolaeth o angen i lywio dyraniadau cyllid, ac ar gyfer ceisiadau clwstwr, bod CARh neu ALlau, yn gyffredinol, yn mynnu bod ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid a oedd yn darparu rhywfaint o wybodaeth am anghenion dynodedig. Ariannwyd hyfforddiant, hyfforddiant ymlyniad a staff cymorth gan y grant, sy’n gyson gydag arfer gorau. Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael o gyllid ar gyfer gweithgareddau arfer gorau eraill.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth fod penderfyniadau ar gyllid ar lefel CARh ac ALl wedi’u seilio ar dystiolaeth o’r hyn sy’n gweithio, a’u bod wedi’u hariannu yn gyson ag arfer gorau, ond ni nodwyd unrhyw ddull systematig o nodi beth sy’n gweithio, a bwydo hynny i brosesu gwneud penderfyniadau.
- Ar lefel ysgolion, fe wnaeth dros hanner yr ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant benderfyniadau cyllid lefel ysgol ar sail anghenion unigol plant sy’n derbyn gofal yn yr ysgol, ond dywedodd llai o ymatebwyr eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail asesiad o anghenion ar lefel ysgol (ychydig dros hanner) a dim ond un rhan o bump wnaeth adrodd eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Nid oedd dyraniadau yn cynnwys costiadau a chyllidebau yn aml. Er yr adroddwyd am gyfanswm y dyraniadau gan CARh ac ALl, nid yw pob un ohonynt yn darparu dadansoddiadau clir o wariant wedi’i gynllunio yn ôl math o weithgaredd.
- Yn gyffredinol, adroddiadau ansoddol yn bennaf oedd mewn cynlluniau cymorth CARh heb unrhyw ddull safonedig o adrodd am wariant wedi’i gynllunio ar draws ALlau, ac adroddiadau cyfyngedig/aneglur am wariant gwirioneddol ar lefel CARh ac ALl a oedd yn gwneud cymariaethau rhwng dyraniadau wedi’u cynllunio a dyraniadau gwirioneddol yn anodd.
- Lle’r oedd modd cymharu gwariant wedi’i gynllunio a gwariant gwirioneddol, roedd tanwariant neu orwariant mawr gan rai ALlau yn un neu’r ddwy o’r blynyddoedd ariannu.

- Roedd cynnwys ac ansawdd cynlluniau lefel CARh yn gymysg. Tra bod rhai yn adrodd am ganlyniadau, deiliannau a thargedau disgwyliedig, weithiau wedi'u dadansoddi yn ôl gweithgaredd, yn gyffredinol roedd ansawdd ac eglurder pennu targedau a phenodoldeb/mesuradwyedd deilliannau dethol yn wael.

***Monitro a gwerthuso***

Mae systemau gan yr holl CARh ar waith i olrhain dyraniadau gwario i ryw raddau. Fodd bynnag, mae systemau yn amrywio o ran ffurf ac ansawdd sy'n golygu nad oes unrhyw fformatau na matricsau adrodd safonedig. Nodwyd amrywiadau tebyg mewn dulliau monitro a gwerthuso ar lefel ALl, gyda rhai ALlau yn adrodd ychydig iawn neu ddim o gwbl ar fonitro gwariant neu ddeilliannau. Ar lefel ysgolion, nid oedd ysgolion yn monitro deilliannau yn sgil gwariant yn gyson.

Nid oedd holl staff ALl ac ysgolion a oedd yn gyfrifol am wario dyraniadau grant yn glir ynglŷn â'u rôl o ran monitro gwariant a'r deilliannau a gyflawnwyd. Y rheswm am hyn yn rhannol yw'r prosesau dyrannu/alldalu cyllid gwahanol, strwythurau llywodraethu a lefelau darparu adnoddau ar draws ALlau a CARh, ac yn rhannol oherwydd diffyg arweiniad clir ar yr atebolrwydd am gyllid wedi'i ddirprwyo. Teimlai'r rhai a gafodd eu cyfweld ar lefel CARh ac ALl fod ysgolion yn fwy atebol am eu gwariant o gymharu â chyn-2015 pan oedd arian yn cael ei ddyrannu i ysgolion yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedden nhw a rhanddeiliaid cenedlaethol yn ymwybodol fod systemau monitro a gwerthuso yn wael o hyd yn gyffredinol, a bod angen gwelliannau.

O ystyried ansawdd cymharol wael y systemau monitro a gwerthuso sydd ar waith, tystiolaeth gyfyngedig iawn sydd o effaith fesuredig y grant. Yn gyffredinol, roedd consensws ynghylch y canlynol:

- Bod y trefniadau ariannu newydd wedi cynyddu proffil cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal a golygai hynny bod cyllid yn targedu plant sy'n derbyn gofal yn well;
- Mae'r cyllid strategol wedi hwyluso uwchsgilio staff yn gynaliadwy, wedi cryfhau gallu ar draws ysgolion, ac wedi gwella cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid yn cynnwys ysgolion, ALlau, gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr maeth;
- Mae hyfforddiant ar lefel CARh ac ALl wedi gwella ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o anghenion plant sy'n derbyn gofal ac, mewn llawer o achosion, wedi gwella eu gallu i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn yr ystafell ddosbarth. Fe wnaeth

canfyddiadau gwerthuso mewnol yn ERW gysylltu hyfforddiant ymlyniad hefyd â gwelliannau mewn canlyniadau TGAU a chyfraddau presenoldeb a gwahardd gwell.

- Roedd staff cymorth ychwanegol wedi cynorthwyo meithrin gallu mewn ysgolion ac wedi gwella deilliannau addysgol a lles ar gyfer plant unigol sy'n derbyn gofal, fel llai o waharddiadau, cyrhaeddiad uwch a lles gwell.

Ar lefel ranbarthol, nodwyd bod hyfforddiant yn ddefnydd o gyllid arbennig o effeithiol; ar lefel ALl, gwelwyd recriwtio staff, hyfforddiant a chymorth bwrsariaeth hyblyg fel yr elfennau mwyaf effeithiol; ac ar lefel ysgolion, nododd ymatebwyr i'r arolwg ymyriadau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, hyfforddiant ysgolion a recriwtio staff cymorth ysgolion fel elfennau a gafodd yr effaith fwyaf.

**Casgliadau**

***Pa mor dda y mae'r system a gyflwynwyd yn 2015 yn gweithredu?***

Nodau'r system ariannu newydd a gyflwynwyd yn 2015 oedd gwella'r ymagwedd strategol at benderfyniadau cyllidol; lleihau biwrocratiaeth a gweinyddu; ac ehangu ystod y buddiolwyr grant. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CARh gydweithio ag ALlau, ysgolion a phartneriaid eraill i ddatblygu ymyriadau effeithiol ar gyfer gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Disgwyliwyd y byddai unrhyw ddirprwyo cyllid i ALlau neu ysgolion yn eithriadol, a dim ond pan fyddai cynlluniau yn gyson ag ymagwedd ranbarthol.

Mae'r astudiaeth wedi nodi nad yw holl ddisgwyliadau'r Llywodraeth wedi'u bodloni. Canfu fod CARh wedi pennu amcanion strategol ac wedi gweithredu proses ddyrannu ddiwygiedig sydd wedi defnyddio rhywfaint o'r grant ar gyfer gweithgareddau cynaliadwy strategol, fel meithrin gallu athrawon drwy hyfforddiant, a chyfran fawr o'r grant ar gyfer cynorthwyo grwpiau o blant sy'n derbyn gofal mewn ALlau a chlystyrau ysgolion sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.

Fodd bynnag, canfu hefyd fod yr ymagweddau strategol wedi dirprwyo symiau mawr o'r grant naill ai i ALlau ac ysgolion neu i'r ddau, nad yw cydweithio wedi'i sefydlu'n dda ym mhob ardal, ac y gellid dangos tystiolaeth well o'r defnydd o'r grant ar ymyriadau effeithiol. Er bod nodweddion tebyg yn strategaethau a blaenoriaethau CARh sy'n adlewyrchu anghenion plant sy'n derbyn gofal, nid oes system effeithiol yn cael ei gweithredu yn unrhyw un o'r CARh i gynllunio, dyrannu a sicrhau atebolrwydd ar gyfer y grant lle caiff ei ddirprwyo. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo

cyllid wedi'i ddirprwyo i glystyrau ysgolion. Gellir gweld amrywiadau mawr mewn rheolaeth y grant a threfniadau darparu adnoddau, yn ogystal ag amrywiadau yn y prosesau dyrannu grant a ddefnyddir ym mhob CARh, ar draws ALlau yn yr un CARh ac ar draws blynyddoedd ariannu.

Mae amrywiadau ar lefel CARh, ALl ac ysgolion yn y modd y cyfrifir am wariant grant a deilliannau, a bylchau yn y data ar wariant gwirioneddol, wedi'i gwneud hi'n anodd asesu sut y gwariwyd y grant yn 2015/16 a 2016/17 a pha weithgareddau sydd wedi cyfrannu at unrhyw fuddion i blant sy'n derbyn gofal.

***Beth yw'r rhesymau am y sefyllfa hon?***

Gellir nodi'r ffactorau canlynol o'r ymchwil fel rhesymau posibl am y diffygion a amlinellwyd uchod:

- **Argaeledd staff i arwain a chydlynu:** mae gwahaniaethau yn ansawdd a pharhad arweinyddiaeth ar lefel CARh ac ALl wedi effeithio ar gryfder trefniadau llywodraethu, systemau ariannol a systemau cyfathrebu, ac felly'r graddau y mae blaenoriaethau a gweithgareddau wedi'u datblygu'n dda, wedi'u deall a'u cysoni ar bob lefel. Mae amrywiadau o ran darparu adnoddau a diffyg parhad mewn swyddi yn cael eu llenwi yn debygol hefyd o fod wedi effeithio ar y gallu i fonitro a gwerthuso gwariant a deilliannau o'r grant.
- **Ansawdd perthnasoedd gweithio a chydweithio rhwng deiliaid cyllidebau a derbynyddion grant (LlC a CARh, CARh ac ALlau a CARh/ALlau ac ysgolion):** nid yw llywodraethu a chyfathrebiadau gan CARh ac ALlau wedi ymgysylltu'n systematig â'r holl randdeiliaid allweddol bob amser, fel cydgysylltwyr LACE a chynrychiolwyr eraill plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi effeithio ar lefel yr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r grant; y cysondeb rhwng blaenoriaethau a'r mathau o weithgareddau a ariennir mewn rhai achosion; sefydlu allbynnau a deilliannau ar gyfer monitro gweithgareddau grant; a'r graddau y mae staff sy'n gyfrifol am weithgareddau a ariennir yn deall y gofynion monitro a gwerthuso
- **Dealltwriaeth gyfyngedig o beth sy'n gweithio:** er bod rhywfaint o dystiolaeth bod CARh ac ALlau yn seilio penderfyniadau ariannu ar yr hyn y deallant sy'n gweithio er mwyn helpu cynyddu'r cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae hyn yn seiliedig yn amlach ar farnau ymarferwyr eraill o arfer gorau na thystiolaeth ymchwil a rhwydweithiau dysgu. Gellir effeithio ar hyn gan y

ffaith fod tystiolaeth o arfer gorau i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal mewn dogfennau arweiniad amrywiol, tystiolaeth ymchwil nad yw'n gadarn yn gyffredinol, a phrosesau ad-hoc ar waith i nodi a rhannu arfer gorau ar draws CARh ac ALlau.

- **Systemau anghyson ar gyfer alldalu'r grant:** mae strwythurau alldalu cyllid amrywiol wedi effeithio ar: gysondeb ac aliniad gweithgareddau a ariennir ar draws CARh ac ALlau; lefel ymgysylltiad rhanddeiliaid gwahanol mewn cynllunio, dyrannu grant ac adolygu gwariant ac effaith; y gallu i asesu angen yn ddigonol a dewis ymyriadau effeithiol; ac ansawdd monitro a gwerthuso gwariant a deilliannau. Mae'r rhain hefyd wedi arwain at lefelau gwahanol o ran gweinyddu'r grant/biwrocratiaeth ar lefel CARh, ALl ac ysgolion, a lefelau gwahanol o ddarpariaeth grant (er enghraifft, nid yw pob clwstwr ysgolion yn gwneud cais am gyllid).
- **Systemau gwael ar gyfer monitro ac adolygu dyraniadau grant:** mae systemau annigonol ac absennol ar gyfer monitro a gwerthuso gwariant grant wedi effeithio ar y graddau y gellir asesu'r defnydd o'r grant a'i effaith. Mae hefyd wedi effeithio ar y graddau y gellir diweddaru cynlluniau a blaenoriaethau gwario ar sail beth sy'n gweithio, a'u monitro er mwyn atal gorwariant neu danwariant rhag digwydd.

**Beth fyddai'n gwella proses y grant a'r defnydd effeithiol o'r grant?**

Gallai'r canlynol fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r diffygion a nodwyd uchod:

- **Argaeledd staff i arwain a chydlynu:** dylai pob CARh sicrhau bod arweinydd CARh amser llawn yn ei le i ymgymryd â gweithgareddau llywodraethu, cyfathrebu a monitro sydd eu hangen. Ar lefel ALl, dylai fod cydgysylltydd LACE amser llawn fod yn ei le yn ôl y disgwyl ym mhob ALl, yn cael ei gefnogi gan staff eraill (gan ddibynnu ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ym mhob ALl a'u hanghenion cymorth) yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod addysg a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn ffocws cymorth allweddol[4]. Ar lefel ysgolion, dylai fod arweinydd dynodedig plant sy'n derbyn gofal yn bresennol ym mhob ysgol.
- **Trefniadau gweithio gwell rhwng deiliaid cyllidebau a derbynyddion grant (LIC a CARh, CARh ac ALlau/cynrychiolwyr plant sy'n derbyn gofal a CARh/ALlau ac ysgolion):** mae angen arweiniad cliriach a mwy amserol gan

[4] Gwneud Gwahaniaeth, Tachwedd 2017, tud 7-9

Lywodraeth Cymru ar flaenoriaethu, dyrannu a defnyddio'r grant, er bod awdurdod gan CARh i wneud paratoadau bob blwyddyn cyn cael union ddyraniadau, o ystyried ymrwymiad datganedig y Llywodraeth i'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Dylai fod trefniadau ffurfiol a chyson gan bob CARh ar gyfer cynnwys cydgysylltwyr LACE, cynrychiolwyr ysgolion ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a grwpiau rhanddeiliaid ehangach (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth) mewn prosesau cynllunio a monitro ac mewn cyfathrebiadau ynglŷn â'r grant, a thrwy gydol y flwyddyn ariannol.

- **Cynyddu dealltwriaeth o beth sy'n gweithio, ac anghenion plant sy'n derbyn gofal:** ar lefel genedlaethol, mae angen i'r dystiolaeth bresennol o'r gweithgareddau mwyaf effeithiol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal fod mewn un lle, a'i diweddaru'n rheolaidd, ac mae angen cyfleu'r canfyddiadau allweddol/arfer gorau ar gyfer staff ALl ac ysgolion ar ffurf symlach. Hefyd, mae angen prosesau monitro a gwerthuso cryfach yn enwedig ar gyfer CARh ac ALlau, a dull mwy systematig o gynnwys staff allweddol ysgolion mewn dysgu am arfer da.
- **Systemau ar gyfer rheoli dyraniadau grant (penderfyniadau, gweithredu):** o ystyried cysondeb cyffredinol blaenoriaethau grant ar draws y rhanbarthau, gellid cyflwyno model cenedlaethol ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau, gyda disgwyliad i bob CARh ddilyn proses alldalu a chyfrifo tebyg, gyda grantiau'n cael eu dyrannu ar amod bod cynllun cyflwyno adnoddau ac allbynnau a deilliannau cytûn. Gellid ategu'r system hon gan system gyffredin ar gyfer monitro ac adolygu dyraniadau grant. Dylai hyn roi gwedd gliriach ar rolau a chyfrifoldebau, mesurau deilliannau (gan gynnwys lles plant sy'n derbyn gofal a'u presenoldeb yn yr ysgol), ac adroddiadau cyffredin gyda ffocws syml ar ddyraniadau gwario, gwariant gwirioneddol ac allbynnau/deilliannau yn cael eu hadrodd yn erbyn categorïau gweithgarwch wedi'u rhag-ddiffinio er mwyn darparu gwybodaeth lefel uchel ar gyfer atebolrwydd, monitro ac adolygu.
- **Systemau atebolrwydd**: Mae angen i CARh ac ALlau fod yn atebol yn gliriach o ran y modd y mae'r grant ac arfer rolau rhianta corfforaethol yn cael effaith gadarnhaol ar addysg plant sy'n derbyn gofal. Gallai'r Llywodraeth ystyried targedau rhanbarthol ac adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn amlinellu cyfraniad y grant tuag at y gwelliannau a gyflawnwyd.

## Argymhellion

### *Llywodraeth Cymru (polisi ac arfer)*

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ryddhau cyfathrebiadau'n ymwneud â newidiadau i'r grant, blaenoriaethau blynyddol a chyfansymiau cyllid i CARh cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- Datblygu un ddogfen arweiniad, hawdd ei darllen, ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal yn benodol, i ddisodli'r arweiniad Cwestiynau Cyffredin sydd i'w gael ar hyn o bryd. Dylai'r arweiniad dargedu rhanddeiliaid ar lefel CARh, ALl ac ysgolion, a dylai gynnwys:
    - gofynion adnoddau ar gyfer gweinyddu'r grant ar lefel CARh, ALl ac ysgolion;
    - arweiniad ar ddisgwyliadau o ran llywodraethu, cydweithio ac ymgynghori, alldalu ac atebolrwydd sy'n adlewyrchu'r model cenedlaethol cytûn;
    - eglurhad o'r modd y dylai ALlau gynorthwyo unigolion sy'n symud i ffwrdd o'r ALl, a pha ddisgyblion y mae'r cyllid yn eu cynnwys (h.y. diffiniadau cliriad o'r grwpiau buddiolwyr);
    - eglurhad o ddeilliannau disgwyliedig y grant mewn perthynas ag addysg plant sy'n derbyn gofal: er bod deilliannau addysgol yn ffocws allweddol, dylai'r arweiniad ddweud yn glir bod deilliannau lles ehangach a phresenoldeb o fewn y cwmpas hefyd; a
    - datganiad clir ar yr hyn y gellir gwario'r grant arno, a'r lefel fwyaf priodol ar gyfer cyflwyno, a fydd yn ddealladwy i CARh, ALlau ac ysgolion.
- Tynnu'r dystiolaeth ynghyd o ba weithgareddau sy'n gweithio mewn un lle, a diweddaru hyn. Gallai'r arweiniad hwn fod yn ddogfen annibynnol neu ei gynnwys fel atodiad mewn dogfen arweiniad PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Gweithredu model cenedlaethol ar gyfer cynllunio, gweithredu a gwerthuso'r grant, i'w adlewyrchu yn yr Arweiniad ac yn nhelerau ac amodau'r grant fel bo'n briodol, i gynnwys:
    - Pennu blaenoriaethau a thargedau, a dylid gwneud hyn ar lefel genedlaethol trwy ddatblygu trefniadau llywodraethu cadarn i gynnwys rhanddeiliaid ar lefel CARh ac ALl;

- Cyfran o’r cyllid y dylid ei gadw ar lefel CARh ar gyfer swydd arweiniol y CARh a gweithgareddau sy’n cefnogi arweinyddiaeth, dysgu a chydweithio rhanbarthol - hyfforddiant parhaus ar gyfer athrawon a gofalwyr maeth, monitro a gwerthuso, rhwydweithio a gweithgareddau rhannu arfer gorau;
- Arweiniad monitro a gwerthuso gyda gwybodaeth glir ynglŷn â phwy sy’n gyfrifol am fonitro a gwerthuso gwariant a deilliannau ar bob lefel (CARh, ALl ac ysgolion) ac am y modd y dylai rhanddeiliaid gwahanol fynd ati i fonitro a gwerthuso (h.y. y mathau o fethodolegau gwerthuso i’w defnyddio ar gyfer gwahanol weithgareddau). Dylai hefyd gynnwys set o fesurau allbynnau a deilliannau safonedig y mae’n rhaid eu defnyddio gan bob CARh ac ALl i adrodd am effaith;
- Strwythur taenlen/adroddiad cyffredin ar gyfer CARh i ddarparu atebolrwydd am y grant a wariwyd a gwybodaeth y gellir ei choladu’n hawdd i ddangos ar ba weithgareddau, ac i ba ddiben (allbynnau a deilliannau) y gwariwyd y grant. Bydd CARh yn eu tro yn gallu ei ddefnyddio i olrhain gwariant gwirioneddol yn rheolaidd yn erbyn gwariant a gynlluniwyd, a chipio deilliannau a fesurir ar gyfer pob math o weithgaredd yn erbyn dangosyddion safonol.

- Mynnu bod CARh yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd eu hardal tuag at dargedau rhanbarthol o ran gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal gyda thystiolaeth o’r cyfraniad a wnaeth y grant at hyn.

***Ymarferwyr lefel CARh (ymarfer)***

Dylai CARh:

- Sicrhau eu bod yn gwneud cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ymhell cyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, a pheidio ag aros am union ddyraniadau a llythyrau grant gael eu dosbarthu.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn a chyson i’w cael ar lefel CARh er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau; atebolrwydd, a rhwydweithio, a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau gyda chydgysylltwyr LACE a chynrychiolwyr o ysgolion trwy gydol y flwyddyn ariannol. Dylai’r trefniadau hyn gynnwys ymgynghori â gofalwyr maeth a phlant sy’n derbyn gofal.
- Sicrhau bod strategaethau cyfathrebu systematig ar waith i hysbysu cydlynwyr Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal, staff ysgolion a rhanddeiliaid ehangach o

gynlluniau rhanbarthol, darpariaeth ar lefel CARh, a phrosesau ar gyfer cael cyllid sydd wedi'i ddirprwyo neu'n agored ar gyfer ceisiadau.

- Darparu cymorth i ysgolion ar gyfer ceisiadau clwstwr os rhoddir dyraniadau i'r rhain, sicrhau bod cytundeb gan y clwstwr i gyflawni a gwella effeithlonrwydd prosesau gwneud cais.
- Mabwysiadu'r model cenedlaethol arfaethedig a bodloni trefniadau adrodd i gyfrif am werth ychwanegol y grant yn y blynyddoedd i ddod.

**ALlau ac ysgolion (ymarfer)**

Dylai ALlau:

- Sicrhau bod ganddynt gydgysylltydd LACE y mae ei rôl yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau a amlinellwyd yn arweiniad Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod cysondeb rhwng timau/staff y cydgysylltydd LACE â thimau perthnasol eraill yn yr ALl er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithio agos.
- Cyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru ac ar lefel CARh ar gyfer y grant, a chynorthwyo arweinydd y CARh i ddatblygu a chyflawni gweithgareddau rhanbarthol a ariennir gan y grant.
- Sicrhau bod unrhyw weithgareddau ar lefel ALl a ariennir gan y grant yn gynaliadwy, ac y gellir eu cyflawni i fodloni allbynnau a deilliannau cytûn.
- Asesu angen yn rheolaidd o fewn yr ALl trwy weithio'n agos gyda phlant sy'n derbyn gofal a phlant yn derbyn gofal yn flaenorol, a chydweithio'n rheolaidd gyda staff ysgolion, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol.
- Cydymffurfio â threfniadau adrodd er mwyn cyfrif am y defnydd o'r grant a'i werth ychwanegol lle caiff cyllid ei ddirprwyo.

Dylai ysgolion/clystyrau ysgolion:

- Sicrhau bod ganddynt arweinydd dynodedig plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion sy'n aelod o'r uwch dîm rheoli â chyfrifoldeb am gyflawni strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a llywodraethwr dynodedig sydd â dealltwriaeth gref o anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Gwella eu rhwydweithio a'u hymgysylltiad â gofalwyr maeth er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â chyllid grant e.e. annog athrawon i drafod gwariant y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr yn ystod

nosweithiau rhieni a sicrhau bod arweinwyr plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion yn monitro ac yn annog ymgysylltiad gofalwyr maeth.

- Cydymffurfio â threfniadau adrodd er mwyn cyfrif am y defnydd o'r grant a'i werth ychwanegol lle caiff cyllid ei ddirprwyo.
- Sicrhau bod unrhyw weithgareddau ar lefel ysgolion a ariannwyd gan y grant yn gynaliadwy, ac y gellir eu cyflawni i fodloni allbynnau a deilliannau cytûn.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd ICF Consulting, Ymchwil Arad a Phrifysgol Caerdydd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i gynnal gwerthusiad o weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal dros y blynyddoedd 2015/16 a 2016/17[5]. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r rhaglen waith lawn yr ymgymerwyd â hi, ac yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad.

**Cefndir**

1.2 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cyflawniad addysgol fel rhan annatod o'u dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant y maent yn gofalu amdanynt[6]. Yn ôl Deddf Plant 1989, diffinnir plentyn fel plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (ALl) os yw llys wedi pennu gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu fod adran gwasanaethau plant yr ALl wedi gofalu am blentyn am fwy na 24 awr. Erbyn 2018, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd 75 y cant o'r rhai sy'n gadael gofal i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2018, pan fyddant yn cyrraedd 19 oed[7]. Fodd bynnag, ceir bwlch o hyd yn neilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol yng Nghymru, ac maent yn parhau â chyfraddau dilyniant isel i addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth ystyrlon[8]. Gall ystod o rwystrau eu hatal rhag cyrraedd eu potensial academaidd, fel lleoliadau maeth ansefydlog, symud ysgol a pherthnasoedd anghyson gyda theulu, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol[9].

1.3 Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion[10] yn 2012 i ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn helpu lliniaru anfanteision i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Adroddodd y gwerthusiad cyntaf o'r PDG, lle'r oedd arian ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion, fod hyn yn arwain weithiau at adnoddau'n cael eu targedu'n wael a methu cyflawni deilliannau effeithiol[11]. Canfu adroddiad gwerthuso ail flwyddyn mai dim ond ychydig o ysgolion wnaeth adrodd fod ymgynghorwyr ALl wedi chwarae rhan yn herio neu'n

---

[5] Lle bo'n enghreifftiol, mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau hefyd ar gynlluniau a gweithgareddau 2017-18 ac yn gwneud cymariaethau rhwng blynyddoedd lle bo'n berthnasol.

[6] O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[7] Llywodraeth Cymru, 2016. *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Strategaeth*.

[8] Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., et al., 2015. *Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.*

[9] Ibid.

[10] Galwyd yn Grant Amddifadedd Disgyblion yn flaenorol, ac fe'i ailenwyd ym mis Mawrth 2017

[11] Pye, J., Hardy, C. a Taylor, C. (2014) *Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 90/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

cadarnhau gwariant a thargedu. Argymhellodd dull mwy systematig o gydweithio a rhannu arfer gorau, gyda mwy o gyfranogiad gan Gonsortia Addysg Rhanbarthol (CARh) er mwyn sicrhau bod nodau'r PDG yn cael eu bodloni yn nefnydd ysgolion o'r grant[12]. Yn 2015, penderfynwyd gwahanu'r cyllid a ddarperir ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYDd) a phlant sy'n derbyn gofal trwy ddau grant ar wahân. Yn ogystal, byddai dyraniadau ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwneud i'r pedwar CARh[13], yn hytrach nag i ysgolion yn uniongyrchol, gyda'r nod o hwyluso ymagwedd fwy strategol at ddefnyddio'r cyllid ar draws y rhanbarthau. Ychydig llai na £4 miliwn y flwyddyn yw'r dyraniad.

1.4 Er mwyn gwella deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, amlinellodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu tair blynedd hefyd yn 2015/16. Roedd hwn yn cynnwys camau i gefnogi newidiadau i'r broses dyrannu grantiau. Gyda'r cynllun tair blynedd yn dod i ben, adroddodd Llywodraeth Cymru nad yw gweithredu'r PDG i blant sy'n derbyn gofal wedi datblygu mewn modd cyson, a bod cyflymdra newid yn amrywio rhwng CARh ac ar draws ardaloedd CARh[14]; tra nododd Estyn y dylai CARh wella cynllunio a blaenoriaethu'r defnydd o'r grant gan ystyried anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal[15].

### Nodau ac amcanion yr astudiaeth

1.5 Nod yr astudiaeth yw gwerthuso gweithredu a rheoli'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ers y newidiadau yn Ebrill 2015 i ddyrannu a rheoli'r grant, gan gynnwys:

- Sut y datblygwyd polisïau ar ddyrannu a defnyddio cyllid yn effeithiol;
- Sut y gwnaed, ac y gwneir penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid;
- Sut y caiff cyllid ei ddefnyddio gan CARh;
- Sut y cynhwysir partneriaid yn y prosesau hyn;
- Sut y caiff cyllid a ddyrannwyd ei fonitro yn erbyn deilliannau disgwyliedig; a
- Sut mae cyllid yn effeithio ar gyrhaeddiad/lles plant sy'n derbyn gofal.

---

[12] Ibid

[13] Y rhain yw: Consortiwm Canolbarth y De (CSC) ar gyfer Canolbarth De Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg [GCA] ar gyfer De Ddwyrain Cymru, ERW ar gyfer De Orllewin/Canolbarth Cymru, a GWE ar gyfer Gogledd Cymru.

[14] *Llythyr a ysgrifennwyd gan Steve Davies*, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Addysg.

[15] Estyn, 2016. *Adroddiad arfer orau ar godi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal - adroddiad arfer orau*.

1.6 Nodwyd y cwestiynau ymchwil canlynol gan Lywodraeth Cymru fel rhai allweddol i fynd i’r afael â gofynion y gwerthusiad hwn:

- Beth yw’r prosesau gweinyddol sydd ar waith ym mhob un o ardaloedd y CARh a pha rolau sy’n cael eu chwarae gan staff CARh, ALl ac ysgolion ym mhob cam o’r broses?
- Pa feini prawf sy’n cael eu cymhwyso i benderfynu ar beth i wario’r grant?
- Pa ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir i benderfynu sut y caiff y grant ei wario? A ddefnyddiwyd yr adnoddau, fel y gymuned ymarfer[16]?
- Ar beth y mae’r grant yn cael ei wario? A yw rhanddeiliaid yn cytuno y dylai fod buddion cadarnhaol ynghlwm wrth y rhain, a’u bod yn hanfodol ar gyfer addysg plant sy’n derbyn gofal?
- Pa ddata monitro sy’n cael ei gasglu ar y defnydd o’r grant, a sut y caiff ei ddefnyddio? A yw hyn yn adlewyrchu’r dibenion y’i dyrannwyd ar eu cyfer? A yw hyn yn gyson ag arweiniad Llywodraeth Cymru?
- Beth yw deilliannau’r gweithgareddau a ariannwyd gan y grant? A ydynt wedi gwella ymarfer yn yr ystafell ddosbarth? A ydynt wedi effeithio ar berfformiad academaidd plant sy’n derbyn gofal?
- Pa ddata monitro sy’n cael ei gasglu ar addysg plant sy’n derbyn gofal? A ellir canfod unrhyw effaith gan y grant ar eu haddysg?
- Beth yw barnau staff ysgolion ar y gweithgareddau a ariennir, a’u gwerth i blant sy’n derbyn gofal? I ba raddau y maen nhw’n ymwybodol o’r cyllid?
- Sut gellid gwella proses y grant, a’r defnyddiau a wneir o’r grant?

1.7 Comisiynwyd yr astudiaeth i ddarparu set o argymhellion, yn seiliedig ar ganfyddiadau gwerthuso, ar ffyrdd i wella rheolaeth a gweinyddiaeth y PDG. Mae hyn yn cynnwys argymhellion polisi (i lywio arweiniad a chyngor Llywodraeth Cymru i CARh a rhanddeiliaid) ac argymhellion ymarfer (ar weinyddu a dyrannu’r grant gan CARh, ALlau ac ysgolion) er mwyn hyrwyddo effeithiolrwydd y grant i’r eithaf, yn ogystal â nodi dulliau sy’n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.


[16] Adnodd ar-lein yw hwn ar gyfer ymarferwyr a gofalwyr maeth

1.8 Gallai'r adroddiad hwn helpu ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd ar Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod Mewn Gofal sy'n ystyried y trefniadau ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal, a'i werth am arian, fel rhan o'i gylch gwaith dros y cyfnod 2017-21.

**Trosolwg o ddulliau**


1.9 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys tri phrif gam, fel yr amlinellir isod. Mabwysiadodd ymagwedd dulliau cymysg, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau.

**Ffigwr 1.1 Trosolwg o'r fethodoleg gwerthuso**




1.10 Gwnaed y gwaith ymchwil sylfaenol rhwng Rhagfyr 2017 a Mawrth 2018, ac roedd yn cynnwys pedwar prif ddull ymchwilio: cyfweliadau, e-arolwg, astudiaethau achos a chasglu data eilaidd, fel yr amlinellir yn 0 isod.

**Ffigwr 1.2 Trosolwg o ymchwil**




1.11 Mae manylion pellach y gweithgareddau hyn fel a ganlyn:

- **Cyfweliadau:** roedd yr holl gyfweliadau yn dilyn canllawiau testunau lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd yn Gymraeg neu Saesneg. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal mewn digwyddiad diwrnod cyfan a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Maethu a'r Tîm Ymgyrraedd yn Ehangach ym Mhrifysgol Abertawe. Arweiniwyd yr ymgynghoriadau hyn gan ddau ymchwilydd, ac fe wnaeth y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan weithio drwy nifer o weithgareddau rhyngweithiol gan ddefnyddio lluniau a phosteri, naill ai'n unigol, gyda chymorth neu gan gydweithio mewn grwpiau bach. Cymerwyd nodiadau gan ymchwilwyr i ategu'r lluniau a'r posteri.

- **E-arolwg:** cynhaliwyd peilot o'r arolwg am un wythnos yn unig ar ddechrau mis Chwefror 2018, gydag un ALI. Gwnaed ychydig o newidiadau bach i hyd a geiriad cwestiynau ar sail cyfraddau ymateb ac adborth ysgrifenedig gan 13 o ymatebwyr. Yna, cafodd yr arolwg terfynol, yn cynnwys 36 o gwestiynau (34 ymateb caeedig a dau destun agored), ei gyfieithu i'r Gymraeg, a dosbarthwyd y ddwy ddolen i gyfranogwyr. Roedd yr arolwg ar agor am dair wythnos a hanner, rhwng 21 Chwefror a 18 Mawrth. Dosbarthwyd dolenni'r arolwg gan gydgysylltwyr LACE a/neu'n uniongyrchol i staff ysgolion lle darparwyd manylion cyswllt.
- **Astudiaethau achos:** roeddent yn canolbwyntio ar sampl o weithgareddau wedi'u hariannu gan y grant ar draws pob un o'r pedwar CARh. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys recriwtio staff cymorth, hyfforddiant i staff ysgolion, datblygu systemau monitro a gwerthuso a phrosiectau i rannu dysgu ac arfer gorau. Roedd y cyfweliadau neu grwpiau ffocws astudiaethau achos yn dilyn canllaw testunau lled-strwythuredig, a chynhaliwyd rhwng dau ac 17 o gyfweliadau fesul astudiaeth achos (cafodd cyfanswm o 79 eu cyfweld). Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn cynnwys staff a oedd yn gysylltiedig â dylunio a/neu weithredu, staff cyflwyno a buddiolwyr prosiectau, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal lle bo'n berthnasol a phosibl.
- **Adolygiad llenyddiaeth:** roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn adeiladu ar yr astudiaeth gan Mannay et al. (2015)[17] i nodi'r dulliau mwyaf effeithiol o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Nodwyd rhestr hir o 60 o gyhoeddiadau llenyddiaeth wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd gan aelodau'r tîm ymchwil o Brifysgol Caerdydd. Ar ôl adolygiad cychwynnol, dewiswyd 34 o bapurau ac adroddiadau i'w hadolygu'n fanwl. Yn dilyn yr archwiliad manylach hwn, nodwyd ac adolygwyd astudiaethau perthnasol ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd. O ganlyniad, mae cyfanswm o 40 o astudiaethau wedi'u hystyried yn yr adolygiad terfynol[18]. Gellir gweld rhestr lawn o gyfeiriadau yn Atodiad A.
- **Data eilaidd:** darparwyd y dystiolaeth ddogfennol a restrwyd yn Nhabl 1.1 gan y CARh. Yn ogystal, darparwyd dogfennau amrywiol eraill gan ddau CARh, yn cynnwys: 12 o adroddiadau gwerthuso unigol ar gyfer ysgolion yn CSC;

[17] Mannay, D., et al op.cit.

[18] Deunydd a gyhoeddwyd ers 2010 oedd prif ffocws yr adolygiad. Fodd bynnag, cynhwyswyd rhai papurau ac adroddiadau allweddol cyn y ffrâm amser hwn lle bo'n berthnasol.

strategaeth ranbarthol i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol; adroddiad o ysgol yn ymwneud â'u defnydd o gyllid y PDG i blant sy'n derbyn gofal; a thaenlen yn rhoi dadansoddiad o gyllid a ddarparwyd i ysgolion yn y GCA yn 2016/17. Ar lefel ALl, darparodd 15 ALl dystiolaeth o wariant wedi'i gynllunio (4), gwariant gwirioneddol (5) neu wariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (6) ar gyfer 2015/16, a darparodd 15 dystiolaeth ar gyfer 2016/17 (3 gwariant wedi'i gynllunio, 6 gwariant gwirioneddol a 6 gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol). Roedd tystiolaeth ddogfennol arall ar lefel ALl yn cynnwys: cynlluniau ar lefel ALl (un ALl), gwerthusiadau o ymyriadau hyfforddiant ALl (dau ALl); ffurflenni archwilio (dau ALl), ffurflenni cais bwrsariaeth (un ALl), astudiaethau achos dienw neu werthusiadau o ymyriadau cefnogol ar gyfer disgyblion unigol neu ysgolion (tri ALl); hawliadau/adroddiadau diweddaru ar gyfer ALlau ERW; ac adroddiadau gwerthuso diwedd blwyddyn (tri ALl). Er mwyn rhoi gwedd gliriach ar ddata ar wariant gwirioneddol, gofynnwyd i CARh ac ALlau hefyd i gwblhau templedi dadansoddi gwariant, gan gynnwys categorïau gwariant safonedig. Fe wnaeth tri CARh (CSC, ERW a GCA) a naw ALl ddychwelyd taenlenni wedi'u cwblhau[19].

**Tabl 1.1 Deunydd dogfennol a ddarparwyd ar gyfer pob CARh yn ôl blwyddyn ariannol**

| Blwyddyn Ariannol | Math o Ddogfen | Rhanbarth | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **ERW** | **CSC** | **GwE** | **EAS** |
| **2015 - 2016** | Cynllun Cymorth | X | X | X | X |
| | Cynnig Grant | X | X | X | X |
| | Cynllun Rhanbarthol | | | X | X |
| | Cyllideb/Cynllun Gwario Rhanbarthol | | X | | |
| | Adroddiad Hawliadau Rhanbarthol Hawliad Cyntaf Ch1 | X | | | |
| | Adroddiad Hawliadau Rhanbarthol Ail Hawliad Ch2 | X | | | |
| | Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Ebrill - Medi) | | X | X | X |
| | Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Hyd - Mawrth) | | X | X | |
| **2016 - 2017** | Cynllun Cymorth | X | X | X | X |
| | Cynnig Grant | X | X | X | X |
| | Cynllun Rhanbarthol | | | | X |
| | Adroddiad Hawliadau Rhanbarthol Trydydd Hawliad Ch3 | X | | | |
| | Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Ebrill - Medi) | | X | X | X |
| | Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Hyd - Mawrth) | | X | X | |
| **2017 - 2018** | Cynllun Cymorth | X | X | X | X |
| | Cynnig Grant | X | X | X | X |
| | Cyllideb/Cynllun Gwario Rhanbarthol | X | | X | |

[19] Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Sir Fynwy, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phowys.

### Cwmpas a chyfyngiadau'r astudiaeth

1.12 Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau allweddol ar gyfer y gwerthusiad ynglŷn â sut y defnyddiwyd y grant, ar ba weithgareddau a gyda pha ganlyniadau, roedd disgwyl i CARh ac ALlau ddarparu data monitro a gwerthuso yn ogystal â gwybodaeth ddogfennol am ba ddyraniadau a wnaed a pha wariant yr aed iddo ar weithgareddau a ariannwyd gan y grant. Ni ddarparwyd y wybodaeth hon yn gyffredinol, a lle cafodd ei darparu, roedd o ansawdd gwael yn aml. Yn fwy penodol:

- Tystiolaeth arbennig o gyfyngedig sydd i'w chael o wariant grant gwirioneddol ar gyfer gweithgareddau wedi'u hariannu, a thystiolaeth o ddeilliannau'r grant;
- Lle darparwyd data am wariant (wedi'i gynllunio wariant neu wirioneddol), roedd arddull ac ansawdd yr adroddiadau yn amrywio'n fawr. Nodwyd anghysondebau/ camgymeriadau yn y data (er enghraifft data dadansoddi ddim yn gwneud y cyfanswm gwariant, ffigurau coll neu wybodaeth wedi'i chofnodi yn y celloedd anghywir), ac mewn llawer o achosion, nid oedd dadansoddiadau o weithgarwch ar gael. Roedd gwybodaeth am wariant ar fwrsariaethau yn arbennig o broblemus. Yn aml, nid oedd yn glir p'un a oedd cyllid bwrsariaeth ar gyfer ysgolion/disgyblion unigol yn cael ei gadw a'i wario ar lefel ALl neu wedi'i gyflwyno i ysgolion, naill ai trwy broses ceisiadau neu drwy ddyraniadau uniongyrchol;
- Ychydig iawn o wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â gwariant gwirioneddol gan glystyrau neu ysgolion unigol yn derbyn arian yn uniongyrchol o CARh neu ALlau (dim ond ar gyfer y GCA yn 2016/17 yr oedd data ar gael). Yn ogystal, roedd fformat a chynnwys ceisiadau am gyllid ar lefel CARh yn CSC a GwE yn aneglur, ac felly nid yw lefel y wybodaeth a gasglwyd ac a gofnodwyd yn hysbys.

1.13 O ganlyniad, nid oedd modd cysylltu dyraniadau grant CARh yn systematig â'u gwariant ar weithgareddau penodol, a'r allbynnau a'r deilliannau a ddisgwylir ganddynt. Yn absenoldeb data, mae'r gwerthusiad, mewn llawer o achosion, wedi defnyddio tystiolaeth o ddyraniadau cyllidebol yn lle gwariant gwirioneddol, ac wedi defnyddio cyfweliadau ansoddol gydag arweinwyr CARh, cydgysylltwyr LACE a chyfranogwyr yr astudiaethau achos sy'n disgrifio gweithgareddau a'u deilliannau canfyddedig. Dylid edrych ar ffigurau yn yr adroddiad fel amcangyfrifon felly, a dylid eu dehongli'n ofalus.

1.14 Mae ychydig o faterion llai arwyddocaol yn effeithio ar y dadansoddiad:

- Roedd canfyddiadau cyfweliadau wedi'u cyfyngu gan wybodaeth anghyflawn deiliaid swyddi. Mewn nifer o CARh ac ALlau, arweiniodd newidiadau mewn deiliaid swyddi dros gyfnod y gwerthusiad at fylchau mewn gwybodaeth rhanddeiliaid a/neu rhanddeiliaid gwahanol yn adrodd gwybodaeth anghyson. Yn rhannol, goresgynnwyd hyn lle'r oedd modd cyfweld â chyn-ddeiliaid swyddi;
- Er y derbyniwyd cyfanswm o 235 o ymatebion o'r arolwg (yn cwmpasu tua 15 y cant o ysgolion) sy'n rhoi sampl cyfleus ar gyfer dadansoddi'r darlun cenedlaethol, nid yw'n ddigonol gwneud cymariaethau manwl rhwng CARh. Dylid nodi hefyd fod rhyw un o bob pum ymateb (22 y cant) yn rhannol (h.y. fe wnaeth ymatebwyr dynnu allan o'r arolwg cyn ei gwblhau), roedd lledaeniad daearyddol yr ymatebwyr rhwng ALlau yn anwastad (cafodd saith ALl bump neu lai o ymatebion, tra bod mwy nag 20 gan bedwar), a dim ond 46 y cant wnaeth nodi eu hunain fel yr arweinydd plant sy'n derbyn gofal[20].

**Fframwaith gwerthuso**

1.15 Mae'r fframwaith gwerthuso a gyflwynir isod yn darparu dull strwythuredig ar gyfer asesu pob cam o broses y grant, ac ateb cwestiynau'r ymchwil.

[20] Fodd bynnag, dywedodd rhyw dri chwarter (77 y cant) eu bod yn bennaeth, yn ddirprwy bennaeth neu'n aelod o'r uwch staff arwain, felly gan i'r rhan fwyaf o ymatebion ddod o ysgolion cynradd, gallem ddisgwyl i'r barnau a fynegwyd fod yn wybodus.

## Ffigwr 1.3 Fframwaith gwerthuso

| Amcanion Ymchwil | Dangosyddion | Asesiad |
| --- | --- | --- |
| **Llywodraethu:**<br><br>Cyfranogiad strategol, tryloywder. | 1. Mae adnoddau'n ddigonol.<br>2. Cynhwysir yr holl bartneriaid yn ystyrlon yn gyson â disgwyliadau a thrwy gydol y flwyddyn ariannol.<br>3. Mae'r cyfathrebu yn glir ac yn addas i'r diben. | 1. Cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a grwpiau rhanddeiliaid, ymatebion i holiadur yr e-arolwg.<br>2. Astudiaethau achos, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a grwpiau rhanddeiliaid, dogfennau CARh.<br>3. Ymatebion i holiadur yr e-arolwg, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a grwpiau rhanddeiliaid. |
| **Pennu polisi:**<br><br>Alldalu, blaenoriaethau/ meini prawf. | 1. Adolygu'n rheolaidd yn unol â pholisi LlC, sylfaen dystiolaeth ehangach a monitro a gwerthuso gwariant<br>2. Blaenoriaethau polisi'n cael eu pennu'n glir bob blwyddyn, ac maent yn amserol.<br>3. Mae blaenoriaethau polisi wedi'u deall a'u cytuno gan yr holl bartneriaid. | 1. Dadansoddiad o ddogfennau CARh, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE.<br>2. Dogfennau CARh, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh.<br>3. Ymatebion i holiadur yr e-arolwg, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a sefydliadau rhanddeiliaid, dogfennau CARh. |
| **Dyrannu:**<br><br>Math o gynigion grant ac ystyriaeth o brosesau sy'n llywio gweithredu. | 1. Penderfyniadau a seiliau rhesymegol yn adlewyrchu tystiolaeth o angen a beth sy'n gweithio.<br>2. Dewisiadau'n unol â pholisi ac arfer da CARh.<br>3. Pob dyraniad yn cynnwys costiadau, cyllideb, allbynnau disgwyliedig a deilliannau.<br>4. Grantiau'n cael eu defnyddio yn gyson â disgwyliadau cynlluniau (proses, cyllideb, allbynnau) ac arfer da. | 1. Adolygiad llenyddiaeth o arfer da, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a sefydliadau rhanddeiliaid, grwpiau ffocws plant sy'n derbyn gofal, dogfennau CARh.<br>2. Adolygiad llenyddiaeth o arfer da, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, dogfennau CARh.<br>3. Dogfennau CARh a data CARh/ALl/ysgolion.<br>4. Adolygiad llenyddiaeth o arfer da, astudiaethau achos, holiadur yr e-arolwg, cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh, cydgysylltydd LACE a sefydliadau rhanddeiliaid, grwpiau ffocws plant sy'n derbyn gofal, dogfennau CARh a data CARh/ALl/ysgolion ar geisiadau a dyraniadau. |
| **Monitro a gwerthuso:**<br><br>Systemau ar gyfer monitro ac addasu prosesau. | 1. Systemau ar waith i olrhain gwariant a monitro defnyddiau a buddiolwyr y grant.<br>2. Mesurau ar waith i asesu gwerth am arian, y deilliannau a gyflawnwyd a'u cynaliadwyedd, yn rheolaidd.<br>3. Plant sy'n derbyn gofal ac ymarferwyr yn gweld ei fod yn gwneud gwahaniaeth. | 1. Cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh a'r cydgysylltydd LACE, dogfennau CARh a data CARh/ALl/ysgolion.<br>2. Cyfweliadau gyda'r cydlynydd CARh a'r cydgysylltydd LACE, dogfennau CARh a data CARh/ALl/ysgolion.<br>3. Grwpiau ffocws plant sy'n derbyn gofal, cyfweliadau â sefydliadau rhanddeiliaid, astudiaethau achos ac ymatebion holiadur yr e-arolwg. |

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.16 Defnyddir y fframwaith gwerthuso i strwythuro'r prif ganfyddiadau o'r ymchwil sylfaenol yn ymwneud â'r themâu: llywodraethu, pennu polisi, dyrannu, a monitro a gwerthuso.

1.17 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg o'r PDG i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ei nodau a'i amcanion ar lefel genedlaethol.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth ar arfer gorau ar gyfer cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal.
- Mae Penodau 4-7 yn cyflwyno canfyddiadau o'r ymchwil i ddarparu tystiolaeth er mwyn asesu perfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion yn y fframwaith gwerthuso.
- Mae Pennod 8 yn darparu casgliadau sy'n defnyddio'r holl wybodaeth a gasglwyd.
- Mae Pennod 9 yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru, CARh, ALlau ac ysgolion.

1.18 Ategir y prif adroddiad gan Annex A: sy'n cynnwys cyfeiriadau'r adolygiad llenyddiaeth.

## 2. Trosolwg o'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu cefndir a chyd-destun y grant, ei nodau ac amcanion, a threfniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu ac arwain pob CARh wrth iddynt weinyddu'r grant.

**Yr angen am y grant**

*Cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*

2.2 Yn ôl Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth diweddaraf Cymru (a ddisodlodd y Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn 2017), mae oddeutu 5,780 o blant sy'n derbyn gofal[21] ar 31 Mawrth 2017. Mae niferoedd plant sy'n derbyn gofal yn amrywio'n fawr yn ôl ALl, gyda Chaerdydd a Rhondda Cynon Taf yn cynorthwyo 690 o blant sy'n derbyn gofal yr un (sy'n gyfwerth â 1.27 y cant a 1.73 y cant o'r cyfanswm poblogaeth disgyblion, yn y drefn honno), o gymharu ag 80 yng Ngheredigion a 110 yn Sir Benfro (0.84 y cant a 0.63 y cant o'r cyfanswm poblogaeth disgyblion, yn y drefn honno)[22].

2.3 Dengys ymchwil fod plant sy'n derbyn gofal wedi dioddef trawma yn eu bywydau yn aml, gan gynnwys cam-drin, esgeulustod neu golled, sy'n gallu cael effaith hirdymor andwyol.[23] Mae pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal sy'n goresgyn profiadau trawmatig yn eu bywyd cynnar, a'r rheiny sy'n parhau i fyw bywydau trwblus yn y cartref, yn aml yn cael anawsterau ymlyniad ac yn dioddef o ddiffyg hyder. Gallant gael eu heffeithio hefyd gan ddiffyg canolbwyntio ac ymddygiad gwael yn yr ysgol a all gael effaith negyddol ar eu gallu i ddysgu a chyflawni'u potensial academaidd.

2.4 Ar lefel systemig, mae ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys:

- **Sefydlogrwydd lleoliadau** – Gwelir gostyngiadau sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol ymhlith plant sy'n derbyn gofal yn gyson â nifer y lleoliadau gofal;

[21] Ceir y diffiniad o blant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal) yn Neddf Plant 1989. Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw llys wedi pennu gorchymyn gofal i roi plentyn mewn gofal, neu fod adran gwasanaethau plant cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr. Yng nghyd-destun y canllaw hwn, mae'r term 'Plant sy'n derbyn gofal' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc mewn gofal.

[22] Cyfrifwyd canrannau gan ddefnyddio data Ionawr 2017 o StatsCymru ar gyfanswm nifer myfyrwyr ysgol (pob ysgol), yn ôl ALl.

[23] E.e. gweler Richardson, J. a Joughin, C. (2002*) The Mental Health Needs of Looked After Children.* Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Llundain.

- **Cyfnod y lleoliad** - Mae plant sy'n aros mewn un lleoliad gofal am gyfnod hwy yn cyflawni gwell deilliannau addysgol na'r rheiny sy'n cael nifer uchel o leoliadau byrrach; ac
- **Ansawdd addysg** - mae plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fod mewn ysgolion â lefel perfformiad is ac mewn ffrydiau is, a gall hynny gael effaith negyddol ar eu cyrhaeddiad addysgol[24].

2.5 Mae ymchwil yn dangos bod ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys newid ysgolion, gormod o amser allan o'r ysgol, diffyg help digonol gyda dysgu/dal i fyny; gofalwyr nad ydynt yn gymwys i gynorthwyo'u dysgu a'u datblygiad, neu nad oes disgwyl iddynt wneud; diffyg help o ran mynd i'r afael â'u hanghenion iechyd emosiynol, meddyliol a/neu gorfforol ehangach; golwg besimistaidd gan weithwyr proffesiynol allweddol o botensial addysg a dyheadau plant sy'n derbyn gofal; a chyfathrebu cyfyngedig rhwng gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg[25].


*Tueddiadau dros gyfnod*

2.6 Bu rhywfaint o gynnydd calonogol o ran gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn Ffigwr 2.1. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau yng Nghyfnod Allweddol 4 rhwng 2017 a blynyddoedd cynharach oherwydd newidiadau yn y diffiniad o'r dangosydd hwn (newidiadau o ran pa elfennau cymhwyster sy'n cyfrif tuag ar y rhannau llythrennedd a rhifedd o'r trothwy Lefel 2) er bod y bwlch gyda'r holl blant yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi ehangu.

[24] Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., et al., 2015. *Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*.

[25] Ibid.

**Ffigwr 2.1 Tueddiadau mewn plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni'r dangosyddion pwnc craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ac yn cyflawni'r Trothwy Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4* (2010-17)**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru, 2016 a Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017.

* Trothwy Lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.


2.7 Yn unol â chyrhaeddiad, mae presenoldeb yn yr ysgol ymhlith plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu ychydig ond yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, yn codi o 93 y cant yn 2010 i 96 y cant yn 2015, 2016 a 2017[26]. Yn 2016/17, roedd cyfradd absenoldeb o 4.5 y cant ymhlith plant sy'n derbyn gofal; mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfradd absenoldeb genedlaethol o 5.9 y cant i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd, a 5.1 y cant i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd[27].

*Y bwlch cyrhaeddiad presennol*

2.8 Er gwaetha'r cynnydd hwn, ym mhob cyfnod allweddol, mae bwlch mawr mewn cyrhaeddiad o hyd rhwng plant sy'n derbyn gofal a'r boblogaeth ysgol ehangach, fel y dangosir yn Ffigwr 2.2. Mae'r bwlch anfantais eisoes i'w weld yn amlwg yn y Cyfnod Sylfaen ac mae'n parhau felly ar draws pob Cyfnod Allweddol. Oherwydd y niferoedd bach o blant sy'n derbyn gofal mewn rhai ALlau yng Nghyfnod Allweddol 4, efallai nad yw'r ffigurau cyfunol ar gyfer cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 yn gwbl gynrychioliadol.

[26] Cyfrifiad Plant mewn Angen a Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru.
[27] StatsCymru, Absenoliaeth.

**Ffigwr 2.2 Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, a'r holl ddysgwyr ar 31 Mawrth 2017**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017

* Trothwy Lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

2.9 Mae Tabl 2.1 isod yn rhoi dadansoddiad o gyrhaeddiad yn ôl CARh[28]. Eto, mae'n dangos bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddysgwyr ym mhob blwyddyn ac ar draws pob Cyfnod Allweddol. Hefyd, mae'n dangos bod gwahaniaethau mawr mewn cyrhaeddiad rhwng ardaloedd CARh ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (mae'r canrannau cyfartalog ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn amrywio o 41 y cant yn GWE i 64 y cant yn CSC, ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 o 35 y cant yn y GCA i 52 y cant yn CSC), tra bod gwahaniaethau bach rhyngddynt ar gyfer yr holl ddisgyblion; mae amrywiadau mawr rhwng blynyddoedd; a dim ond un duedd ganfyddadwy (cynnydd yng nghyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 3 yn CSC).

[28] Nid oes unrhyw ddata ar gyfer rhai CARh am fod y data'n seiliedig ar niferoedd bach na ellir adrodd arnynt.

**Tabl 2.1 Lefelau cyrhaeddiad ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn y CARh**

| | | DPC Cyfnod Allweddol 2 | | | DPC Cyfnod Allweddol 3 | | | Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2015** | **2016** | **2017** | **2015** | **2016** | **2017** | **2015** | **2016** | **2017** |
| CSC | | 63.1% | 62.8% | 65.5% | 39.4% | 57.0% | 60.5% | 10.6% | 13.1% | Dim data |
| | ***Yr holl ddisgyblion*** | *87.8%* | *89.5%* | *90.2%* | *83.6%* | *86.7%* | *87.9%* | *58.5%* | *60.9%* | *54.5%* |
| EAS | | 48.0% | 69.4% | 58.9% | 35.1% | 30.8% | 38.8% | Dim data | 7.4% | Dim data |
| | ***Yr holl ddisgyblion*** | *88.1%* | *89.9%* | *90.2%* | *82.2%* | *83.8%* | *86.4%* | *55.1%* | *55.5%* | *52.9%* |
| ERW | | 55.1% | 47.6% | 59.3% | 50.0% | 47.6% | 50.0% | 8.7% | 22.7% | 12.2% |
| | ***Yr holl ddisgyblion*** | *88.3%* | *88.0%* | *88.8%* | *84.3%* | *85.6%* | *87.2%* | *61.0%* | *64.0%* | *57.3%* |
| GWE | | Dim data | 28.6% | 52.6% | 45.0% | 30.4% | 49.2% | Dim data | Dim data | Dim data |
| | ***Yr holl ddisgyblion*** | *88.2%* | *88.8%* | *90.4%* | *86.1%* | *87.8%* | *88.7%* | *57.5%* | *59.6%* | *53.6%* |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017

*Dilyniant ôl-16*

2.10 Mae gan blant sy'n derbyn gofal ragolygon salach i'r dyfodol pan fyddant yn gadael addysg orfodol. Dim ond 57% o'r rhai a oedd wedi gadael gofal oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar eu pen-blwydd yn 19 oed yn 2015/16[29], er bod y gyfradd hon wedi bod yn gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae llai o lawer yn symud ymlaen at Safon Uwch neu addysg uwch, ac mae angen cymorth ar nifer gymharol fwy i ennill sgiliau cyflogadwyedd ac i symud i mewn i gyflogaeth na'u cyfoedion.

**Cyd-destun polisi y grant**

2.11 Yn Ionawr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal[30]. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys dau amcan cenedlaethol:

- Codi cyrhaeddiad addysgol plant 15 oed sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4 o'r trothwy cynhwysol Lefel 2 o 17 y cant yn 2014 i 25 y cant yn 2016; a
- Sicrhau bod 75 y cant o'r rhai sy'n gadael gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2018.

2.12 Cefnogir y strategaeth gan gynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar chwe phrif thema[31], fel y dangosir yn 0.

[29] Llywodraeth Cymru, Hydref 2016. *Mabwysiadu, canlyniadau a lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, 2015-16 – Diwygiwyd.*

[30] *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*

[31] Llywodraeth Cymru, 2016. *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Cynllun gweithredu 2015–16*.

**Blwch 2.1 Themâu cynllun gweithredu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn addysg, 2016-19**

1. **Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau:** sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau yn cyflawni'u swyddogaeth a'u cyfrifoldeb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn cyflawni'r deilliannau cywir.
2. **Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio:** annog partneriaethau a chydweithio i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.
3. **Addysgu a dysgu effeithiol:** sicrhau bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn cydnabod y rôl allweddol y gallant ei chwarae i wella ansawdd bywyd plant sy'n derbyn gofal drwy addysg, a deall amgylchiadau ac anghenion y plant hyn er mwyn cyflawni ymarfer rhagorol a chynaliadwy.
4. **Gwella'r defnydd o ddata:** sicrhau bod data dibynadwy o ansawdd uchel yn cael ei gasglu ar blant sy'n derbyn gofal a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n gadarn fel bod ymyriadau i gynorthwyo'r plant hyn wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac yn amserol ac effeithiol.
5. **Cryfhau trefniadau ariannu:** datblygu partneriaeth weithio agos rhwng Llywodraeth Cymru a CARh i sicrhau bod y PDG yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd a'i fod yn cael effaith wirioneddol ar wella perfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal.
6. **Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant ac sydd wedi'u mabwysiadu:** gwneud yn siŵr bod ALlau yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod cyfleoedd amrywiol yn cael eu darparu i gefnogi cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt, llywio dulliau strategol a phenderfyniadau gweithredol.

Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru.

2.13 Ar draws y themâu hyn, amlinellwyd cyfanswm o 37 o gamau gweithredu i'w dwyn yn eu blaen gan Lywodraeth Cymru, ALlau, CARh, ysgolion a sefydliadau addysg bellach dros gyfnod o dair blynedd o 2016 i 2019. Roedd y camau gweithredu hyn i'w cefnogi gan ystod o bartneriaid trydydd sector.

2.14 Mae'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â thema un yn Blwch 2.1 ar arweiniad effeithiol a thema pump ar gryfhau trefniadau ariannu, ond gall y cyllid grant yn amlwg fod yn ffynhonnell gymorth ar gyfer gweithredu agweddau eraill ar y strategaeth (fel addysgu a dysgu effeithiol a gwella'r defnydd o ddata), gan mai nod y strategaeth a'r PDG yn y pen draw yw gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal.

2.15 Un o’r camau gweithredu allweddol ar gyfer thema pump oedd cynnal adolygiad perfformiad bob blwyddyn i wirio cynnydd a sicrhau bod cymorth yn gweithio’n effeithiol. Cyhoeddwyd y cyntaf o’r adroddiadau cynnydd hyn ym Mai 2017[32]. Cyflwynir cynnydd o ran cryfhau trefniadau ariannu ochr yn ochr â’r cynllun gweithredu yn Ffigwr 2.3.

**Ffigwr 2.3 Cynnydd[33] o gymharu â’r cynllun gweithredu[34] ar gyfer thema rhif 5 – ‘cryfhau trefniadau ariannu’**

| Cynllun Gweithredu | Adroddiad Cynnydd |
|---|---|
| • *Camau i'w cyflawni rhwng tymor yr Haf 2016 a thymor yr Haf 2017:*<br>• Atgyfnerthu atebolrwydd CARh ar gyfer cyflawni canlyniadau, bydd proses adrodd newydd yn cael ei chyflwyno er mwyn olrhain a monitro gwariant yn well (tymor yr haf 2017).<br>• Bydd proses adolygu cyflym yn cael ei chyflwyno i werthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf dull newydd o ariannu PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (tymor yr haf 2016).<br>• Cipio gwybodaeth am ymyriadau effeithiol y profwyd eu bod wedi cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu (tymor y gwanwyn 2017).<br>• Bydd Llywodraeth Cymru ac Adoption UK (Cymru) yn datblygu arweiniad i helpu ysgolion gefnogi plant wedi'u mabwysiadu mewn addysg (tymor y gwanwyn 2017). | • *Cynnydd a wnaed rhwng Ionawr 2016 a Chwefror 2017:*<br>• Comisiynodd Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r defnydd o'r elfen o'r PDG i blant sy'n derbyn gofal ym mlwyddyn ariannol 2015/16.<br>• Cefnogodd CARh ac anogodd gweithio ar draws consortia er mwyn sicrhau bod cynlluniau gwario yn gadarn a bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.<br>• Ceisiodd sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer gweinyddu'r PDG yn gadarn a bod cynlluniau gwario ar gyfer 2016/17 wedi'u craffu a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, cyfarfu'r Llywodraeth yn rheolaidd gyda CARh i wirio cynnydd, ac mae wedi cynhyrchu a lledaenu arweiniad ar y grant i randdeiliaid perthnasol. |

*Y Grant Amddifadedd Disgyblion*

2.16 Cyflwynwyd y PDG gan Lywodraeth Cymru yn 2012 i ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn helpu gwella deilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr difreintiedig 5-15 oedd a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu’n blant 4-15 yn derbyn gofal. Ymestynnwyd y grant yn ddiweddarach i blant difreintiedig mewn

[32] Llywodraeth Cymru, 2017. *Codi uchelgais op. cit.*

[33] Llywodraeth Cymru, 2017. *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru: Flwyddyn yn ddiweddarach*.

[34] Llywodraeth Cymru, 2016. *Codi uchelgais Cynllun Gweithredu 2015–16* op.cit.

lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Nod cyffredinol y grant oedd cynorthwyo ysgolion i fodloni'r amcanion a bennwyd yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi (2012-2016)[35], sef i liniaru effaith tlodi, cynorthwyo'r rheiny mewn tlodi i wella'u gobeithion o gael cyflogaeth ac atal tlodi yn y dyfodol ac, yn arbennig, lleihau'r bwlch mewn cyflawniad rhwng plant sy'n cPYDd a'r rhai nad ydynt[36].

2.17 Fodd bynnag, o ystyried ei fod yn grant a oedd yn cael ei rannu ar gyfer disgyblion sy'n cPYDd a phlant sy'n derbyn gofal, a'i fod yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion, awgrymodd rhanddeiliaid fod hyn weithiau'n arwain at adnoddau'n cael eu targedu'n wael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal[37]. Yn ogystal, yn sgil yr oedi o ran amser rhwng llunio'r data ystadegol a gwneud dyraniadau i ysgolion, y nifer gymharol uchel o blant sy'n derbyn gofal yn symud ysgolion o gymharu â disgyblion eraill, a chyllid o ryw £1,000 fesul plentyn sy'n derbyn gofal, ni chredwyd bod cyllid ar gael o angenrheidrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgolion yr oeddent yn eu mynychu, na'i fod yn cefnogi ymarfer mwy effeithiol nac yn cyflawni deilliannau gwell ar gyfer y disgyblion hyn.

2.18 Yn unol â'r pryderon hyn, canfu gwerthusiad annibynnol o'r PDG, er bod PDG yn gymharol lwyddiannus o ran canolbwyntio ymdrechion ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n cPYDd, fod llawer llai o sylw'n cael ei roi i blant sy'n derbyn gofal[38]. Canfu'r gwerthusiad hefyd mai dim ond ychydig o ysgolion a adroddodd fod cydgysylltwyr LACE yn chwarae rhan i herio neu gadarnhau gwariant neu dargedu. Argymhellodd ddull mwy systematig o gydweithio a rhannu arfer gorau, gyda mwy o gyfranogiad gan CARh er mwyn sicrhau bod nodau'r PDG yn cael eu bodloni gan ysgolion[39].

2.19 Mae canlyniadau'r gwerthusiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017[40] yn rhoi darlun tebyg. Gan adrodd am ganlyniadau arolwg o 2014 (cyn y newid i'r trefniadau ariannu), credai 93 y cant o ymatebwyr ysgolion cynradd a 98 y cant o ymatebwyr ysgolion uwchradd mai diben y PDG oedd bod o fudd i ddisgyblion cPYDd, a dim ond

---

[35] Llywodraeth Cymru (2012) *Trechu Tlodi: Cynllun Gweithredu 2012 – 2016*. Llywodraeth Cymru.

[36] Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg (2014) Gwneud *Defnydd Effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: adnodd ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr addysg*. Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg.

[37] Dyfynnwyd mewn llythyr sydd ar gael yn gyhoeddus a ysgrifennwyd gan Steve Davies, op.cit.

[38] Nifer gymharol fach o gyfeiriadau at y defnydd o'r grant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a geir yn Pye, J., Taylor, C. a Huxley, K. (2015*) Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Ail adroddiad interim*

[39] Ibid

[40] Pye, J., Taylor, C. a Huxley, K. (2017*) Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: adroddiad terfynol, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 77/2017*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

15 y cant o ymatebwyr ysgolion cynradd a 23 y cant o ymatebwyr ysgolion uwchradd a ddywedodd plant sy'n derbyn gofal.

**Nodau ac amcanion y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

2.20 I ymateb i'r pryderon hyn, yn Ebrill 2015 cafodd y PDG ei wahanu yn ddwy ffrwd ariannu: un ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac un ar gyfer disgyblion cPYDd. Cafodd y grant ei ail-enwi hefyd yn Grant Datblygu Disgyblion yn 2017. Mae trefniadau gwahanol gan bob ffrwd ariannu ar gyfer dyrannu'r grant i ddarparu cymorth. Mae'r grant cPYDd yn parhau i gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion, tra bod y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael ei reoli a'i weinyddu gan CARh yn hytrach na'i ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion unigol, neu i ALlau.

2.21 O'r dechrau, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CARh gydweithio gydag ALlau, ysgolion a phartneriaid eraill i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n darparu deilliannau addysgol gwell i blant sy'n derbyn gofal ar draws y rhanbarth[41]. Disgwyliwyd y byddai unrhyw ddirprwyo cyllid i ALlau neu ysgolion yn eithriadol, a dim ond lle fyddai cynlluniau yn gyson ag ymagweddau rhanbarthol[42]. Dylai hyn sicrhau arbedion maint wrth gynllunio ymyriadau a'u rhoi ar waith.

2.22 Ehangwyd cylch gwaith y cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal hefyd i gynnwys plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu o ofal a'r rheiny sy'n gadael gofal, gan y bydd y disgyblion hyn yn dal wedi dioddef gofid, colled neu brofiadau trawmatig hefyd yn gynnar yn eu bywydau, a all gael effaith barhaol ar eu haddysg.

*Trefniadau dyrannu cyllid*

2.23 Cyfrifir dyraniadau cyllid ar gyfer pob CARh gan ddefnyddio data Gweithgarwch Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol (SSDA) ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ym mhob ardal ddaearyddol CARh ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2015-16, ar gyfer pob plentyn 4-15 oed a oedd yn derbyn gofal, derbyniodd y CARh £1,050 o gyllid. Yn 2016-17, roedd darpariaeth fwy, sef £1,150 ar gael fesul plentyn a oedd yn derbyn gofal. Mae 0 yn dangos y dyraniadau cyllid.

[41] Llywodraeth Cymru, 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal: Cwestiynau cyffredin.*

[42] Llythyr a ysgrifennwyd gan Steve Davies op. cit.

**Tabl 2.2 Dyraniadau cyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mlynyddoedd ariannol 2015/16 a 2016/17**

| Consortiwm | Dyraniad (£) 2015-16 | Dyraniad (£) 2016-17 |
|---|---|---|
| **CSC** | 1,347,150 | 1,302,950 |
| **GCA** | 761,250 | 727,950 |
| **ERW** | 1,150,800 | 1,068,350 |
| **GWE** | 661,500 | 671,600 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

*Blaenoriaethau, gweithgareddau disgwyliedig a deilliannau*

2.24 Diben y trefniadau grant newydd oedd sicrhau cymorth mwy targedig ac effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal a disgyblion a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. Roedd y buddion disgwyliedig yn cynnwys[43]:

- **Dull strategol gwell o wneud penderfyniadau ariannu:** dull mwy cydlynus, strategol a thargedig yn rhanbarthol o gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn addysg wedi'i ategu gan dystiolaeth glir o beth sy'n gweithio, dan oruchwyliaeth cydlynydd arweiniol newydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Byddai cronfa arian fwy yn caniatáu ariannu hyfforddiant a chymorth yn fwy strategol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn CARh.
- **Llai o fiwrocratiaeth a gweinyddu:** symleiddio prosesau a lleihau oedi o ran amser yn y llif ariannu a baich gwaith gweinyddol yn gysylltiedig â'r grant mewn ysgolion.
- **Ystod ehangach o fuddiolwyr:** mwy o hyblygrwydd i gynorthwyo plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol sydd wedi'u mabwysiadu, sydd dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gorchymyn trefniant plentyn neu orchymyn preswyliad, yn ogystal â phenderfynu ar ymyriadau effeithiol ni waeth am unrhyw newidiadau i leoliadau gofal neu ysgol.[44]

*Cynllunio, monitro a gwerthuso*

2.25 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod CARh yn darparu cynllun (gelwir yn gynllun cymorth) sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu gwario'r dyraniad PDG ym mhob blwyddyn ariannol, a sut byddant yn sicrhau bod y rheiny sy'n gwario'r arian yn

[43] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015 op. cit.

[44] Mae'r disgresiwn gan CARh i ddatblygu a gweithredu ymyriadau a fydd yn cael effaith fuddiol ar blant eraill, ar yr amod y byddant yn cael mwy o fudd i blant sy'n derbyn gofal.

gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid PDG i wella deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Disgwylir i hyn ragflaenu'r gwariant. Fe wnaeth y templed ar gyfer cynlluniau cymorth newid rhwng 2015/16 a 2016/17, i gynnwys pump o feini prawf ymateb yn lle dau. Roedd templed 2016/17 yn gofyn am fwy o wybodaeth gan CARh ar bennu targedau, gweithgareddau a oedd ar waith a'u costau cysylltiedig, a sut y byddent yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys cynrychiolwyr y trydydd sector.

**Tabl 2.3 Meini prawf y cynllun cymorth, yn ôl blwyddyn**

| 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|
| **LAC 1. Targedau / Deilliannau**<br>Pa flaenoriaethau ydych chi'n eu datblygu ar gyfer rheoli'r elfen derbyn gofal o'r PDG yn rhanbarthol? Sut ydych chi'n cynllunio i gynorthwyo ysgolion i wella deilliannau addysgol ar gyfer y plant hyn? | **LAC 1. Blaenoriaethau**<br>Pa flaenoriaethau ydych chi'n eu datblygu ar gyfer rheoli'r elfen derbyn gofal o'r PDG? |
| **LAC 2. Cynllunio**<br>Amlinellwch eich trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflwyno cymorth i blant sy'n derbyn cymorth, a sut y bwriadwch weithio gyda'ch awdurdod lleol a Chydgysylltwyr LACE ar y cynigion hyn? | **LAC 2. Deilliannau**<br>Sut ydych chi'n cynllunio i gynorthwyo ysgolion i wella deilliannau addysgol ar gyfer y plant hyn? |
| | **LAC 3. Targedau**<br>Pa dargedau sy'n cael eu datblygu i wella deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal? |
| | **LAC 4. Gweithgarwch**<br>Darparwch fanylion y camau gweithredu y bwriadwch eu cymryd gyda'ch gilydd, gan nodi'r costau sydd ynghlwm, gydag unrhyw gostau, fframiau amser ar gyfer cyflwyno, effaith fwriadedig a sut byddwch chi'n gwerthuso llwyddiant y camau sy'n cael eu cymryd. |
| | **LAC 5. Cynllunio Rhanbarthol**<br>Amlinellwch eich trefniadau ar gyfer cynllunio a darparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu yn eich rhanbarth, a sut y bwriadwch weithio gyda'ch awdurdod lleol a phartneriaid eraill, gan gynnwys ysgolion a'r trydydd sector, ar y cynigion hyn? |

2.26 Disgwylir i CARh ddarparu adroddiadau cynnydd hefyd ar eu gwariant a'u gweithgareddau gan ddefnyddio'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ar ffurf adroddiadau uchafbwyntiau ddwywaith y flwyddyn (yn cwmpasu'r cyfnodau Ebrill i Fedi a Hydref i Fawrth). Caiff y rhain eu strwythuro i ddarparu gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y camau a amlinellwyd yn y cynllun cymorth blynyddol.

2.27 Ar ddiwedd bob blwyddyn, rhaid i CARh ddangos bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion wedi lleihau drwy weinyddu'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Disgwylir iddynt gynhyrchu adroddiadau gwerthuso ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn dadansoddi sut mae'r gwariant wedi effeithio ar ddeilliannau addysgol[45]. Fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol i fesur effeithiau ehangach y grant, megis ar les emosiynol a phresenoldeb, er bod dogfennau arweiniad Llywodraeth Cymru[46] yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â'r rhwystrau emosiynol, cymdeithasol ac addysgol a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal a allai ei hatal rhag cyflawni'u potensial academaidd.

2.28 Ar lefel ysgol, mae llythyrau grant gan Lywodraeth Cymru yn amlygu ymhellach y gofynion i CARh sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011 drwy

- Sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau heriol ar gyfer dysgwyr cPYDd.
- Cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n effeithiol, gan wneud defnydd o gynlluniau datblygu ysgol ar gyfer defnyddio'r PDG.
- Sicrhau bod ysgolion yn monitro ac yn gwerthuso effaith eu strategaethau.
- Defnyddio Ymgynghorwyr Her i ddarparu cymorth priodol i ysgolion er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr difreintiedig.

*Argaeledd arweiniad ar ddefnyddio'r grant*

2.29 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o adnoddau i gynorthwyo defnyddio'r grant yn effeithiol a sicrhau bod pobl yn gwybod am arferion gorau. Crynhoir dogfennau arweiniad allweddol yn Tabl 2.4 isod. Dim ond un ddogfen, fodd bynnag, sef y ddogfen Cwestiynau Cyffredin a gyhoeddwyd yn 2015, ac a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd yn yr un flwyddyn, sy'n rhoi gwybodaeth yn ymwneud yn benodol â'r trefniant newydd ar gyfer cyllid grant, gan gynnwys arweiniad lefel uchel ar

[45] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal: Cwestiynau cyffredin.*

[46] Ibid.

weithgareddau effeithiol. Gellir gweld gwybodaeth am weithgareddau effeithiol mewn rhai o'r dogfennau arweiniad eraill, ond yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau hyn yn cyfeirio at ddisgyblion difreintiedig yn gyffredinol ac nid yn benodol i blant sy'n derbyn gofal.

**Tabl 2.4 Cyngor ar ariannu arfer gorau**

| Dogfen arweiniad | Cynulleidfa darged | Diben/cwmpas | Cyfyngiadau |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013. *Grant Amddifadedd Disgyblion: Arweiniad byr i ymarferwyr*[47].** | Ar gyfer staff ysgolion a staff perthnasol mewn CARh a Gwasanaethau Addysg a Phlant ALl. | Y ddogfen 26 tudalen hon yw'r un fwyaf helaeth y mae LlC wedi'i chyhoeddi ar y testun. Mae llythyrau grant ar gyfer 2015/16 a 2016/17 yn gofyn i CARh sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a bennwyd yn y ddogfen. | Mae'r canllaw yn trafod y trefniadau grant blaenorol. Dim ond un rhan fer sy'n trafod plant sy'n derbyn gofal yn benodol. |
| **Llywodraeth Cymru, Ebrill 2014. *Canllawiau ar gyfer Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?*[48]** | Yn targedu ysgolion yn benodol. | Mae'n rhoi mwy o gyngor ymarferol manwl, ac yn benodol yn defnyddio ymchwil ar y modd y gall ysgolion ddefnyddio'r PDG yn fwyaf effeithiol i gynorthwyo disgyblion difreintiedig. | Nid yw wedi'i deilwra'n benodol at anghenion plant sy'n derbyn gofal; ac nid yw'n briodol mwyaf gan nad yw cyllid yn cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. |
| **Llywodraeth Cymru, Mawrth 2015. *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol.*[49]** | I'w ddefnyddio gan yr holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â chynllunio a gweithredu'r grant. | Mae'n rhoi gwybodaeth ffeithiol fer ac arweiniad ar sut i ddefnyddio'r grant yn effeithiol, a sut dylai ysgolion ddangos tystiolaeth eu defnydd o'r grant at ddibenion monitro. | Nid yw wedi'i deilwra'n benodol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, am iddo gael ei gynhyrchu cyn cyflwyno'r llif ariannu ar wahân; ychydig iawn o fanylion a ddarperir. |
| **Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal:*** | I'w ddefnyddio gan yr holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â chynllunio a gweithredu'r grant. | Mae'n rhoi gwybodaeth am broses ariannu newydd y grant, nodau ac amcanion a deilliannau disgwyliedig. | Gwybodaeth gyfyngedig am weithgareddau a awgrymwyd. |

[47] Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013. *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllaw byr i ymarferwyr.*

[48] Llywodraeth Cymru, Ebrill 2014. *Canllawiau ar Ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?*

[49] Llywodraeth Cymru, Mawrth 2015. *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol*.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Cwestiynau cyffredin*[50].** | | | |
| **Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017. *Gwneud Gwahaniaeth – Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion*[51].** | I'w ddefnyddio gan staff dynodedig plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion | Mae hwn yn cyfeirio defnyddwyr at y ddogfen Cwestiynau Cyffredin ac yn dweud bod rhaid i CARh gydweithio gydag ALlau ac ysgolion wrth benderfynu sut i ddyrannu'r grant. | Mae'n canolbwyntio ar rolau swyddi yn hytrach na defnyddio'r grant. |

2.30 Argymhellir amrywiaeth o weithgareddau a ariennir gan y PDG, ond mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau yn canolbwyntio ar ymyriadau lefel ysgolion ac nid ar lefel CARh neu ALl. Mae dogfennau arweiniad yn cynnwys y gweithgareddau canlynol a argymhellir:

- **Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, 2017:** prosiectau sy'n gweithio ar gynyddu dyhead; mentora cynlluniau; a phrosiectau sy'n sicrhau bod anghenion, gofynion a barnau unigol plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hystyried a'u bodloni.
- **Canllawiau Hanfodol, 2015:** rhaglenni unigol ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal; rhaglenni ysgol gyfan yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn anghymesur e.e. siaradwyr ar gyfer diwrnodau HMS, diwrnodau cyd-gynllunio ar gyfer staff ysgolion, datblygu systemau olrhain ar gyfer nodi anghenion a gwerthuso effaith; asesiad o anghenion dysgu; darparu adborth am ansawdd; tiwtora cyfoedion ac ymyriadau meta-wybyddiaeth; a chefnogi trefniadau pontio[52].
- **Canllaw byr i ymarferwyr, 2013:** ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau PDG i gynorthwyo disgyblion difreintiedig yn gyffredinol. Ar lefel CARh: gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP), gweithio mewn partneriaeth, rhannu arfer effeithiol a sicrhau arweinwyr systemau. Ar lefel ysgol: gwella ansawdd addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ansawdd ysgolion drwy weithredu saith o ymyriadau budd uchel, cost isel wedi'u teilwra at anghenion plant (gan roi adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion ac athrawon, datblygu sgiliau 'dysgu i ddysgu' plant, defnyddio tiwtora cyfoedion/dysgu gyda chymorth cyfoedion, cynnwys rhieni a chymunedau yn

[50] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal: Cwestiynau cyffredin* op. cit.

[51] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017. *Gwneud Gwahaniaeth – Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion.*

[52] Mae siart llif yn Atodiad A y ddogfen hon yn tynnu sylw at y ffaith y gall y grant gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgarwch i blant sy'n derbyn gofal sydd: yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad; neu effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, lles, ymgysylltiad teuluoedd a chymunedau, codi dyhead a/neu osgoi NEET, a allai arwain at gyrhaeddiad gwell.

addysg eu plant, hyrwyddo ansawdd arweinyddiaeth ysgolion i'r eithaf ar bob lefel o'r ysgol, defnyddio gwaith cartref, hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol)[53].

- **Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer disgyblion difreintiedig/ePYDd, 2014:** darparu hyfforddiant staff a datblygu arbenigedd staff; mabwysiadu ymagwedd strategol, ysgol gyfan; casglu data i olrhain anfantais; gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad; teilwra'r cwricwlwm; cynnig profiadau cyfoethogi a gweithgareddau allgyrsiol i hwyluso dysgu y tu allan i oriau ysgol; ymgysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn cynyddu cyfleoedd dysgu teuluol; darparu grwpiau anogaeth; a hwyluso cymorth aml-asiantaeth ar y safle.

*Canllawiau ychwanegol ar arfer gorau*

2.31 Mae nifer o'r dogfennau canllawiau ariannu a restrir yn Tabl 2.4 yn cyfeirio defnyddwyr at becyn cymorth arferion Addysgu a Dysgu EEF er mwyn gwella cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig, a cheir tystiolaeth dda ohonynt[54]. Mae arweiniad ar gynorthwyo plant sydd wedi'u mabwysiadu wedi'i gydgynhyrchu hefyd gydag Adoption UK[55]. Yn ogystal, nododd Estyn (Gorffennaf 2016) ystod o arferion da ar gyfer codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyhead plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion ac ALlau Cymru[56]. Nodwyd yr arferion gorau hyn o ymweliadau ag 16 o ysgolion, chwech ALl a phob un o'r pedwar CARh. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer llywodraethwyr, penaethiaid, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion, ALlau a'r CARh.

2.32 Mae adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhyrchwyd gan Mannay, Staples a Hallett et al. (2015) yn tynnu sylw hefyd at ymyriadau effeithiol ac arferion da i gefnogi a helpu plant sy'n derbyn gofal i godi'u cyflawniadau addysgol[57]. Mae'r argymhellion hyn wedi'u seilio ar adolygiad systematig o lenyddiaeth bresennol yn ogystal ac ymchwil ansoddol fanwl gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlygu mai gwan yw'r sylfaen dystiolaeth gyffredinol ar gyfer ymyriadau effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

---

[53] Dylai effeithiolrwydd gweithgareddau ar lefel ysgol gael ei fonitro gan ddefnyddio data perfformiad blynyddol, asesiadau athrawon, data profion darllen a rhifedd, data ar bresenoldeb/gwaharddiadau ac arolygiadau Estyn

[54] Datblygwyd hwn gan Ymddiriedolaeth Sutton ac mae wedi'i ddiweddaru. Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton

[55] *Cael pethau'n iawn i bob plentyn*

[56] Estyn, 2016, op. cit.

[57] Mannay, D et al. op. cit.

2.33 Yn olaf, mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Ganolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg (Mawrth 2014) yn darparu adnodd i arweinwyr ac ymarferwyr addysg ar wneud defnydd effeithiol o'r PDG[58]. Nid yw'r adroddiad 60 tudalen yn canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal yn unig, ond mae'n rhoi amlinelliad hygyrch a llawn tystiolaeth o ymyriadau effeithiol i wella deilliannau addysgol pobl ifanc difreintiedig gan ddefnyddio'r PDG.

*Y gymuned ymarfer*

2.34 Yn ogystal â chyngor ac ymchwil LIC ar arferion gorau wrth ddefnyddio'r PDG, anogir CARh, ALlau ac ysgolion i gynhyrchu astudiaethau achos arfer dda ac i rannu adnoddau eraill gydag ymarferwyr a gofalwyr mewn cymuned ymarfer ar-lein a elwir yn ExChange – Care & Education[59]. Mae'r hwb adnoddau yn cynnwys:

- **Astudiaethau achos** wedi'u hysgrifennu gan ysgolion ac ALlau ar arfer gofal ac addysg cyfredol yng Nghymru i gynorthwyo'r rheiny sy'n ceisio datblygu'u dulliau;
- **Deunyddiau ymarfer** ac adnoddau a ddefnyddir gan ymarferwyr addysg a gofal cymdeithasol i gynorthwyo addysg plant a phobl ifanc sydd mewn gofal, neu sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r deunyddiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyngor a gynigir gan sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynorthwyo pobl gyda'u hymarfer. Mae'r wefan ExChange: Gofal ac Addysg[60] yn rhestru manylion cyswllt ar gyfer 18 o sefydliadau allweddol y trydydd sector sy'n gweithredu ym maes gofal ac addysg, gan gynnwys y Rhwydwaith Maethu, Voices from Care Cymru a Chymdeithas Maethu a Mabwysiad Cymru;
- **Erthyglau ymchwil ac adolygiadau o ymarfer** i fesur llwyddiannau a meysydd i'w gwella; a
- **Blog misol** yn rhoi diweddariadau newyddion ar brosiectau ac yn tynnu sylw at ddeunyddiau a ychwanegwyd yn ddiweddar.

**Prif bwyntiau cryno**

2.35 Mae angen y grant er mwyn lleihau anghydraddoldebau a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal:

[58] Egan, D., Saunders, D., a Swaffield, L., Mawrth 2014. *Making Effective Use of the Pupil Deprivation Grant: A resource for education leaders and practitioners.*

[59] Exchange Wales

[60] Cysylltiadau Pwysig Exchange Wales

- Mae oddeutu 6,000 o blant sy'n derbyn gofal, a cheir cryn amrywio yn y niferoedd rhwng ALlau. Gall profiadau blaenorol plant sy'n derbyn gofal, a'u profiad o fod mewn gofal, gael effeithiau difrifol ar eu cynnydd a'u cyrhaeddiad addysgol, ac mae hynny'n effeithio ar eu hyfforddiant galwedigaethol a'u rhagolygon o ran cyflogaeth.
- Er bod y duedd dros gyfnod yn dangos bod presenoldeb a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal (hyd at 2016) wedi gwella'n gyffredinol, ceir bwlch mawr mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill ym mhob cyfnod addysg, ac yn hanfodol yng Nghyfnod Allweddol 4, a gaiff effaith fawr ar ddilyniant[61]. Gwelir hyn i raddau amrywiol yn holl ardaloedd y CARh.
- Yn ardaloedd y CARh, ceir lefelau cyrhaeddiad gwahanol iawn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond gwahaniaeth bach iawn sydd rhyngddynt o ran y lefelau a gyflawnir gan yr holl ddisgyblion.

2.36 Mae strategaeth a chynllun gweithredu gan Lywodraeth Cymru i godi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, ac mae'n parhau i 2019. Mae'r camau gweithredu wedi cynnwys rhoi'r newidiadau ar waith i'r dull o weinyddu'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddai disgwyl bod gwariant y grant yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y strategaeth.

2.37 Sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal ar ddechrau blwyddyn ariannol 2015/16, gyda CARh yn cydweithio gydag ALlau, ysgolion a phartneriaid eraill i reoli a gweinyddu'r trefniadau. Disgwyliwyd i'r rhain sicrhau arbedion maint a chysondeb yn y gwariant trwy gyflwyno dulliau mwy strategol a chynyddu dulliau cydlynus o feithrin gallu trwy Gydlynwyr CARh yn gweithio gyda chydgysylltwyr LACE ym mhob ALl. Fel rhan o'r trefniadau newydd hyn:

- Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob CARh yn darparu cynlluniau blynyddol ar gyfer gwario'r grant, ac adroddiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn. Nid yw CARh wedi mynnu cael adroddiadau gwerthuso diwedd blwyddyn a bennwyd yn y canllawiau.

[61] Mae newidiadau i asesu yn CA4 o 2017 yn golygu nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.

- Prif ganllaw Llywodraeth Cymru i’r PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yw dogfen Cwestiynau Cyffredin (2015) sy’n ategu arweiniad cyffredinol ar y PDG. Mae arweiniad ar y gweithgareddau y gellir gwario’r grant arnynt yn amrywio o ran manylder a natur rhwng dogfennau canllawiau gwahanol ar y PDG ac addysg plant sy’n derbyn gofal.
- Ceir amrywiaeth o ffynonellau arweiniad ac ymarfer eraill (Estyn, Mannay et al, Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysgu, Cymuned Ymarfer).

## 3. Canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth

### Cyflwyniad

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn trafod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau y gellid eu hariannu gan y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n adeiladu ar y canfyddiadau yn adolygiad Mannay et al.'s (2015) o ymyriadau effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ar draws astudiaethau, aseswyd effeithiolrwydd ymyriadau yn fras o ran eu heffaith gadarnhaol ar unrhyw rai o'r canlynol: cyrhaeddiad gwybodaeth a sgiliau, cyflawniad addysgol, ymddygiad a phresenoldeb, lles, ymgysylltiad â theuluoedd a'r gymuned, dyheadau a dilyniant i addysg bellach, hyfforddiant galwedigaethol neu gyflogaeth. Adroddwyd am ganfyddiadau yn ôl prif gategorïau gwario'r grant a nodwyd yn yr adroddiad hwn (gweler pennod 7 am fwy o fanylion): adnoddau strategol, hyfforddiant, meithrin gallu yn y system, a chymorth penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

### Methodoleg a chyfyngiadau data

3.2 Yn unol â chanfyddiadau gan Mannay et al. (2015), tystiolaeth gyfyngedig iawn a ganfu'r adolygiad presennol o effeithiolrwydd ymyriadau a oedd yn ceisio cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau addysgol i gyflawni'r effeithiau a amlinellwyd uchod. Canfu un adolygiad cwmpasu gan Forsman a Vinnerljung (2012) mai ychydig o ymchwil i ymyriadau sydd wedi dangos gwelliannau mewn deilliannau addysgol ar gyfer plant mewn gofal. Daeth adolygiad systematig o ymyriadau i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion gan Liabo et al. (2013) nad oedd digon o dystiolaeth gadarn gan yr un astudiaeth i ddangos effeithiolrwydd ymyriadau, er y nodwyd bod ymyriadau addawol am iddynt ganfod rhai effeithiau cadarnhaol. Yn yr un modd, canfu adolygiad systematig diweddar o hap-dreialon wedi'u rheoli a oedd yn gwerthuso ymyriadau a anelai at wella addysg plant sy'n derbyn gofal (Evans et al., 2017) fod rhywfaint o dystiolaeth addawol ond nid terfynol o beth sy'n gweithio, oherwydd ansawdd methodolegol amrywiol astudiaethau. At hynny, daeth yr awduron i'r casgliad mai un peth oedd wedi'i hepgor o'r astudiaethau oedd dadansoddiadau cost a budd o'r arbedion cymharol a gynigiwyd o gymharu â pheidio â darparu'r ymyriadau.

3.3 Mae prinder arbennig o dystiolaeth drylwyr o ymyriadau addysgol effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. O ganlyniad, mae llawer o'r llenyddiaeth a archwiliwyd yn yr adran hon yn canolbwyntio ar rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a

chyd-destunau tebyg mewn gwledydd y gellir eu cymharu. Lle maent yn berthnasol ac yn enghreifftiol, mae rhai astudiaethau rhyngwladol â methodolegau cadarn wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn hefyd.

3.4 Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth yn amlygu pwysigrwydd cynnwys plant sy'n derbyn gofal wrth ddylunio a chyflwyno cymorth, yn enwedig y rheiny â phrofiadau a safbwyntiau amrywiol (Barnardo's, 2006; Sebba et al, 2015). Mae Evans et al. (2016) yn dadlau bod y sylfaen dystiolaeth bresennol wedi'i chyfyngu gan brinder dulliau wedi'u hysgogi'n ddamcaniaethol, a'r diffyg o ran cynnwys y boblogaeth darged wrth ddatblygu damcaniaeth newid ymyriadau neu fecanweithiau cyflwyno. Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth yn tynnu sylw hefyd at yr angen i gymryd golwg ehangach wrth ystyried cymorth addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys ystyried y cyd-destun ar gyfer dysgu a'r capasiti ar gyfer dysgu gan blant sy'n derbyn gofal. Mae gwella cyflawniad addysgol plant mewn gofal yn fater cymhleth, ac yn gysylltiedig â llawer o agweddau eraill ar y system ofal a'r system addysgol (Brodie, 2010).

3.5 Mae'r adrannau canlynol yn trafod y prif ganfyddiadau a nodwyd yn yr adolygiad, yr adroddwyd amdanynt yn ôl prif gategorïau gwario'r grant a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Adnoddau Strategol**

*Rheolaeth strategol*

3.6 Nododd Liabo et al. (2013) dair astudiaeth a oedd yn archwilio ymyriadau strategol, gyda'r nod o newid polisi ac arfer o fewn sefydliadau i gefnogi deilliannau addysgol gwell plant sy'n derbyn gofal (Berridge et al., 2009; Harker et al., 2004; Zetlin et al., 2004). Roedd ymyriadau'n seiliedig ar y ddamcaniaeth nad yw addysg plant sy'n derbyn gofal wedi'i gydlynu'n dda, ac nad yw eu cynnydd addysgol yn cael ei fonitro'n ddigonol. Fodd bynnag, er y gwelwyd cydweithio gwell rhwng gwahanol wasanaethau, ni chanfuwyd unrhyw welliannau clir o ran deilliannau.

3.7 Canfu gwerthusiad o'r peilot Rhith Benaethiaid Ysgol (VSH) yn Lloegr gan Berridge et al. (2009)[62] fod cyflwyno VSH mewn ardaloedd peilot yn Lloegr wedi arwain at ddulliau gwell, mwy strategol o fynd i'r afael â'r gwendidau presennol mewn rheoli a

[62] Roedd y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau gydag 11 VSH, 5 cyfarwyddwr/uwch reolwr gwasanaethau plant, cyfweliadau grŵp â 39 o weithwyr cymdeithasol ac arolwg o bobl ifanc, gofalwyr maeth/preswyl, athrawon dynodedig a gweithwyr cymdeithasol.

gweinyddu, fel cadw cofnodion annigonol, sylw annigonol i broblemau presenoldeb ysgolion, ansawdd cynlluniau addysg personol a methiant i gynnwys gofalwyr maeth fel partneriaid. Canfuont fod ffigurau cyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal yn well yn gyffredinol yn yr ardaloedd peilot nag yn genedlaethol yn gyffredinol. Fodd bynnag, oherwydd ffigurau bach ym mhob awdurdod, gellid priodoli newidiadau a welwyd i wahaniaethau unigol o fewn y boblogaeth yn hytrach na chyflwyno VSH.

3.8 Yn fwy diweddar, mae llenyddiaeth lwyd wedi canfod hefyd y gall VSH fod yn effeithiol ar lefel strategol wrth wella deilliannau addysgol plant sy’n derbyn gofal. Ar sail dadansoddiad o adroddiadau a data arolygu awdurdodau lleol yn Lloegr, canfu adroddiad gofal cymdeithasol blynyddol mwyaf diweddar Ofsted (2016), lle ceir ymarfer cadarn a gellir ei gysylltu â deilliannau sy’n gwella ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, y gall VSH chwarae rhan bwysig i wella presenoldeb, atal gwaharddiadau a monitro cynlluniau addysg personol.

*Systemau monitro a gwerthuso*

3.9 Mae llenyddiaeth lwyd o Gymru a Lloegr yn dangos bod systemau monitro a gwerthuso cadarn ar lefel ALl yn allweddol i wella deilliannau addysgol plant sy’n derbyn gofal. Gan ddefnyddio adroddiadau a data arolygiadau ALl, canfu adolygiad blynyddol Ofsted (2016) o arolygiadau fod olrhain cynnydd addysgol plant sy’n derbyn gofal yn fanwl yn arwain at ymyrraeth a chymorth priodol a phwrpasol, a gall wella cynnydd a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal pan gaiff ei reoli’n dda o fewn ALlau. Canfu’r adroddiad hefyd, lle’r oedd trefniadau cadarn i fonitro cynnydd, fod ALlau yn fwy llwyddiannus o ran cynorthwyo’r rhai sy’n gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant er mwyn lleihau’r niferoedd sy’n mynd yn NEET. Mae systemau data cadarn yn galluogi targedu adnoddau cyfyngedig yn effeithIon er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl (Ofsted, 2012).

3.10 Yn yr un modd, mewn adroddiad ar arfer gorau a ddefnyddiodd ymweliadau ag 16 o ysgolion, 6 ALl a 4 CARh, nododd Estyn (2016) fod systemau olrhain cadarn a gwerthuso rheolaidd, yn cynnwys adborth gan blant sy’n derbyn gofal, gofalwyr ac ysgolion, yn nodweddion allweddol o ALlau a CARh sy’n fwyaf effeithiol o ran codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyhead plant sy’n derbyn gofal. Nodwyd hefyd fod sicrhau bod gan ysgolion systemau olrhain cynhwysfawr sy’n cael eu defnyddio’n rheolaidd gan yr holl staff a’u dadansoddi gan yr athro dynodedig plant sy’n derbyn gofal, fel nodweddion canolog o wella deilliannau.

**Hyfforddiant**

*Hyfforddiant i staff ysgolion*

3.11 Ni wnaeth yr adolygiad hwn ganfod unrhyw ymchwil feintiol o ansawdd uchel ar raddfa fawr, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, a oedd yn mynd ati'n uniongyrchol i archwilio effeithiolrwydd hyfforddi staff ysgolion i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

3.12 Fe wnaeth gwerthusiad bach, dull cymysg o effaith y prosiect 'Attachment Aware Schools' yn Rhith Ysgol Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf (Dingwall a Sebba, 2018) archwilio'r effeithiau o ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr ar anawsterau ymlyniad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a sut y gall hyn effeithio ar ddysgu, mewn un ar bymtheg o ysgolion. Canfu'r astudiaeth, ar gyfer 46 o blant 'agored i niwed' wedi'u targedu o chwe ysgol gynradd, fod y niferoedd a oedd yn cyflawni'r disgwyliadau mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg wedi gwella'n sylweddol o'r cyfnod cyn ymyrryd i'r cyfnod ar ôl ymyrryd. Fodd bynnag, nid oedd data ar gael yn benodol ar y disgyblion 'agored i niwed' o'r 10 ysgol arall a gyfranogodd yn y rhaglen.

3.13 Canfu astudiaeth ansoddol fach yn yr Unol Daleithiau gan Hass et al. (2014) y gallai cymorth cymdeithasol yn cael ei ddarparu gan athrawon a phersonél ysgol fod yn un o dri ffactor allweddol sy'n hwyluso digwyddiadau 'trobwynt' ym mywydau oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal a'u llwyddiannau addysgol yn y dyfodol. Datblygodd yr awduron fodel ecolegol o drobwyntiau yn seiliedig ar ganfyddiadau o gyfweliadau ag 19 o bobl ifanc a oedd wedi'u symud oddi wrth eu rhieni biolegol yn blant.

3.14 Canfu dadansoddiad o ddyddiaduron a chyfweliadau lled-strwythuredig â chwech o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y DU gan Sugden (2013) y gallai darparu hyfforddiant i ysgolion ar gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion plant sy'n derbyn gofal a chynnig eglurhad o rai o'r damcaniaethau seicolegol perthnasol, fel damcaniaeth ymlyniad, fod yn bwysig o ran codi lefelau cyrhaeddiad. Dylid ymdrin yn ofalus â'r canfyddiadau hyn o ystyried graddfa fach yr astudiaeth.

3.15 Mae rhywfaint o lenyddiaeth lwyd o Gymru a Lloegr yn awgrymu fod hyfforddi staff ysgolion i adnabod a bodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn ffordd effeithiol o wella'u deilliannau addysgol. Yng Nghymru, canfu ymweliadau Estyn (2016) ag ysgolion, ALlau a CARh fod ALlau a CARh sy'n codi cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol yn darparu

hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff ysgol i'w helpu i ddeall a chefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol plant sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, nodweddir ysgolion llwyddiannus gan staff sy'n ymwybodol o ba blant sy'n derbyn gofal, sy'n meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol ac sy'n glir ynghylch pa strategaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo.

3.16 Gan ddefnyddio adroddiadau a data arolygu ALlau, canfu Ofsted (2016), lle'r oedd VSH yn chwarae rhan bwysig mewn gwella presenoldeb, atal gwaharddiadau a gwella cynnydd a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, eu bod yn darparu cymorth cadarn i athrawon dynodedig, gan gynnwys darparu hyfforddiant lle bo angen.

*Hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth*

3.17 Nododd adolygiad Evans et al (2017) o hap-dreialon wedi'u rheoli bump o ymyriadau wedi'u darparu gan ofalwyr o fewn y lleoliad gofal, ond dim ond un astudiaeth aeth ati i archwilio effaith darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth (Green et al., 2014). Fe wnaeth yr hap-dreial bach hwn wedi'i rheoli yn Lloegr werthuso'r Gofal Maeth Triniaeth Amlddimensiwn i'r Glasoed yn seiliedig ar grwpiau, sy'n darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth i rieni maeth arbenigol am gyfnod o naw mis, gyda chyfnod byr o ôl-ofal. Ddeuddeg mis yn dilyn y gwaelodlin, ni chanfu'r awduron effaith ar unrhyw ddeilliant a fesurwyd, gan gynnwys gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol neu sgiliau iaith a phresenoldeb.

3.18 Mewn arolwg o 279 o'r rhai sy'n gadael gofal gan Starks (2013), dywedodd 18% o'r rhai sy'n gadael gofal na fyddent yn y brifysgol heb gefnogaeth eu gofalwyr maeth, a dywedodd 23% arall fod eu gofalwyr maeth wedi cefnogi'u penderfyniad i wneud cais i'r brifysgol. Daeth yr awduron i'r casgliad y gallai mwy o hyfforddiant i ofalwyr maeth i helpu darparu arweiniad a chymorth i blant sy'n derbyn gofal sydd am fynd i addysg uwch, helpu codi'u huchelgeisiau addysgol.

3.19 Canfu astudiaeth ansoddol fach, yn cynnwys cyfweliadau gyda 15 o ofalwyr maeth a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect Swedaidd "darllen mewn parau", fod angen cefnogaeth ar ofalwyr a phlant i ymrwymo i ddarllen mewn parau (Forsman, 2017). Yn seiliedig ar gyfweliadau gyda phobl ifanc a gofalwyr, mae'r astudiaeth yn awgrymu fod cyfrifoldeb gan weithwyr proffesiynol i helpu gofalwyr ddod yn gysylltiedig, i integreiddio'r hyfforddiant darllen ym mywyd bob dydd ac i weithredu'r dull fel ei fod yn cael ei arfer yn unol â chyflyrau a dewisiadau'r cyfranogwyr.

3.20 Mae rhywfaint o lenyddiaeth lwyd yn awgrymu y gall darparu hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Daeth adolygiad Estyn (2016) i'r casgliad fod ysgolion Cymru'n effeithiol o ran cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal i gyfranogi mewn gwaith targedig gyda gofalwyr i ddatblygu'u sgiliau a'u dealltwriaeth er mwyn cefnogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn well.

**Meithrin Gallu yn y System**

3.21 Ni wnaeth yr adolygiad hwn ganfod unrhyw ymchwil o ansawdd uchel ar raddfa fawr, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, a oedd yn archwilio effeithiolrwydd recriwtio/ uwchsgilio staff na rhwydweithio/rhannu arfer gorau ar lefel ysgolion neu ALI i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

3.22 Canfu hap-dreial wedi'i reoli ar raddfa fach yn yr Unol Daleithiau gan Zetlin et al. (2004) effaith cyflwyno arbenigwyr addysg sy'n athrawon addysg arbennig ardystiedig, gyda gwybodaeth am reolau a rheoliadau'r system ysgol ac adnoddau yn y gymuned leol. Mae'r arbenigwr yn derbyn atgyfeiriadau o asiantaethau lles plant pa na fydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu datrys anawsterau addysgol. Canfu'r awduron nad oedd yr arbenigwyr addysg hyn yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar bresenoldeb yn yr ysgol, niferoedd sy'n cael eu hatal neu sy'n gadael 24 mis ar ôl y gwaelodlin ymhlith plant 5 i 17 oed sy'n derbyn gofal.

3.23 Fe wnaeth astudiaeth achos dulliau cymysg o 32 o'r glasoed sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth gan Weinberg et al. (2014) archwilio effeithiau recriwtio arbenigwr cyswllt addysg i fynd i'r afael â rhwystrau addysgol a gwella'u deilliannau addysgol, drwy hwyluso cydweithredu a chydweithio cryfach rhwng asiantaethau. Ni chanfu'r awduron unrhyw newid arwyddocaol yn ystadegol mewn mesurau o gyflawniad ysgol, nac ymgysylltiad dros gyfnod o dair blynedd, er y gwelwyd cyfraddau is o symudiadau ysgol a chyfraddau uwch o bresenoldeb.

3.24 Canfu astudiaeth ansoddol fach yng Nghymru gan Brewin a Statham (2011) y gallai graddfa gweithio amlasiantaeth fod yn un o'r ffactorau sy'n cefnogi neu'n rhwystro'r pontio i'r ysgol uwchradd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Defnyddiodd yr astudiaeth gyfweliadau gydag 14 o blant sy'n derbyn gofal, 22 o ofalwyr maeth, 19 o athrawon, 3 o gydgysylltwyr LACE a grŵp ffocws gweithwyr cymdeithasol. Fe wnaeth astudiaeth dulliau cymysg ehangach gan Jackson a Cameron (2012)[63] briodoli hwyluso

[63] Tynnwyd canfyddiadau ar gyfer yr astudiaeth hon o lenyddiaeth ac adolygiad polisi, dadansoddiad eilaidd o ystadegau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, arolygon o gyrff cyhoeddus cyfrifol mewn gofal cymdeithasol

cyrhaeddiad gwell yn yr ysgol i bobl ifanc a oedd wedi bod mewn gofal i gydweithredu a chydweithio rhwng asiantaethau, ar sail dadansoddiad o gyfweliadau manwl wyneb yn wyneb â 170 o bobl ifanc a oedd wedi bod mewn gofal mewn pum gwlad Ewropeaidd. Nododd Brady (2017) rhannu gwybodaeth a chydweithredu rhwng asiantaethau fel elfennau allweddol o arfer da, ar sail adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol yn ymwneud â chyrhaeddiad a chynnydd addysgol plant mewn gofal.

3.25 Mae rhywfaint o lenyddiaeth lwyd o Gymru a Lloegr yn tynnu sylw at bwysigrwydd trefniant staff a meithrin gallu i gefnogi deilliannau addysgol gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Canfu arolygiad thematig o naw ALl yn Lloegr gan Ofsted (2012) fod y rhith ysgolion mwyaf effeithiol yn cynnal ffocws ar feithrin gallu ar draws y system ehangach. Roedd timau rhith ysgolion mwy mewn ALl yn gallu cynnig cymorth addysgu uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â chysylltu ag ysgolion, mynychu cyfarfodydd a chynnig cymorth a hyfforddiant i ystod o randdeiliaid, a oedd yn fuddiol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd y ffocws gan y timau mwy hyn weithiau a oedd gan dimau rhith ysgolion llai ar feithrin gallu o fewn gwasanaethau presennol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal i wneud cynnydd addysgol.

3.26 Canfu Ofsted (2012) nad oedd cydberthyniad amlwg rhwng maint y rhith ysgol, neu faint yr ALl, a'u gallu i gefnogi rhwydwaith athrawon dynodedig. Canfuwyd fod rhith ysgolion bach wedi cynnal rhwydweithiau sefydledig, creadigol a dynamig o athrawon dynodedig. Gwelodd arolygwyr fod rhith ysgolion ag adnoddau prin yn aml yn cael eu hannog i weithio'n agosach gyda chydweithwyr eraill o fewn eu ALlau yn ogystal ag asiantaethau allanol fel rhan o ddull integredig, amlddisgyblaeth o reidrwydd, ond bod y dull hwn yn cefnogi asesiad cyfannol o anghenion addysgol ac anghenion ehangach plant mewn gofal.

3.27 Canfu Estyn (2016), mewn ysgolion sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol, fod ganddynt aelod o'r uwch dîm arwain â chyfrifoldeb am gyflawni strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a llywodraethwr dynodedig ymrwymedig sy'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion plant sy'n derbyn gofal.

---

ac addysg, gan gynnwys cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol a rheolwyr, a chyfweliadau naratif bywgraffyddol gyda sampl o 170 o bobl ifanc 18–24 oed yn Lloegr, Denmarc, Sweden, Sbaen a Hwngari.

### Cymorth ac Adnoddau Penodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

*Adnoddau deunydd*

3.28 Mae dwy astudiaeth feintiol yn awgrymu nad yw darparu llyfrau i blant sy'n derbyn gofal ynddo'i hun yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol fel sgiliau darllen, cyrhaeddiad addysgol ac agweddau at ddarllen (Mooney et al., 2016; Jackson a Martin, 1998). Gallai cymorth cysylltiedig i ddefnyddio'r adnoddau hyn mewn modd adeiladol fod yn bwysig i wireddu buddion posibl a fyddai'n gyson ag astudiaethau ar gyfer yr holl blant.

3.29 Aeth Mooney et al., (2016)[64] ati i werthuso'r Letterbox Club, sy'n golygu bod plant yn derbyn chwe pharsel o lyfrau yn cael eu hanfon drwy'r post dros gyfnod o chwe mis, gan ddefnyddio hap-dreial wedi'i reoli. Tuag wyth mis ar ôl y gwaelodlin, canfu'r awduron nad oedd bod yn berchen ar lyfrau yn cael effaith ar unrhyw un o'r deilliannau a fesurwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys sgiliau darllen ac agweddau at ddarllen. Awgrymodd eu dadansoddiad o'r dystiolaeth ansoddol gan ofalwyr a phlant sy'n derbyn gofal mai'r rheswm am hyn oedd y diffyg cymorth yn cael ei ddarparu i'r gofalwyr a phlant mewn perthynas â'r pecynnau a dderbyniwyd. Mae'r astudiaeth yn argymell, er mwyn i raglenni rhoi llyfrau fod yn effeithiol, fod angen iddynt gynnwys ffocws ar annog ymglymiad uniongyrchol gofalwyr maeth mewn gweithgareddau llythrennedd ar y cyd gyda'r plant sy'n defnyddio'r llyfrau.

3.30 Yn yr un modd, canfu astudiaeth dulliau cymysg ar raddfa fach gan Jackson a Martin (1998) nad oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ym mherchnogaeth llyfrau rhwng grŵp o bobl a oedd wedi cael eu magu mewn gofal ac â lefel cyflawniad addysgol uchel, a grŵp cymharu arall yn cynnwys pobl a oedd wedi'u magu mewn gofal ond nad oeddent yn gyflawnwyr uchel. Daeth yr awduron i'r casgliad fod hyn yn ymhlygu fod cyflawnwyr uchel wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r llyfrgell, gan awgrymu y gall cymorth ac anogaeth i ddefnyddio adnoddau fod yn fwy effeithiol a chosteffeithlon na bod yn berchen ar adnoddau'n unig.

*Rhaglenni tiwtora*

[64] Roedd y treial yn cynnwys sampl o 116 o blant yng Ngogledd Iwerddon (56 wedi'u dyrannu ar hap i'r grŵp ymyrraeth a 60 i grŵp rheoli rhestr aros). Roedd mesurau deilliannau yn canolbwyntio ar sgiliau darllen ac agweddau at ddarllen yn yr ysgol.

3.31 Canfu adolygiad llenyddiaeth gan Brady (2017) fod y sylfaen dystiolaeth bresennol yn dangos canlyniadau cymysg, ond cadarnhaol yn bennaf, mewn perthynas ag effeithiau tiwtora ychwanegol ar blant sy'n derbyn gofal. Mae pump o hap-dreialon wedi'u rheoli yn gwerthuso amrywiolion y rhaglen 'Teach Your Child Well' yng Nghanada wedi canfod canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ymyriadau tiwtora, gan ddangos deilliannau addysgol addawol ar gyfer plant mewn gofal (Flynn et al., 2012; Harper, 2012; Harper & Schmidt, 2012; 2016). Roedd yr ymyriadau hyn yn amrywio o gyfarwyddyd uniongyrchol unigol yn cael ei roi gan rieni maeth i raglen diwtora mewn grwpiau yn cael ei chynnal gan diwtoriaid gwirfoddol. Ni chanfu un hap-dreial wedi'i reoli yn gwerthuso'r rhaglen 'Early Start to Emancipation Preparation' yn yr Unol Daleithiau unrhyw effaith arwyddocaol yn ystadegol (Zinn a Courtney, 2014). Rhoddir mwy o fanylion isod.

3.32 Fe wnaeth hap-dreial wedi'i reoli ar raddfa fach yng Nghanada, a werthuswyd gan Harper a Schmidt (2016)[65] ganfod cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn sgiliau darllen, datgodio, sillafu a mathemateg ymhlith plant yn nosbarthiadau 1 i 8 mewn gofal maeth, a dderbyniodd ymyrraeth diwtora *mewn grwpiau* wedi'i ddarparu gan wirfoddolwyr. Bu'r ymyrraeth diwtora yn rhedeg am 25 wythnos yn y flwyddyn gyntaf, ac am 29 wythnos yn yr ail flwyddyn. Roedd sesiynau'n para am ddwy awr yr wythnos, gydag un neu ddau o wirfoddolwyr yn cynnal pob grŵp.

3.33 Yn yr un modd, yng Nghanada:

- Canfu hap-dreial cynharach wedi'i reoli gan Harper a Schmidt (2012) fod ymyrraeth hyfforddi 25-wythnos ar lefel grŵp ar gyfer disgyblion 6 i 13 oed, wedi'i darparu gan fyfyrwyr prifysgol hyfforddedig, wedi cael effaith sylweddol ar ddarllen a sillafu, ond dim cynnydd ystadegol arwyddocal mewn cyfrifiant mathemateg na dealltwriaeth o frawddegau;
- Canfu hap-dreial tebyg wedi'i reoli a werthuswyd gan Harper (2012) fod ymyrraeth hyfforddi 30-wythnos ar lefel grŵp ar gyfer disgyblion 6 i 13 oed, wedi'i darparu gan fyfyrwyr prifysgol hyfforddedig, wedi cael effaith ar ddarllen, sillafu a chyfrifiant mathemateg, ond dim effaith ar ddealltwriaeth o frawddegau; a

[65] Fe wnaeth 91 o blant yn nosbarthiadau un i wyth ac yn byw mewn gofal y tu allan i'r cartref gyfranogi yn yr astudiaeth a redodd dros gyfnod o ddwy flynedd. Cymerodd hanner y plant ran mewn rhaglen diwtora grŵp cyfarwyddyd uniongyrchol tra rhoddwyd yr hanner arall ar restr aros ac yn gweithredu fel grŵp rheoli ar gyfer yr astudiaeth.

- Chanfu hap-dreial wedi’i reoli ar raddfa fach a werthuswyd gan Flynn et al. (2012)[66] fod plant rhwng 6 ac 13 oed a oedd wedi derbyn ymyrraeth diwtora cyfarwyddyd-uniongyrchol *unigol* wedi’i ddarparu gan rieni maeth hyfforddedig, wedi gwneud cynnydd ystadegol mwy mewn sgorau darllen a mathemateg o gymharu â’r rheiny wedi’u gosod yn y grŵp rheoli/rhestr aros. Adroddodd yr awduron am effeithiau cadarnhaol ar ddealltwriaeth o frawddegau a chyfrifiant mathemateg. Nid oedd unrhyw effaith sylweddol ar ddarllen geiriau neu sillafu. Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys darparu tair awr o diwtora yr wythnos, am 30 wythnos. Noda’r awduron fod y canfyddiadau hyn yn bwysig am y gallai gwasanaethau lles plant allu manteisio ar y potensial i rieni maeth weithredu fel adnoddau i wella deilliannau addysgol plant mewn gofal.

3.34 Yn yr UDA, canfu gwerthusiad Zinn a Courtney (2014) o ymyrraeth diwtora yn y cartref gyda phlant 14 a 15 oed, oddeutu ddwy flynedd ar ôl y gwaelodlin, na chafodd unrhyw effaith ystadegol arwyddocaol ar unrhyw rai o’r mesurau a ddefnyddiwyd o allu academaidd neu ddeilliannau addysgol o gymharu â grŵp rheoli o’r glasoed mewn gofal maeth. Yn nodedig, roedd y grŵp ymyrraeth yn hŷn nag yn yr hap-dreialon eraill wedi’u rheoli a ddisgrifiwyd uchod, a darparwyd yr ymyrraeth gan fyfyrwyr israddedig a graddedig a oedd wedi cael un diwrnod o hyfforddiant ar ddechrau’r ymyrraeth, a datblygiad parhaus ddwywaith y flwyddyn. Daeth yr awduron i’r casgliad o’r dystiolaeth ansoddol nad oedd tiwtoriaid heb arbenigedd digonol yn gymwys iawn i gynorthwyo’r glasoed hyn yn effeithiol.

3.35 Ceir ymchwil werthusol arall sydd wedi canfod y gall tiwtora wedi’i strwythuro ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gyflymu datblygiad eu sgiliau darllen. Canfu astudiaeth ar raddfa fach o ymyrraeth ‘llythrennedd mewn parau’ gyda 35 o ofalwyr a phlant yn Lloegr (Osborne et al., 2010), ar gyfartaledd, fod oedran darllen plant cyfrannog wedi gwella 12 mis yng nghyfnod 16 wythnos y prosiect. Roedd staff ysgolion yn cadw cysylltiad rheolaidd â’r gofalwyr ac yn monitro gweithgarwch.

3.36 Fe wnaeth astudiaeth gan Finn (2008) werthuso’r ymyrraeth Reading Rich a oedd yn cynnwys rhoddion llyfrau a gwaith gyda chartrefi gofal preswyl i wella eu hamgylchedd darllen, a gweithgareddau darllen ac ysgrifennu. O’r 22 o blant a gynhwyswyd yn yr astudiaeth, roedd 17 ohonynt wedi cynyddu’u mynychder darllen mewn cyfweliadau dilynol. Daeth yr awdur i’r casgliad ei bod yn ymddangos bod

[66] Fe wnaeth 77 o blant gyfranogi, gyda 42 yn y grŵp arbrofol/tiwtora a 35 yn y grŵp rheoli/rhestr aros.

sesiynau un i un rhwng gofalwyr a phobl ifanc yn effeithio ar allu plant i ddarllen, tra bod ymyriadau'r ysgrifenwyr wedi cael effaith ar eu hysgrifennu.

*Cymorth pontio ysgolion*

3.37 Fe wnaeth hap-dreial wedi'i reoli yn yr UDA a werthuswyd gan Pears et al. (2013) archwilio effeithiau 'Kids in Transition to School', sef rhaglen yn yr ystafell ddosbarth a gyflwynir 2 fis cyn mynediad i'r ysgol, ac yn ystod y ddeufis cyntaf yn yr ysgol gynradd. Fe wnaeth plant fynychu 24 o sesiynau sy'n mynd i'r afael â sgiliau llythrennedd cynnar, sgiliau pro-gymdeithasol a gweithgareddau hunanreoleiddio, tra bod gofalwyr yn mynychu wyth o gyfarfodydd cyfochrog gyda'r bwriad o ddatblygu'u galli i gynorthwyo'r plentyn wrth ymarfer sgiliau, arferion ac ymddygiad newydd. Ar gyfer yr astudiaeth, cafodd 192 o blant mewn gofal maeth eu haseinio naill ai i ymyrraeth neu wasanaethau fel cyflwr cymharu arferol. Canfu'r awduron bod effeithiau sylweddol, cadarnhaol ar sgiliau llythrennedd cynnar a sgiliau hunanreoleiddio.

*Cynllunio personoledig*

3.38 Mewn astudiaeth yn Sweden, fe wnaeth Tideman et al. (2011) archwilio profiadau 25 o blant maeth 7-11 oed y datblygwyd cynlluniau datblygiad personol ar gyfer cyfer. Ar ddechrau'r prosiect, aseswyd y plant gan seicolegydd ac athro addysg arbennig er mwyn canfod eu gallu gwybyddol sylfaenol. Hefyd, fe wnaethant gynnal ystod o brofion i asesu darllen, sillafu, rhifedd, lles seicolegol ac ymddygiad, a pherthnasoedd rhwng y plentyn a'r athro. Ar sail canlyniadau'r profion hyn, cafodd cynlluniau cymorth addysgol a seicolegol unigol eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer pob plentyn dros gyfnod o 24 mis. Ar ddiwedd y cyfnod 24 mis, cynhaliwyd profion ar y plant eto gan ddefnyddio'r un mesurau. Ar ôl dwy flynedd, roedd sgorau cyfartalog y plant mewn profion IQ, darllen, a sillafu wedi gwella'n sylweddol. Fe wnaeth Tordön et al. (2014) ailadrodd yr ymyrraeth hon gyda 24 o blant (12 bachgen a 12 merch). Mae canlyniadau'r astudiaeth "yn dangos twf sylweddol mewn gallu deallusol, hunansyniad a sgiliau llythrennedd a rhifedd" (Tordön et al., 2014: 43).

*Cymorth a chyngor ychwanegol*

3.39 Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu pwysigrwydd cymorth gyrfaoedd ac addysg perthnasoedd iach wrth gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn addysg, er na nodwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi effeithiolrwydd ymyriadau cefnogol yn y meysydd hyn. Adrodda Starks (2013) fod myfyrwyr a oedd wedi bod mewn gofal yn

pwysleisio'u dibyniaeth ar gyngor a chymorth wrth wneud cais i fynd i addysg uwch, ond dywedodd 41% na wnaethant dderbyn unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, er nad yw'n glir ai dymuniad o'r ysgolion neu'r prifysgolion eu hunain oedd hyn. Gan ganolbwyntio ar yr angen am addysg perthnasoedd iach, canfu ymchwil ddiweddar yng Nghymru fod pobl mewn gofal neu bobl sy'n gadael gofal yn fwy tebygol o ddod yn rhieni mewn oedran cynnar na'r boblogaeth gyffredinol (Roberts et al., 2017). Yn ogystal, mae data o Astudiaeth Carfan Fabwysiadu Cymru yn datgelu bod mwy na chwarter (27%) o famau biolegol a phumed (19%) o dadau biolegol â phlant wedi'u rhoi i'w mabwysiadu, yn bobl a oedd wedi gadael gofal eu hunain.

**Prif bwyntiau cryno**

3.40 Er mai corff cymharol fach o dystiolaeth gadarn o effaith sydd i'w gael, mae'r adolygiad wedi nodi'r gweithgareddau canlynol fel rhai a allai gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n derbyn gofal:

- Ymyriadau a gyd-gynhyrchir gyda phlant a phobl ifanc ac sy'n ystyried cyd-destun ehangach ac anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Offer strategol: Sefydlu systemau ac offer monitro cadarn a gweithdrefnau gwerthuso clir y mae staff ALI ac ysgolion wedi'u hyfforddi i'w defnyddio. Dylai systemau gynnwys mesurau deilliannau clir sy'n canolbwyntio ar gipio anghenion cyfannol ehangach.
- Gweithgareddau hyfforddi: Darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal a sut i'w bodloni; a darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth i'w helpu i gefnogi anghenion addysgol plant yn well yn y cartref.
- Meithrin gallu: Meithrin gallu drwy'r system ehangach drwy hyfforddiant a darparu cymorth i athrawon dynodedig, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth.
- Cymorth penodol: Mae'r sylfaen gryfaf o dystiolaeth gwerthusiadau gyda dyluniadau trwyadl yn awgrymu y gall ymyriadau tiwtora unigolion a grwpiau bach fod yn effeithiol o ran gwella sgiliau academaidd plant sy'n derbyn gofal. Gall adnoddau deunydd fod yn effeithiol, ond dim ond o'u cyfuno gyda darparu cymorth hyfforddedig i rieni maeth neu diwtoriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn defnyddio adnoddau'n adeiladol.

3.41 Mae’r adolygiad yn awgrymu’r ffyrdd canlynol hefyd i reoli a darparu cyllid grant yn effeithiol:

- Recriwtio Rhith Bennaeth Ysgol neu gael aelod staff dynodedig tebyg ar lefel ALl sy’n weithiwyr proffesiynol addysgol uwch a phrofiadol, a’i unig gylch gwaith yw cynorthwyo plant sy’n derbyn gofal trwy gynllunio strategol, monitor a gwerthuso clir a rhwydweithio gyda rhanddeiliaid ehangach.
- Sicrhau bod tîm strategol bach ond â ffocws da ar lefel ALl sy’n hwyluso meithrin gallu ar draws ysgolion, timau gwaith cymdeithasol a grwpiau rhanddeiliaid ehangach.
- Sicrhau bod gan bob ysgol aelod o’r uwch dîm rheoli sy’n gyfrifol am gyflawni strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, a llywodraethwr dynodedig â dealltwriaeth gadarn o anghenion plant sy’n derbyn gofal.

# 4. Llywodraethu

4.1 Mae’r rhan hon yn cyflwyno tystiolaeth ar:

- Ddigonolrwydd adnoddau, yn enwedig gallu arweinwyr CARh, cydgysylltwyr LACE ac arweinwyr dynodedig plant sy’n derbyn gofal mewn ysgolion i gydlynu, cyflwyno a gwerthuso gwariant y PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal;
- Trefniadau llywodraethu a’r graddau y mae partneriaid perthnasol yn ymgysylltu mewn modd ystyrlon â phrosesau dylunio a chynllunio, yn unol â disgwyliadau a thrwy gydol y flwyddyn ariannol; ac
- Eglurder y cyfathrebu a’r graddau y mae strategaethau cyfathrebu yn addas i’r diben.

**Adnoddau**

4.2 Yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru, mae’n rhaid i bob CARh, ALl ac ysgol fod â pherson dynodedig sy’n gyfrifol am blant sy’n derbyn gofal. Dylai deiliaid swydd ar lefel CARh gael eu hariannu gan y PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, ond ni ellir defnyddio hwn ar gyfer arweinwyr lefel ALl neu ysgolion. Mae’r tabl isod yn amlinellu gofynion a rolau deiliaid swyddi ar lefel CARh, ALl ac ysgolion.

**Tabl 4.1 Rolau personau dynodedig**

| Arweinwyr CARh | Cydgysylltwyr LACE | Arweinydd ysgol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
|---|---|---|
| Cynllunio a chyflwyno'r grant: rheoli a dosbarthu cyllid a sicrhau gwerth am arian; arwain, rheoli a datblygu model ysgol/cynaliadwy i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal; trefnu hyfforddiant rhanbarthol a darparu arweiniad i ysgolion ar ymyriadau effeithiol<br>Rhwydweithio a rhannu gwybodaeth: darparu arweiniad, cydweithio a chyfarfod yn rheolaidd â chydgysylltwyr LACE, cyfleu gweledigaeth CARh a sicrhau cysondeb ALlau; mynychu cyfarfodydd arweinwyr CARh bod deufis; cydlynu enghreifftiau o arfer gorau mewn ysgolion; rhannu gwybodaeth gyda chynghorwyr herio<br>Monitro a gwerthuso: arwain casglu a dadansoddi data ar ddeilliannau; paratoi adroddiadau cynnydd interim a therfynol ar gyfer Llywodraeth Cymru. | Disgwylir bod gan ddeiliaid swydd gylch gwaith clir i sefydlu a gorfodi gweithdrefnau a phrotocolau ar y cyd. Dylai deiliaid swydd: ddatblygu ffyrdd o gael barn plant sy'n derbyn gofal; cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid, CARhau ac ysgolion; monitro, coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad yn unigol ac yn gyfunol; a lledaenu arfer da, gan gynnwys hyfforddiant. | Dylai deiliaid swydd fod yn gyfrifol am eiriol a chefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol. Dylai deiliaid swydd: ymgymryd â'r rôl am o leiaf blwyddyn; fod wedi'u hyfforddi'n briodol; a chael yr un amlygrwydd â staff allweddol eraill yn yr ysgol. |

Ffynhonnell: Canllaw Llywodraeth Cymru ar arweinwyr rhanbarthol (heb ei gyhoeddi); Llywodraeth Cymru (2017) Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion.

*Adnoddau ar lefel CARh*

4.3 Yn ymarferol, nodwyd amrywiadau mawr yn nifer a pharhad adnoddau ar lefel CARh. Fe wnaeth adnoddau ar lefel CARh wella yn 2016/17 i ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o allu ar lefel CARh i gynllunio, cyflwyno, cydlynu a gwerthuso cyllid grant:

> "Roedd Llywodraeth Cymru am i ni benodi rhywun i edrych ar PDG, meithrin gallu strategol yn yr ardal hon, a chynllunio'n well" (arweinydd CARh).

4.4 Fodd bynnag, mae Tabl 4.2 yn dangos bod adnoddau yn CARh wedi amrywio ac y bu bylchau. Gallai'r rhain fod wedi effeithio'n negyddol ar ansawdd cymorth ar lefel CARh. Mae'r adnoddau staff yn 2017-18 yn fwy nag oeddent yn 2015-16.

**Tabl 4.2 Adnoddau ar lefel CARh**

| CSC | GCA | ERW | GwE |
|---|---|---|---|
| Arweinydd CARh yn ei le ar gyfer hanner 15/16 a 16/17 i gyd; un diwrnod i ddechrau, yna dau/dri diwrnod; gyda chydgysylltid LACE rhan-amser. Dim deiliad swydd yn ei le rhwng diwedd 2016/17 a Hydref 2017 ond yn rôl amser llawn erbyn hyn. | Arweinydd CARh yn ei le ers Tachwedd 2015; dechreuodd weithio un diwrnod yr wythnos, a thri diwrnod bellach; mae hefyd yn gydgysylltydd LACE rhan-amser; cynorthwyir gan y rheolwr busnes a chyllid. | Dim arweinydd CARh yn ei le hyd nes 2017/18. Cydlynydd hyfforddiant wedi goruchwylio tasgau gyda chymorth y Rheolwr Gyfarwyddwr. | Arweinydd CARh newydd ers Ebrill 2017; dau ddeiliad swydd cyn hynny; mae'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos; cynorthwyir gan y rheolwr busnes a chyllid. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â chydlynwyr CARh a LACE

4.5 Mae newidiadau yn arweinydd y CARh dros y cyfnod gwerthuso, i ryw raddau, wedi effeithio ar allu CARh i gynllunio a chyflwyno'r grant. Er enghraifft, adroddodd un CARh fod cynlluniau rhanbarthol yn cael eu datblygu gan un deiliad swydd ond eu cyflwyno gan un arall, ond ceir dryswch ynghylch a gynhyrchwyd cynllun ar gyfer 2017/18 erioed.

4.6 Mae cefndiroedd proffesiynol amrywiol gan arweinwyr CARh. Er enghraifft, roedd cefndir hyfforddi gan un, gweithiai dau fel cydgysylltwyr LACE rhan-amser tra'r arferai un arall fod yn bennaeth. Teimlai rhai o'r rheiny a gyfwelwyd fod profiad blaenorol deiliaid swydd yn effeithio ar y graddau yr oeddent yn gyfarwydd ag arfer yn seiliedig ar dystiolaeth:

> "Os nad ydych chi wedi bod yn athro dynodedig plant sy'n derbyn gofal, mae'n anodd cadarnhau pethau, ni waeth faint o ddata neu wybodaeth werthuso sydd gennych, os nad ydych chi wedi cael y profiad addysgu hwnnw, mae'n anodd canfod beth rydych chi'n ei wneud a pham" (cydgysylltydd LACE).

*Adnoddau ar lefel ALl*

4.7 Ar lefel ALl, roedd gallu, arbenigedd a threfniadau gweithio cydgysylltwyr LACE yn amrywio'n fawr:

- Mewn ychydig o achosion, arweiniodd diswyddiadau (oherwydd cylchoedd ariannu blynyddol) neu ymddeoliadau at fylchau mewn adnoddau;
- Adroddwyd am drosiant uchel ymhlith deiliaid swydd yn y tair blynedd diwethaf mewn rhai ALlau;

- Adroddodd rhai cydlynwyr LACE am drefniadau gweithio rhan-amser yn hytrach nag amser llawn, tra bod rhai eraill wedi rhannu swydd y cydgysylltydd LACE i wneud swydd amser llawn;
- Roedd ystod eang o gefndiroedd proffesiynol gan gydgysylltwyr LACE, yn cynnwys anogwyr/hyfforddwyr addysgu, gwaith cymdeithasol a dysgu; a
- Roeddent yn gweithio mewn adrannau gwahanol o'r ALl (Addysg, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol), a gwahanol feysydd gwasanaeth, er enghraifft, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Anghenion Addysgol Arbennig, Diogelu, gydag amrywiadau o ran graddfa a lefelau adrodd.

4.8 Dywedodd y rhai a gafodd eu cyfweld fod nifer o'r ffactorau hyn wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni'u rolau disgwyliedig, yn enwedig adnoddau annigonol ac ad-drefnu. Roedd hyn yn ymwneud ag o leiaf draean o ALlau. Hefyd, teimlai rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld fod trefniadau adrannol/tîm wedi effeithio ar statws, dylanwad a blaenoriaethau deiliaid swydd, eu gallu i ddatblygu gweithdrefnau a'u gallu i rwydweithio ac adeiladu perthnasoedd cadarn â rhanddeiliaid, yn enwedig ysgolion.

> "Ceir diffyg eglurder yma. Byddwn i'n awgrymu mai diffyg eglurder cenedlaethol ydyw, oherwydd pe bai'r llywodraeth yn dweud 'iawn, dyma beth yw statws swyddog LACE, dylai'r swydd fod o dan arweinyddiaeth addysg, nid gwasanaethau plant', byddai'r sefyllfa yn newid dros nos" (cydgysylltydd LACE)

4.9 Yn ychwanegol at amrywiadau o ran adnoddau cydgysylltwyr LACE, mae maint timau LACE ALlau, eu lefel arbenigedd a gallu yn amrywio hefyd. Adroddodd rhai timau ALl fod adnoddau da ganddynt, yn enwedig yn ERW lle'r oedd rhywfaint o'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi'i ddefnyddio i ariannu staff cymorth ychwanegol ar lefel ALl, tra bod rhai eraill yn dweud bod diffyg staff ganddynt i gefnogi ysgolion.

*Adnoddau ar lefel ysgolion*

4.10 Ar lefel ysgolion, mae'r trefniadau adnoddau yn llai eglur. Adroddodd dau randdeiliad nad oedd arweinydd plant sy'n derbyn gofal gan bob ysgol, a bod hyn yn effeithio ar lefel y cyfeiriad strategol a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ymhlith corff llywodraethol yr ysgolion. Dim ond 46 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg ddywedodd eu bod yn arweinydd plant sy'n derbyn gofal; fodd bynnag, mae'n aneglur p'un a oedd y gyfran is na'r disgwyl hon yn ganlyniad gamgymeriadau cwblhau h.y. unigolion ddim yn dewis mwy nag un opsiwn rôl swydd, neu'r arolwg yn cael ei gwblhau gan unigolion gwahanol.

### Ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid

4.11 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[67] yn mynnu bod rhanddeiliaid CARh, ALl a lefel ysgol yn datblygu trefniadau cyfathrebu a threfniadau cydweithio rheolaidd. Yn fwy penodol, adrodda'r canllaw i bersonau dynodedig (0) y dylai arweinwyr CARh rannu arweiniad CARh, cyfathrebu'n rheolaidd â CARh eraill, rhannu'u gweledigaeth gydag ALLau, ac y dylai ALlau gydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys ysgolion a gwasanaethau ehangach. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltiad rhanddeiliaid yn gymysg: ni nodwyd unrhyw drefniadau llywodraethu safonedig na strategaethau cyfathrebu ar draws CARh a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid yn barhaus trwy gydol y flwyddyn.

*Defnyddio trefniadau cyfathrebu Llywodraeth Cymru*

4.12 Teimlai'r holl rai a gafodd eu cyfweld ar lefel CARh ac ALl a roddodd adborth ar drefniadau cyfathrebu Llywodraeth Cymru fod gwybodaeth am flaenoriaethau blynyddol a chyfansymiau ariannu yn cael ei darparu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, ac ar fyr rybudd iawn yn y ddwy flwyddyn. Fe wnaethant adrodd fod hyn yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gynllunio a gwario'r dyraniadau, yn enwedig ar y cychwyn:


> "Roedd yr hysbysiad gan LIC yn fyr rybudd iawn – dim ond yn Chwefror 2015 y cafodd ailddyrannu'r PDG o ysgolion i ALlau ei gyflwyno i ni". (arweinydd CARh)

4.13 Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o ddogfennau arweiniad Llywodraeth Cymru, adroddodd yr holl randdeiliaid ar lefel CARh ac ALl eu bod yn ymwybodol o un neu fwy o'r dogfennau arweiniad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a/neu'r PDG yn ehangach. Dywedodd y mwyafrif o randdeiliaid eu bod wedi'u gweld yn ddefnyddiol. Yn yr un modd, ar lefel ysgolion (Ffigur 4.1:), roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gyfarwydd â dogfennau arweiniad Llywodraeth Cymru: roedd 80 y cant yn ymwybodol o'r ddogfen canllawiau hanfodol, ac roedd 73 y cant yn ymwybodol o'r canllaw penodol ar gyfer arweiniwyd dynodedig plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid oedd dros ddwy ran o bump o ymatebwyr yn ymwybodol o'r Canllaw Byr i Ymarferwyr 2013, ac nid oedd dros draean yn ymwybodol o'r canllaw "Beth sydd Wir yn Gweithio", a byddai'r mwyafrif o'r rhai ar lefel CARh ac ALl a gafodd eu

[67] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015 op. cit.

cyfweld yn dymuno cael mwy o eglurder yn yr arweiniad ynglŷn â sut gellir gwario'r arian.

**Ffigwr 4.1 Ymwybyddiaeth o ddogfennau arweiniad Llywodraeth Cymru a adroddwyd**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (N = 219). Roedd cyfraddau dim ymateb yn amrywio (2-6 o ymatebwyr).*

*Ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad rhanddeiliaid ehangach*

4.14 Adroddodd sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol eu bod yn ymwybodol yn gyffredinol o'r grant yn sgil mynychu grwpiau cynghori/strategol, er enghraifft, y Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o blant sy'n derbyn gofal, drwy eu rhyngweithiadau o ddydd i ddydd gyda staff ALI neu CARh, a/neu drwy ryngweithiadau ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes syniad clir gan yr un ohonynt sut yr oedd yr arian wedi'i wario neu ar ba lefel, ac adroddodd un sefydliad rhanddeiliaid nad oedd yn ymwybodol o'r grant.

> "Nid oes gennyf unrhyw synnwyr o ba mor effeithiol y mae'n cael ei ddefnyddio.... nid oes unrhyw atebolrwydd amdano ac mae diffyg ymddiriedaeth yn gysylltiedig ag ef" (Cynrychiolydd sefydliad rhanddeiliaid).

4.15 Teimlai hanner y sefydliadau rhanddeiliaid nad ymgynghorwyd â nhw ar lefel genedlaethol na rhanbarthol cyn newidiadau i'r grant, er y teimlai'r rheiny yr ymgynghorwyd â nhw fod eu barn wedi cael ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ymgynghori ar lefel CARh gyda grwpiau rhanddeiliaid

ehangach cyn y newidiadau i'r grant nac yn ystod prosesau cynllunio ar lefel CARh, er bod un ALl wedi adrodd cynnwys Adoption UK mewn cynllunio ar lefel ALl.

4.16 Yn benodol, teimlai gofalwyr maeth a grwpiau a oedd yn cefnogi gofalwyr maeth fod diffyg ymwybyddiaeth o'r grant ymhlith gofalwyr maeth, a byddent yn hoffi derbyn mwy o wybodaeth am sut y defnyddiwyd y grant, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

> "Credaf nad yw llawer o ofalwyr maeth hyd yn oed yn gwybod beth yw'r grantiau hyn, nid ydynt hyd yn oed yn gwybod pwy sy'n eu cael" (Cynrychiolydd sefydliad rhanddeiliaid).
>
> "Rwy'n teimlo braidd yn ddig, oherwydd rwy'n credu'n bersonol fel gofalwr, fel rhywun sy'n gyfrifol am y plant yma…byddwn i'n hoffi cael llais…ry'n ni'n cael ein gadael allan ohoni'n llwyr" (Gofalwr maeth).

4.17 Mewn ymateb i adborth cynharach gan ofalwyr maeth, yn 2016 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu cyhoeddi "Canllaw Gofalwyr Maeth i Addysg"[68], a gynhyrchwyd gan y Rhwydwaith Maethu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r grant ymhlith gofalwyr maeth. Mae'r ddogfen hon yn darparu rhagor o wybodaeth am y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac yn cynnwys dolen at y gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion ehangach.

4.18 Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o gyfweliadau ar lefel CARh ac ALl o ffocws mwy ar ymgysylltu â gofalwyr maeth ar lefel ranbarthol a lleol. Er enghraifft, yn GCA ceir tystiolaeth o ffocws strategol cryf yn 2015/16 ar ymgysylltu'n well gydag ystod ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, ac yn CSC yn 2015/16 ceir tystiolaeth eu bod wedi ymgysylltu'n ystyrlon â gofalwyr maeth ar draws y rhanbarth. Hefyd, mae CARh ac ALlau yn cynnwys gofalwyr maeth yn gynyddol mewn darpariaeth hyfforddiant ehangach ac yn cyflwyno ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gymorth addysgol yn y cartref. Fodd bynnag, teimlai sefydliadau rhanddeiliaid a gofalwyr maeth y gellid gwneud mwy i wella cysylltiadau gyda gofalwyr maeth a gwneud iddynt deimlo wedi'u grymuso mwy a'u bod yn cael eu cynnwys mwy mewn penderfyniadau ynglŷn â'r grant a defnyddio'r grant. Awgrymont:

- Annog athrawon i drafod gwariant y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr yn ystod nosweithiau rhieni;
- Cyflwyno arolwg i ofalwyr maeth er mwyn casglu'u barn;

[68] Y Rhwydwaith Maethu (2016) *Canllaw Gofalwyr Maeth i Addysg yng Nghymru*.

- Darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth; a
- Sicrhau bod arweinwyr plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion yn monitro ac yn annog ymgysylltiad gofalwyr maeth.

4.19 Adroddodd nifer o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd am fwy o angen i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys yn well mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Tystiolaeth gyfyngedig iawn sydd o ymgysylltiad plant sy'n derbyn gofal ar lefel ranbarthol: dim ond ERW a adroddodd yn benodol eu bod yn ymgynghori â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod cyfnodau cynllunio. Roedd mwy o dystiolaeth o ymgysylltiad plant sy'n derbyn gofal ar lefel All. Er enghraifft, fe wnaeth o leiaf dau ALl ariannu prosiectau drwy'r grant er mwyn deall anghenion plant sy'n derbyn gofal yn well; fodd bynnag, nid oedd eu hymgysylltiad â chynllunio strategol a phenderfyniadau yn systematig nac yn gyffredin mewn ALlau o bell ffordd. Awgrymodd nifer o randdeiliaid y dylid cynnwys pobl ifanc yn well wrth bennu deilliannau ar lefel genedlaethol yn ogystal â darparu mwy o wybodaeth i blant sy'n derbyn gofal am yr hyn y mae'r grant yn ceisio'i gyflawni a sut.

*Trefniadau llywodraethu cenedlaethol ac ar draws rhanbarthau*

4.20 Ar lefel genedlaethol, adroddodd arweinwyr CARh eu bod wedi cyfarfod â Llywodraeth Cymru bob blwyddyn i drafod y newidiadau i'r grant a blaenoriaethau. Hefyd, fe wnaethant gyfarfod â Llywodraeth Cymru bob deufis i drafod cynnydd y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Adroddodd arweinwyr CARh eu bod wedi cyfathrebu â'i gilydd yn ystod pob blwyddyn ariannol i drafod blaenoriaethau, a rhannu arfer gorau a heriau, er nad yw'n glir p'un a oedd hyn yn fwy nag ar sail ad hoc. Yn 2016/17, sefydlwyd Grŵp Strategol Cenedlaethol i gyflwyno'r cynllun addysg plant sy'n derbyn gofal ac i rannu arfer da.

*Trefniadau llywodraethu rhanbarthol i ymgysylltu ag ALlau*

4.21 Roedd mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn amrywio yn ôl CARh, fodd bynnag, roedd rhyw fath o ymgysylltiad rhwng CARh a chydgysylltwyr LACE i'w gael ym mhob rhanbarth. Mae Tabl 4.3 yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ym mhob CARh.

**Tabl 4.3 Trefniadau llywodraethu, yn ôl CARh**

| CSC | GCA | ERW | GwE |
|---|---|---|---|
| Dim Grŵp Llywio ffurfiol; ymgynghoriadau helaeth ond anffurfiol gyda chydgysylltwyr LACE. | Grŵp llywio rhanbarthol bob tymor yn cynnwys cydgysylltwyr LACE, Cynghorydd Herio, staff cyllid a rheoli ac arweinydd CARh; grŵp cydgysylltwyr LACE. | Dim grŵp llywio ffurfiol; cyd bwyllgor/Bwrdd Cymorth Dysgu Rhanbarthol yn cael ei fynychu gan gyfarwyddwyr CARh a chydgysylltwyr LACE; gweithgor LACE bob hanner tymor. | Grŵp Sicrhau Ansawdd Strategol Rhanbarthol bob chwarter yn cael ei arwain gan arweinydd y CARh, ac yn cael ei fynychu gan gynrychiolwyr ALl, cydgysylltwyr LACE ac aelodau Cabinet ac aelodau corfforaethol; cyfarfodydd ad hoc gyda gydag uwch reolwyr mewn timau ALl eraill; adrodd yn chwarterol i dîm arweinyddiaeth y CARh; is-grwpiau lles rhanbarthol. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau gydag arweinydd y CARh a'r cydgysylltydd LACE

4.22 Yn gyffredinol, nid oedd presenoldeb grŵp llywio ffurfiol i weld yn effeithio ar y lefel cydweithio, nac yn dynodi ymgysylltiad parhaus trwy gydol y flwyddyn ariannol rhwng arweinwyr CARh a chydgysylltwyr LACE. Mae'n debygol bod amrywiadau a bylchau mewn adnoddau ar lefel ranbarthol ac ALl yn un o achosion y trefniadau llywodraethu amrywiol a lefelau cymysg o ran ymgysylltiad LACE, ond roedd hyn yn aneglur o'r dystiolaeth.

4.23 Yng Nghonsortiwm Canolbarth y De (**CSC**), nid oes grŵp llywio ffurfiol wedi bod ar waith. Mae'r broses ar gyfer datblygu cynllun yn 2015/16 yn aneglur, ond yn 2016/17 ymgymerodd arweinydd y CARh ag ymgynghoriadau helaeth gyda chydgysylltwyr LACE a theimlai pawb eu bod wedi'u cynnwys yn y broses gynllunio, ac fe wnaethant gyfarfod yn rheolaidd â'r arweinydd CARh trwy gydol y flwyddyn. Teimlai dau randdeiliad, fodd bynnag, fod yr ymgynghori mynych yn araf ac aneffeithlon, ac yn arwain at ormod o ailadrodd a diwygiadau i gynlluniau, a chwblhau a chyhoeddi cynlluniau yn hwyr:

> "Ymddengys bod llawer iawn o fersiynau drafft nad oeddent yn cael eu cytuno gan y consortiwm am ba reswm bynnag" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Mae gweithio fel consortiwm yn gweithio o ran rhai elfennau, ond pan fydd arian ynghlwm, mae'n anodd iawn gwneud, ffiniau yw popeth" (rhanddeiliad lefel CARh).

4.24 Er gwaethaf presenoldeb grŵp llywio rhanbarthol yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (**GCA**), teimlai cydlynwyr LACE fod arian wedi'i ddyrannu i ALlau i raddau helaeth heb unrhyw ymgynghori o gwbl: bu cydweithio rhwng cydgysylltwyr LACE ond adroddwyd ganddynt na fu unrhyw gyfranogiad ar lefel CARh. Serch hynny, yn

gyffredinol, roeddent yn ymwybodol o'r broses ac yn hapus â hi yn 2015/16 gan i arian gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ALl. Er bod hyblygrwydd ganddynt i'w wario fel y mynnent, fe wnaethant gyfarfod yn rheolaidd fel cydgysylltwyr LACE a theimlent fod cysondeb da rhwng yr holl flaenoriaethau.

4.25 Yn 2016/17 sefydlwyd panel adolygu i adolygu ceisiadau am gyllid a dyrannu cyllid i glystyrau ysgolion. Cyfarwyddwyr yr ALlau a'r GCA oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ariannu, a gafodd eu lledaenu, yn ôl staff y CARh, i Grŵp Gwella Ysgolion y GCA, y grŵp cydgysylltwyr LACE a thimau gofal maeth drwy grŵp llywio'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni wnaeth cydgysylltwyr LACE adrodd fod gwybodaeth am benderfyniadau ariannu wedi'i rhannu na'u bod wedi'u cynnwys yn y panel adolygu.

4.26 O ganlyniad, teimlent mai ychydig o ddealltwriaeth neu ddim dealltwriaeth oedd ganddynt o ran y modd y dyrannwyd arian yn 2016/17 heblaw ei fod wedi mynd yn uniongyrchol i ysgolion. Adroddodd yr holl gydgysylltwyr LACE am rwystredigaethau sylweddol gyda'r broses, ac awgrymont nad ymgysylltwyd yn dda â staff ysgolion ychwaith:

> "Fy unig gyfranogiad fu penaethiaid yn fy ffonio ac yn cwyno nad oes unrhyw un yn gwrando arnynt, neu na ddywedwyd wrthynt am y broses, neu fod y broses yn aneglur, neu pwy yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gan nad ydyn nhw'n gwybod pwy ydyw. Nid yw wedi bod yn brofiad cadarnhaol" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Byddwn i'n dweud bod y mwyafrif o'r ysgolion yn eithaf negyddol tuag at GCA am eu bod yn teimlo ei fod braidd fel 'brawd mawr' (cydgygysylltydd LACE)
>
> "Mae'r plant yn cael gwasanaeth gwael, mae'r arian yn cael ei wastraffu ac maent [y consortiwm] yn brysur yn ticio blychau am mai gweithio rhwng ysgolion ydyw" (cydgysylltydd LACE)

4.27 Yn **ERW,** galwyd yr holl gydgysylltwyr LACE ynghyd i lunio cynllun ar gyfer gwariant yn 2015. Yn ôl un rhanddeiliad, hwn oedd y tro cyntaf i'r cydgysylltwyr LACE gael eu galw ynghyd i gydweithio. Nid oedd grŵp llywio ffurfiol ar waith yn unrhyw un o'r blynyddoedd, ac nid oedd arweinydd CARh swyddogol, felly cyfarwyddwyr statudol oedd â gofal am weithredu a rheoli'r cynllun rhanbarthol. Fodd bynnag, mae cydgysylltwyr LACE yn eistedd ar y Bwrdd Cymorth Dysgu Rhanbarthol ac maent yn mynychu gweithgor y cydgysylltwyr LACE bob hanner tymor. Teimlai pob un o'r cydgysylltwyr LACE eu bod wedi'u cynnwys yn dda mewn prosesau cynllunio yn y ddwy flwyddyn, er bod graddau parhau i rannu gwybodaeth o lefel CARh trwy gydol y

flwyddyn yn aneglur. Nododd un ALl faint yr oedd yn gwerthfawrogi ymagwedd ERW at gydweithio: gweithiodd y CARh fel cynghorydd cyffredinol, ond gadawodd i ALlau gynllunio'r gwaith eu hunain:

> "Rwy'n credu fod y ffaith i ni gael y cyfle i greu'r cynllun ein hunain o fantais....felly roedd y man cychwyn gyda ni, sef y bobl sy'n mynd i'w roi ar waith. Wrth edrych yn ôl, roedd yn ffordd ragorol o'i wneud.... oni bai eich bod wedi gweithio ym maes plant sy'n derbyn gofal allwch chi ddim [datblygu cynllun] felly roedd rhaid mai ni oedd yn datblygu'r cynllun". (cydgysylltydd LACE).

4.28 Fodd bynnag, teimlai nifer o gydgysylltwyr LACE y gallai diffyg grŵp llywio ffurfiol ac arweinydd CARh fod wedi arwain at ddiffyg goruchwyliaeth strategol ar lefel ranbarthol. Byddent wedi croesawu trefniadau cydweithio mwy parhaus, yn enwedig rhannu arfer gorau, ar lefel ranbarthol:

> "Ar y dechrau, roeddwn i'n meddwl y bydden ni'n dod at ein gilydd mwy fel tîm a bod yn dîm cyfunol yn hytrach, wyddoch chi, na gweithio yn ein seilos" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Mae'n rhaid bod pethau o'r pum awdurdod lleol arall y gallwn ni [yn yr ALl] ddysgu ohonynt, rwy'n gwybod bod yna, ac rwy'n gweld mai ERW yw'r mecanwaith ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno ac ar gyfer dysgu gwell, rwy'n gweld hwnnw fel cyfrifoldeb ERW, ond nid wyf wedi gweld tystiolaeth o hynny" (cydgysylltydd LACE).

4.29 Yn **GwE**, mae Grŵp Sicrhau Ansawdd Strategol Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth a nodi gweithio rhanbarthol a gweithio rhwng clystyrau a fynychir gan arweinydd y CARh, cynrychiolwyr ALlau, cydgysylltwyr LACE ac aelodau Cabinet ac aelodau Corfforaethol. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau cymysg ymhlith cydgysylltwyr LACE ynglŷn â'u cyfranogiad wrth gynllunio'r grant. Adroddont fod cyfathrebu yn arbennig o wael yn y flwyddyn gyntaf (2015/16) ond priodolwyd hyn i dderbyn cyllid mor hwyr, ac nid yn fai uniongyrchol y CARh. Yn y flwyddyn gyntaf, teimlent fod rhai penderfyniadau, yn enwedig ynghylch hyfforddiant, eisoes wedi'u gwneud ar lefel CARh cyn ymgynghori â nhw:

> "Caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud gan gyfarwyddwyr addysg yn fwy na dim, ac yna mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda ni fel cydgysylltwyr" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Cynhaliodd [y consortiwm] gyfarfod gyda phob ALl yn unigol, ond erbyn i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal, roedd llawer o'r penderfyniadau ynghylch

cyfeiriad y grant eisoes wedi'u gwneud, fel hyfforddiant ac ati" (cydgysylltydd LACE).

4.30 Fodd bynnag, yn yr ail flwyddyn, fe wnaethant adrodd fod cydweithio agosach o lawer ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd bob chwe wythnos. Teimlai ALlau fod y CARh yn gweithredu fel ffrind 'beirniadol' adeiladol ond gan roi'r rhyddid i gydgysylltwyr LACE ddatblygu'u cynlluniau eu hunain i fodloni anghenion:

> "Mae gennym gylch gorchwyl nawr, a dealltwriaeth well o'r hyn rydym yn ei wneud gyda'n gilydd a'r hyn rydym yn gweithio tuag ato" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Mantais eleni [2016/17] yw fy mod i fy hun a'r uwch reolwyr eraill wedi cael mwy o ryddid ac wedi cydweithio mwy gyda'r [consortiwm] i ddylunio'r pethau strategol yr oedd angen i ni wneud, ac mae hyn wedi'n symud ni i'r cyfeiriad cywir" (cydgysylltydd LACE).

*Strategaethau cyfathrebu rhanbarthol a lleol i lywio ALlau*

4.31 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o fodolaeth strategaethau cyfathrebu neu fecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng CARh ac ALlau ac eithrio'r trefniadau llywodraethu yr adroddwyd amdanynt uchod. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau o rannu arfer gorau effeithiol ar lefel CARh gyda chydgysylltwyr LACE, na lledaenu data monitro a deilliannau, ac ni ddarparwyd unrhyw adroddiadau terfynol ar lefel rhanbarthol i ICF. Fodd bynnag, adroddodd y rhan fwyaf o gydgysylltwyr LACE eu bod wedi cyfarfod a chydweithio'n rheolaidd yn eu rhanbarth i drafod blaenoriaethau ac i rannu syniadau ac arfer gorau, a hynny drwy grŵp llywio cydgysylltwyr LACE ffurfiol yn aml.

*Trefniadau llywodraethu CARh ac ALl i gynnwys ysgolion wrth gynllunio'r grant*

4.32 Yn gyffredinol, ni chynhwyswyd ysgolion mewn prosesau cynllunio CARh ac ALl, a theimlent nad oedd y cynllunio wedi cynnwys ymgynghori neu ymgysylltu â'r bobl iawn. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gyfranogiad ar lefel ysgolion mewn trefniadau llywodraethu ar lefel CARh. Roedd tystiolaeth anghyson o bresenoldeb grwpiau strategol lefel ALl ar gael, ac i'r ALlau hynny a adroddodd fod grŵp cynllunio ar lefel leol, roedd yn aneglur pa mor rheolaidd yr oedd staff ysgolion yn gysylltiedig. Adroddodd un ALl yn GwE fod grŵp cynllunio strategol plant sy'n derbyn gofal ar lefel ALl i benderfynu ar ddefnyddio'r cyllid PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys y cydgysylltydd LACE, Swyddog Cymorth Ymddygiad, gweithwyr cymdeithasol, cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd, rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol, cynrychiolydd UCD a Swyddog Adolygu


Annibynnol. Fe’i nodwyd fel mecanwaith llwyddiannus ar gyfer rheoli’r grant ar lefel ALl am ei fod yn:

> “Grŵp o weithwyr proffesiynol o feddylfryd tebyg y mae gan bob un ohonynt gyswllt uniongyrchol â phlant sy’n derbyn gofal ac ymwybyddiaeth o’u hanghenion unigol” (cydgysylltydd LACE).

4.33 Pan oedd arian yn cael ei gadw ar lefel ALl, tystiolaeth gyfyngedig oedd fod ysgolion yn cael eu cynnwys mewn prosesau ar lefel ALl i ddyrannu’r cyllid grant a dderbyniwyd. Er enghraifft, er i un ALl yn GwE adrodd bod ‘panel’ lefel leol ar gael ar gyfer adolygu ceisiadau ysgol am gyllid, dim ond staff lefel ALl oedd yn gysylltiedig (y cydgysylltydd LACE, Swyddog Lles yr ALl, y Swyddog Addysg yn y Cartref a’r Seicolegydd Addysg). Yn gyson â’r canfyddiadau hyn, nid oedd y rhan fwyaf o staff ysgolion yn teimlo eu bod wedi’u cynnwys yn ddigonol yn y prosesau cynllunio.

4.34 Roedd llai na phumed ran o’r ymatebwyr i’r arolwg a ddarparodd ateb yn gysylltiedig â dylunio, neu ymgynghorwyd â nhw ynghylch dylunio’r cynllun neu strategaeth ranbarthol (15 y cant) neu’r cynllun neu strategol leol (18 y cant) (Ffigur 4.2:). Roedd llai na hanner yr holl ymatebwyr a ddarparodd ateb yn cytuno’n gryf neu’n cytuno (43 y cant) fod y cynllun neu strategaeth ranbarthol yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â phobl sy’n gwybod beth sydd ei angen. Yn bwysig, ymatebodd yr un gyfran o ymatebwyr eu bod ‘ddim yn gwybod’, sy’n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth fwy cyffredinol ynglŷn â’r ymgynghoriad a’r strategaethau ymgysylltu a ddefnyddiwyd gan CARh wrth ddylunio’u cynlluniau neu strategaethau. O gymharu â’r cynllun neu strategaeth ranbarthol, teimlai llai o ymatebwyr fod y bobl iawn wedi’u cynnwys wrth greu’r cynllun neu strategaeth leol. Dim ond 38 y cant o ymatebwyr oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno, o gymharu â 32 y cant a oedd yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf.

**Ffigwr 4.2 Barnau ar b'un a oedd yr ymgynghori a'r ymgysylltu yn ddigonol**





*C: I ba raddau ydych chi'n cytuno fod y cynllun neu strategaeth ranbarthol / cynllun neu strategaeth leol yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â phobl sy'n gwybod beth sydd ei angen?*

*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r cynllun neu strategaeth ranbarthol, y rhai na ymatebodd wedi'u hepgor. Cynllun neu strategaeth ranbarthol, N = 102 (ni wnaeth pedwar ymatebydd ateb y cwestiwn hwn). Cynllun neu strategaeth leol, N = 92 (ni wnaeth pum ymatebydd ateb y cwestiwn hwn).*

4.35 Yn 2015/16 a 2016/17, credai llai na hanner yr ymatebwyr fod penderfyniadau ariannu ar lefel ysgolion wedi'u gwneud ar y cyd ag: ysgolion eraill fel rhan o glwstwr ysgolion; ar y cyd â rhanddeiliaid ar lefel ALl neu CARh; neu ar y cyd â staff ysgol eraill (Ffigwr 4.3). Fodd bynnag, yn ail flwyddyn y strwythur ariannu newydd, roedd mwy o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd neu fel rhan o glwstwr ysgolion (40 y cant o ymatebwyr yn 2016/17 o gymharu â dim ond 15 y cant yn 2015/16). Yn ogystal, cafodd ychydig yn fwy o benderfyniadau ar ariannu ysgolion eu gwneud ar y cyd â staff ar lefel ALl neu CARh yn yr ail flwyddyn (gwahaniaeth o wyth pwynt canran). Ymddengys bod nifer y penderfyniadau ariannu a wnaed ar lefel ysgolion ar y cyd â staff ysgolion eraill wedi aros yr un fath dros y ddwy flwyddyn.

**Ffigwr 4.3 Sut cafodd penderfyniadau ariannu ar lefel ysgolion eu gwneud?**




*Sylfaen: Ymatebwyr y derbyniodd eu hysgolion gyllid grant PDG yn uniongyrchol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (N = 87 yn 2015/16, 102 yn 2016/17).*

*Strategaethau a mecanweithiau cyfathrebu ar gyfer hysbysu ysgolion*


4.36 Nodwyd rhywfaint o dystiolaeth o gyfathrebu ar lefel CARh gydag ysgolion. Er enghraifft, adroddodd Consortiwm Canolbarth y De (CSC) eu bod wedi anfon llythyrau at ysgolion i sôn am y cynllun rhanbarthol yn 2016/17 a'u bod wedi cynnal cyfarfodydd briffio ac ymgynghoriadau gydag ysgolion. Ar lefel ALl, mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfweliadau o fforymau neu grwpiau athrawon plant sy'n derbyn gofal yn derbyn gwybodaeth gan gydgysylltwyr LACE am newidiadau i'r grant a chynlluniau lleol. Fodd bynnag, adroddwyd mai ad-hoc ac anghyson i raddau helaeth oedd cynlluniau cyfathrebu i hysbysu ysgolion am drefniadau a chynlluniau'r grant. Arweiniodd hyn at lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth ymhlith ysgolion o newidiadau i'r grant, ac o gynlluniau rhanbarthol a lleol.

4.37 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o'r grant PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (96 y cant), fodd bynnag, dywedodd llai o ymatebwyr (68 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r dyraniad grant. Roedd union hanner yr holl ymatebwyr yn ymwybodol o strategaethau a chynlluniau *rhanbarthol*, ac roedd ychydig yn llai (46 y cant) yn ymwybodol o strategaethau a chynlluniau *lleol*.

4.38 Nodwyd amryw o ddulliau lledaenu ar lefel genedlaethol. Pan ofynnwyd i ymatebwyr egluro sut y cawsant eu gwneud yn ymwybodol o'r newidiadau, darparwyd 135 o ymatebion. Gwnaed y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o newidiadau i'r grant gan eu hawdurdod lleol (47) drwy negeseuon e-bost neu gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, er i rai (22) ddod i wybod trwy gyfarfodydd neu hyfforddiant ar lefel CARh. Adroddodd rhai eraill eu bod wedi dod i wybod amdano drwy negeseuon e-bost (10) neu ddigwyddiadau hyfforddi/fforymau (7) er ei bod yn aneglur pwy ledaenodd y wybodaeth hon. Roedd dulliau eraill yn cynnwys cyfarfodydd rhwydwaith neu glwstwr (10), gan gydweithwyr neu'r pennaeth, staff plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol neu gan ysgolion eraill (22), drwy eu hymchwil eu hunain (5) neu gan weithwyr cymdeithasol yn gysylltiedig â'r ysgol.


4.39 Yn unol â dulliau lledaenu ar gyfer newidiadau cyffredinol i grantiau, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y cawsant eu gwneud yn ymwybodol o gynlluniau rhanbarthol a lleol drwy gyfarfodydd/gweithgorau/grwpiau llywio ar lefel leol, neu gymunedau ymarfer (48 y cant ar gyfer cynlluniau rhanbarthol a 57 y cant ar gyfer cynlluniau lleol. Nododd ymatebwyr a atebodd "arall" eu bod wedi derbyn gwybodaeth drwy neges e-bost neu'n anffurfiol drwy benaethiaid, staff eraill yn yr ysgol neu'r ALl (Ffigwr 4.4 a Ffigwr 4.5)).

**Ffigwr 4.4 Sut cawsoch eich gwneud yn ymwybodol o'r cynllun neu strategaeth ranbarthol?**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gynlluniau neu strategaethau rhanbarthol (N = 102). Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

**Ffigwr 4.5 Sut cawsoch eich gwneud yn ymwybodol o'r cynllun neu strategaeth leol?**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gynlluniau neu strategaethau lleol (N = 92). Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

*Barnau ar lefel ysgolion ar gyfathrebu*

4.40 Roedd mwyafrif (63 y cant) o ymatebwyr a atebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cynllun neu strategaeth leol wedi'u cyfleu'n dda i randdeiliaid, fodd bynnag, roedd dros chwarter yr ymatebwyr (29 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad. Roedd y canfyddiadau'n llai cadarnhaol ar gyfer cynlluniau lleol, gyda 53 y cant yn adrodd eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf nad oeddent wedi'u cyfleu'n dda, a dim ond 34 y cant wnaeth adrodd eu bod wedi'u cyfleu'n dda.


*Ymwybyddiaeth ysgolion o weithgareddau ar lefel ranbarthol neu ALl a sut i gael gafael ar gyllid*

4.41 Adroddodd arweinwyr CARh a chydgysylltwyr LACE eu bod wedi lledaenu amserlenni hyfforddiant a chynlluniau i ysgolion yn rheolaidd, er ei bod yn llai clir sut y cafodd gwybodaeth am weithgareddau eraill ar lefel CARh ei rhannu. Adroddodd ymatebwyr ysgolion am ymwybyddiaeth gymharol dda o gyfleoedd hyfforddi, ond ymwybyddiaeth gyfyngedig o wariant arall y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar lefel CARh ac ALl.

4.42 Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o weithgareddau wedi'u hariannu'n rhanbarthol neu gan yr ALl, roedd dros hanner (58 y cant) yn ymwybodol o gyfleoedd hyfforddi/datblygiad personol i ddeall anghenion y plant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol (Ffigwr 4.6). Fodd bynnag, adroddodd bob un o'r CARh eu bod wedi cyflwyno hyfforddiant i staff ysgolion ar draws y ddwy flynedd.

4.43 Roedd yn agos at hanner (43 y cant) yr ymatebwyr yn ymwybodol o gyfleoedd rhwydweithio a chyfleoedd dysgu ar y cyd. Roedd chwarter yr ymatebwyr yn ymwybodol o recriwtio staff ar lefel ALl i gefnogi hyfforddiant neu weithgareddau ar lefel ysgolion (26 y cant). Yn ERW (44 y cant) yr oedd yr ymwybyddiaeth uchaf, lle dyrannwyd mwy o gyllid i staff lefel ALl nag mewn rhanbarthau eraill. Roedd chwarter (25 y cant) o ymatebwyr yn ymwybodol o fonitro a gwerthuso a dywedodd 16 y cant o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn. Roedd ymatebion 'eraill' yn cynnwys: grantiau yn CSC (un ymateb); gweithio mewn clwstwr yn y GCA (tri ymateb); hyfforddiant ychwanegol yn ERW (un ymateb); a 'menter yn yr ysgol i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i'r dysgwyr dynodedig' yn GwE (un ymateb).

**Ffigwr 4.6 Ymwybyddiaeth o weithgareddau wedi'u hariannu'n rhanbarthol neu gan ALI**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (N = 219). Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

4.44 Fe wnaeth ymwybyddiaeth o sut i gael gafael ar gyllid grant wella rhwng 2015/16 a 2016/17 ond nid oedd yn welliant cyffredinol. Pan newidiodd y cyllid i broses gwneud cais yn rhanbarthol (GCA a CSC yn 2016/17), mae rhywfaint o dystiolaeth y darparwyd gwybodaeth eglur i ysgolion am sut i wneud cais. Er enghraifft, darparodd y GCA ddogfen ganllaw i ysgolion yn 2016/17 pan newidiodd y cyllid i geisiadau clwstwr, ond mae'n aneglur sut cafodd yr arweiniad hwn ei ledaenu a pha mor llwyddiannus. Lle'r oedd cyllid bwrsariaeth ar gael i wneud cais amdano gan yr ALI, anfonodd cydgysylltwyr LACE gyfathrebiadau i hysbysu ysgolion am gyfleoedd ariannu a blaenoriaethau, ond eto, nid yw'n glir pa mor systematig a rheolaidd y cafodd y wybodaeth hon ei rhannu.

4.45 Roedd mwy o ymatebwyr yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cael cyllid yn 2016/17 o gymharu â 2015/16 (74 y cant o gymharu â 59 y cant). O'r ymatebwyr na chafodd gyllid neu a dderbyniodd cyllid yn un o'r blynyddoedd yn unig, dywedodd y mwyafrif mai'r prif reswm oedd diffyg ymwybyddiaeth o sut i gael gafael arno (26 o ymatebion); ac yna 'oherwydd nid oedd ganddynt fyfyrwyr a oedd yn derbyn gofal neu nid oedd ei angen' (24); neu 'oherwydd nid oedd eu cais yn llwyddiannus' (tri).

4.46 Roedd yn fwy cyffredin i'r rheiny na chafodd gyllid o gwbl yn y ddwy flwyddyn i beidio â gwybod y prosesau ar gyfer cael gafael ar gyllid am nad oedd ganddynt unrhyw fyfyrwyr a oedd yn derbyn gofal neu nid oedd ei angen (fe wnaeth 16 o ymatebwyr na chafodd gyllid o gwbl ddatgan hyn fel eu rheswm, o gymharu ag wyth o ymatebwyr a

ddywedodd nad oeddent yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y cyllid, a dywedodd un ymatebydd nad oedd ei gais yn llwyddiannus).

*Tystiolaeth o drefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu arfer gorau*

4.47 Nodwyd rhai enghreifftiau o strwythurau/mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu arfer gorau, ond ar lefel ALl-ALl oedd y rhain yn aml (er enghraifft trwy grwpiau llywio cydgysylltwyr LACE) yn hytrach na'n cael eu hwyluso gan CARh. Er enghraifft, fe wnaeth un cydgysylltydd LACE yn ERW dynnu sylw at y ffaith, er eu bod yn ymwybodol bod gwaith i nodi arfer gorau wedi'i wneud yn ERW, nad oedd wedi'i rannu gydag ALlau:

> "Rwy'n credu bod hwn yn un maes i'w ddatblygu. Mae angen i ni fanteisio mwy ar ein cyd-arbenigedd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol" (cydgysylltydd LACE).

4.48 Yn fwy ffurfiol, adroddodd dogfennau CDC fod y timau LACE yn cydweithio'n aml i sicrhau bod enghreifftiau o arfer gorau yn cael eu nodi a'u rhannu, ac yn ERW, soniodd un adroddiad uchafbwyntiau y byddai gydgysylltwyr LACE yn dechrau defnyddio'r llwyfan HwB ac yn datblygu rhwydweithiau cymuned i rannu arfer gorau a lledaenu gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y digwyddodd hyn yn ymarferol. Nid yw'n glir ychwaith i ba raddau y cafodd arfer gorau ei rannu rhwng CARh. Yn gyffredinol, ymddengys bod y rhan fwyaf o rannu arfer gorau wedi digwydd yn anffurfiol neu'n ad-hoc i raddau helaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cydgysylltwyr LACE eu bod eisiau derbyn mwy o wybodaeth gan CARh a hwyluso rhannu arfer gorau yn well.

**Prif bwyntiau cryno**

4.49 Fe wnaeth y rhan hon ganfod y canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod gan bob CARh, ALl ac ysgol berson dynodedig yn gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal, sydd â chyfrifoldeb dros gydlynu, cyflawni a monitro gwariant grantiau a chefnogi rhwydweithio a rhannu arfer gorau. Yn ymarferol, nodwyd amrywiadau mawr o ran maint a pharhad adnoddau ar lefel CARh, ALl ac ysgolion. Gallai'r amrywiadau hyn fod wedi effeithio ar ansawdd, cysondeb a chynnwys gwaith ar bob lefel.
- Ar lefel genedlaethol, roedd cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru ar newidiadau i'r grant, dyraniadau grant, blaenoriaethau a'r defnydd disgwyliedig o'r grant yn aml yn cael eu darparu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, ac roedd hynny'n effeithio ar gynllunio a gwario'r grant. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn

ymwybodol o arweiniad Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu'r PDG ehangach, yn enwedig y dogfennau arweiniad mwy diweddar, ac roedd y mwyafrif yn eu gweld yn ddefnyddiol.

- Adroddodd sefydliadau rhanddeiliaid ehangach yn cynrychioli plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed, eu bod yn ymwybodol yn gyffredinol o'r newidiadau i'r grant, fodd bynnag, nid ymgynghorwyd â rhai ynglŷn â newidiadau, ac nid oedd syniad clir gan unrhyw un sut yr oedd yr arian wedi'i wario. Galwodd rhai hefyd am gynnwys plant sy'n derbyn gofal yn fwy systematig mewn prosesau cynllunio a llywodraethu.
- Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn mynnu bod CARh, ALlau ac ysgolion yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid ehangach a'u bod yn datblygu trefniadau cydweithio. Fodd bynnag, roedd trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn amrywio gryn dipyn rhwng CARh: roedd grwpiau llywio ffurfiol gan rai CARh, tra bod rhai eraill yn dibynnu ar ymgynghoriadau mwy anffurfiol, ad hoc gyda rhanddeiliaid. Roedd lefelau ymgysylltu cymysg ymhlith cydgysylltwyr LACE mewn prosesau cynllunio rhanbarthol, ac ymwybyddiaeth gymysg o weithgareddau/cynlluniau rhanbarthol o fewn ALlau ac ysgolion.
- Ni nodwyd unrhyw fecanweithiau cyfathrebu ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng CARh ac ALlau, fodd bynnag, nodwyd bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd rhwng cydgysylltwyr LACE yn y rhan fwyaf o ranbarthau (er enghraifft, trwy grwpiau llywio cydgysylltwyr LACE neu'n fwy anffurfiol).
- Yn gyffredinol nid oedd ysgolion yn cael eu cynnwys ym mhrosesau cynllunio CARh ac ALl a phan oedd arian yn cael ei gadw ar lefel ALl, tystiolaeth gyfyngedig oedd bod ysgolion yn cael eu cynnwys mewn prosesau ar lefel ALl i ddyrannu'r cyllid grant a dderbyniwyd. Yn 2016/17, cafodd mwy o benderfyniadau ar lefel ysgolion eu gwneud drwy gydweithio ar lefel clwstwr neu gyda rhanddeiliaid ar lefel ALl neu CARh nag yn 2015/16.
- Adroddodd ysgolion am lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o newidiadau i'r grant, ac o gynlluniau rhanbarthol a lleol. Nodwyd dulliau lledaenu amrywiol, er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi'u hysbysu drwy sianelau lleol yn hytrach na rhai rhanbarthol. Adroddodd ymatebwyr o ysgolion fod ganddynt ymwybyddiaeth gymharol dda o gyfleoedd hyfforddi, ond ymwybyddiaeth gyfyngedig o wariant

arall y PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, ar lefel CARh ac ALl. Fe wnaeth ymwybyddiaeth o sut i gael cyllid grant wella rhwng 2015/16 a 2016/17.

- Nodwyd enghreifftiau o strwythurau/mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu arfer gorau, ond roedd y rhain ar lefel ALl i ALl fel arfer (er enghraifft, trwy’r cydgysylltydd LACE a grwpiau llywio) yn hytrach na’n cael eu hwyluso gan CARh. Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o’r rhannu arfer gorau yn digwydd yn anffurfiol neu ar sail ad-hoc.

# 5. Pennu Polisi

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno tystiolaeth ar:

- Y graddau y mae blaenoriaethau polisi yn cael eu hamlinellu'n glir bob blwyddyn, yn amserol ac wedi'u deall a'u cytuno gan yr holl bartneriaid; a
- Ph'un a yw blaenoriaethau polisi'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y sylfaen dystiolaeth ehangach a monitro a gwerthuso gwariant.

**Asesu blaenoriaethau polisi**

*Blaenoriaethau ar lefel genedlaethol*

5.2 Roedd staff CARh ac ALI a grwpiau rhanddeiliaid ehangach yn glir yn gyffredinol ynglŷn â nodau ac amcanion y grant, ac yn cytuno â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol a amlinellwyd mewn dogfennau canllawiau. Fodd bynnag, teimlai un cydgysylltydd LACE fod y wybodaeth gychwynnol am flaenoriaethau yn aneglur:

> "Yr un peth, pe bawn i'n adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru, yw y byddai wedi bod yn haws i ni pe bai'r negeseuon i awdurdodau lleol wedi bod yn gliriach... ers hynny ry'n ni wedi cael llythyrau eglur iawn, a chyfeiriad clir iawn o ran sut dylen ni wario'r arian, ond ni ddaeth y wybodaeth honno ar y dechrau, ac yna mae'n galluogi'r gwthio a'r tynnu yma i ddigwydd, ac mae hynny'n gwastraffu amser. Felly i ni, byddai eglurder o ran negeseuon i awdurdodau lleol wedi bod yn ystyriaeth ar gyfer arianni, a bydd yn parhau i fod felly." (Cydgysylltydd LACE)

5.3 Roedd sefydliadau rhanddeiliaid yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, rhieni maeth a phlant wedi'u mabwysiadu yn croesawu gwahanu'r grant i ganolbwyntio ar anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal, ac ehangu'r grŵp targed i gynnwys plant wedi'u mabwysiadu a phlant maeth, plant â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a phlant a arferai fod mewn gofal:

> "Sefydlwyd y grant yn wreiddiol ar gyfer teuluoedd incwm isel, ac mae bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn golygu bod yn gymwys i gael y PDG. Mae hynny'n gwbl deg ac nid oes dadlau ynghylch hynny. Ond, fel y dywedais, nid yw ein plant ni [plant sy'n derbyn gofal] wedi'u hamddifadu yn yr un ffordd, efallai nad ydynt wedi'i hamddifadu'n ariannol, er bod llawer ohonynt felly, mae ein plant ni wedi'u hamddifadu'n emosiynol. Mae'r ysgol yn straen i'n plant ni; mae ganddynt broblemau gydag ymlyniad, canolbwyntio, a llawer o bethau" (Cynrychiolydd sefydliad rhanddeiliaid).

5.4 Roedd sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn hapus y dylai'r cyllid gael ei flaenoriaethu i wella cysondeb cymorth addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, a theimlent mai gwell dealltwriaeth o drawma ac ymlyniad ymhlith holl staff ysgolion ddylai'r nod strategol cyffredinol fod. Fe wnaeth pawb a gafodd eu cyfweld groesawu ymagwedd fwy strategol at gyllid grant, er bod llawer wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau ymagwedd gytbwys. Er y credwyd bod ymagwedd ranbarthol gydlynus yn angenrheidiol, roedd rhai pryderon camsyniol nad oedd ar gael i fynd i'r afael ag anghenion unigol pob plentyn.

> "Mae angen i anghenion PDG plant sy'n derbyn gofal gael eu hystyried fel ymyrraeth les fel rhan o strategaeth ysgol gyfan…felly ni allwn ni roi arian i bob plentyn yn unigol. Ac nid oes digon o arian i gael effaith fel hyn" (arweinydd CARh).

5.5 Dywedodd dau arweinydd CARh fod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wedi dod yn gliriach o lawer yn y ddwy flynedd diwethaf a bod hyn wedi gwella cysondeb rhwng strategaethau ar lefel CARh ac ALl. Teimlai un arweinydd CARh hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud pethau'n gliriach bellach yn y ddwy flynedd diwethaf mai grant gwella ysgolion yw'r grant sydd wedi helpu gwella ymrwymiad ar lefel ysgolion.

5.6 Fodd bynnag, adroddodd ychydig o'r rhai a gafodd eu cyfweld am nifer o welliannau y byddent yn dymuno'u gweld mewn perthynas â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol a'r modd y cânt eu cyfleu:

- Teimlai un arweinydd CARh y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi egluro'n well fod y newid yn y grant yn fodel cenedlaethol ac nid yn CARh unigol 'yn dwyn arian' yn unig;
- Byddai un arweinydd CARh a rhyw chwarter o'r cydgysylltwyr LACE yn hoffi cael arweiniad cliriach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mathau o weithgarwch y gellid eu hariannu gan y grant. Tra bod rhai ohonynt yn teimlo bod hyn yn rhoi gormod o hyblygrwydd, teimlai rhai eraill nad oedd digon o hyblygrwydd i'w galluogi i fodloni anghenion penodol plant yn eu ALl.
- Teimlai ychydig o randdeiliaid ar lefel CARh, ALl ac ysgolion y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn gliriach ynglŷn â phwy y mae'r cyllid yn eu cwmpasu, gan fod yr arweiniad yn cael ei ddehongli'n wahanol ar hyn o bryd ar draws CARh ac ALlau. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld eisiau

i'r grŵp targed gael ei ehangu hefyd i gynnwys yr holl blant sy'n agored i niwed, er bod cydgysylltwyr LACE wedi codi pryderon fod y pot arian fesul plentyn sy'n derbyn gofal eisoes yn lleihau o ystyried yr ystod ehangach o bobl ifanc yr oedd i'w cynorthwyo bellach:

> "Mae wir yn anodd dweud na wrth ddisgybl am nad yw'n bodloni'r meini prawf yn union. Dylem gefnogi'r holl ddisgyblion, ond rwy'n deall yr anawsterau ar gyfer hyn gyda'r cyllid sydd gennym. Mae angen sgwrs gwbl newydd arnom gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn, gan mai helynt llwyr ydyw" (cydgysylltydd LACE).
>
> "Rwy'n credu po fwyaf y gallwn ni glymu'r arian hwnnw wrth blant â lefel uchel o brofiadau andwyol yn hytrach na phlant mewn un ffurf benodol o barhad, wyddoch chi, dim ond cadw ei symud yn ôl at 'nid yw hyn yn ymwneud â bod wedi'ch mabwysiadu, nid yw'n ymwneud â derbyn gofal, mae'n ymwneud â'ch profiadau plentyndod cynnar a sut mae hynny'n effeithio ar eich gallu i ddysgu', dyna beth rydym eisiau i'r grant hwn fynd i'r afael ag ef" (cydgysylltydd LACE).

- Teimlai nifer o randdeiliaid fod y grant yn canolbwyntio gormod ar wella deilliannau addysgol heb ystyried gwelliannau mewn lles. Er bod arweiniad Llywodraeth Cymru yn dweud yn glir nad yw'r grant yn canolbwyntio'n unig ar wella deilliannau addysgol yn uniongyrchol, a bod mesurau deilliannau gofynnol yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad a phresenoldeb; ac

- Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith ALlau ynghylch sut dylai plant sy'n symud i ffwrdd o'r ALl gael eu cynorthwyo, yn enwedig y rheiny sy'n symud i Gymru neu allan o Gymru, ac ar hyn o bryd ceir ymarfer cymysg ar lefel ALl. Er bod arweiniad Llywodraeth Cymru[69] yn datgan yn glir na ddylai cyllid ddilyn y plentyn allan o'r sir, dywedodd rhai ALlau eu bod yn dal i ariannu disgyblion sydd y tu allan i'r sir.

*Blaenoriaethau CARh ac ALl*

5.7 Ar lefel CARh, roedd y blaenoriaethau yn y cynlluniau cymorth yn amrywio o ran lefel eu heglurder. Mae asesiad o gynlluniau cymorth yn dangos bod blaenoriaethau wedi'u hadrodd yn well yn gyffredinol yn 2017/18: roedd gan y rhan fwyaf o CARh restr o flaenoriaethau allweddol ar ffurf pwyntiau bwled, yn hytrach na darnau hwy o destun. Fodd bynnag, yn gyffredinol fe wnaeth cyfweliadau ar lefel CARh gadarnhau cysondeb blaenoriaethau lefel CARh ar draws CARh, a gyda blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd yr holl strategaethau CARh y canolbwyntio ar godi cyrhaeddiad

[69] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal: Cwestiynau cyffredin.*

a phresenoldeb, lleihau gwaharddiadau, gwella cyfleoedd cwricwlwm a chefnogi anghenion lles ehangach a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal fel deilliannau dymunol.

5.8 Er mwyn cyflawni'r deilliannau hyn, roedd cynlluniau'r holl CARh yn pwysleisio ffocws ar sicrhau ymagwedd fwy strategol a chynaliadwy at gymorth, ac yn amlygu pwysigrwydd hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ddigon ymwybodol o faterion ymlyniad, a sut i gefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal yn well. Hefyd, roedd cynlluniau CARh yn tynnu sylw at ffocws ar feithrin gallu ysgolion i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, adeiladu partneriaethau effeithiol a gwella cydweithio gydag ystod eang o randdeiliaid ar draws y rhanbarth, datblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu arfer gorau, gwella systemau monitro a gwerthuso a gwneud defnydd gwell o ddata. Roedd amcan pellach gan GwE hefyd i wella lleoliadau a sefydlogrwydd ysgolion er mwyn cadw plant yng Ngogledd Cymru am resymau lles, rhesymau ieithyddol a diwylliannol, tra bod blaenoriaeth allweddol gan CSC yn 2016/17 i sicrhau cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal er mwyn llywio ymagweddau strategol a phrosesau penderfynu gweithredol.

5.9 Dywedodd arweinwyr CARh, o ystyried eu cytundeb ar flaenoriaethau, y byddent yn dymuno symud at fodel cenedlaethol ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau:

> "Cafodd yr arweinwyr rhanbarthol drafodaeth onest gyda Llywodraeth Cymru…ac mae'r pedwar ohonom yn credu'n gryf yn yr un pethau, fod y grant hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â lles plant, fell pam na allwn ni, ar ôl ein cyfnod datblygu, gael model cenedlaethol?" (arweinydd CARh).

> "Mae angen i Blant sy'n Derbyn Gofal ddeall beth rydym ni'n ei wneud mewn ffordd bwrpasol, wedi'i theilwra ar eu cyfer, ond ar y llaw arall, dylai fod yn rhan o strategaeth les ysgol gyfan sy'n sicrhau diogelwch, a chynhwysiant y dylai pob plentyn ysgol eu teimlo" (arweinydd CARh).

5.10 Ar lefel ALl, ceir tystiolaeth gyfyngedig o gynlluniau/blaenoriaethau ar lefel leol. Darparodd un ALl yn ERW gynllun clir ar lefel leol yn amlinellu blaenoriaethau, gwariant disgwyliedig ar gyfer gweithgareddau, a mesurau deilliannau ar gyfer y ddwy flwyddyn. Roedd cynlluniau gwariant rhanbarthol CSC a'r GCA ar gyfer 2015/16 yn cynnwys cynlluniau gwariant hefyd ar gyfer pob ALl yn pennu blaenoriaethau, gweithgareddau, gwariant amgangyfrifedig a mesurau deilliannau, er nad adroddwyd yn gyson am y ffigurau ar gyfer gwariant a gynlluniwyd fesul gweithgaredd, yn enwedig yn y GCA. Nid yw'n glir p'un ai yw ALlau eraill wedi

cynhyrchu cynlluniau ar lefel leol, ac os ydynt, beth oedd eu hansawdd a'u lefel manylder.

5.11 Er bod diffyg tystiolaeth ddogfennol glir, mae canfyddiadau o gyfweliadau â chydgysylltwyr LACE yn awgrymu bod blaenoriaethau ar lefel ALl yn gyson i raddau helaeth â blaenoriaethau lefel CARh:

> "Rydym yn lwcus iawn [yn y rhanbarth hwn] fod y pum cydgysylltydd LACE, ry'n ni gyd o'r un meddylfryd. Ry'n ni wir yn cytuno gan amlaf. Byddem yn eistedd i lawr a thrafod y paramedrau o beth oedd yn dderbyniol a beth nad oedd, ac yna byddem i gyd yn cytuno i ddilyn yr un model fwy neu lai - ac roedd yn gweithio. Cyhyd â'n bod yn gallu rhoi'r arian yn erbyn presenoldeb, cyrhaeddiad, ymddygiad neu 'arall' penodol, yna roedd yn dderbyniol" (cydgysylltydd LACE, GCA).


5.12 O ystyried yr amrywio mewn trefniadau llywodraethu a'r hyblygrwydd cymharol a ganiatawyd i ALlau wrth ddatblygu cynlluniau lleol, nodwyd rhai amrywiadau mewn gweithgareddau arfaethedig i gyflawni deilliannau ar lefel CARh. Er enghraifft, ffocws ar fireinio prosesau Cynllun Addysg Personol (CAP) mewn un ALl a ffocws ar ddatblygu grwpiau anogaeth ac ymagwedd anogaeth ledled yr ALl mewn dau ALl cyfagos. Ceir barnau cymysg hefyd rhwng ALlau ynglŷn â'r gyfran o'r cyllid y dylid ei defnyddio ar gyfer cymorth bwrsariaeth disgyblion unigol. Fodd bynnag, lle'r oedd amrywiadau bach mewn blaenoriaethau, teimlai ALlau eu bod yn ymatebion i anghenion penodol eu hardal:

> "Mae'r hyblygrwydd gennym o hyd yn yr ysgol ac yn lleol i ddefnyddio'r cyllid, ac nid dim ond arian ym mynd ar lefel ranbarthol ac nid yn cael effaith yn lleol ydyw. Mae hwn yn teimlo fel y gorau o'r ddwy system, felly mae gennym hyfforddiant rhanbarthol wedi'i gydlynu, a hefyd mynediad teg at hyfforddiant, a chyllid sy'n adlewyrchu'r ardal leol yn seiliedig ar anghenion unigolion" (cydgysylltydd LACE, GwE)

5.13 Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar lefel ysgolion fod cynlluniau lleol a rhanbarthol yn gyson â blaenoriaethau awdurdod lleol (75 y cant a 69 y cant yn y drefn honno), ac roedd y rhan fwyaf yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf nad oedd cynlluniau rhanbarthol a lleol yn gyson â blaenoriaethau ysgolion (66 y cant ar gyfer y ddau) (Ffigwr 5.1 a 0). Roeddent yn teimlo hefyd fod cynlluniau rhanbarthol, yn gyffredinol, yn ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ac ymchwil gyfredol a/neu arfer gorau, er bod canfyddiadau'n llai cadarnhaol ar gyfer cynlluniau lleol. Dim ond 17 y cant o ymatebwyr ar lefel ysgolion oedd yn teimlo fod gweithgareddau mewn strategaethau


ALI yn adlewyrchu tystiolaeth o beth sy'n gweithio, a theimlai 42 y cant eu bod yn adlewyrchu gwariant blaenorol ysgolion. Nid oedd dros draean o ymatebwyr yn ymwybodol (ddim yn gwybod) a oedd cynlluniau/strategaethau ar lefel ranbarthol neu leol yn adlewyrchu gwariant blaenorol neu dystiolaeth o arfer gorau.

**Ffigwr 5.1 Ymwybyddiaeth o strategaeth/cynllun rhanbarthol**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o strategaeth/cynllun rhanbarthol, N = 102. Y rhai na ymatebodd wedi'u hepgor a'u hamrywio fesul datganiad (2-8).*

**Ffigwr 5.2 Ymwybyddiaeth o strategaeth/cynllun lleol**




*Sylfaen: Ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o strategaeth/cynllun rhanbarthol, N = 92. Y rhai na ymatebodd wedi'u hepgor a'u hamrywio fesul datganiad (3-5).*

5.14 Roedd cysondeb rhwng blaenoriaethau ar lefel CARh a blaenoriaethau clwstwr yn llai clir, er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd a wnaeth sylw ar drefniadau clwstwr wedi adrodd bod amrywiadau mawr yng nghynnwys ac ansawdd ceisiadau clwstwr. Er enghraifft, adroddodd cydgysylltwyr LACE yn y GCA fod ychydig o benaethiaid wedi codi pryderon ynghylch diffyg eglurder mewn perthynas â phrosesau gwneud cais, blaenoriaethau a'r mathau o weithgareddau y gallent wneud cais am gyllid ar eu cyfer.

### Adolygu a diweddaru blaenoriaethau

5.15 Yn gyffredinol, arhosodd blaenoriaethau CARh ac ALl yr un fath dros y cyfnod, fodd bynnag, roedd ffocws cynyddol yn yr ail flwyddyn ar feithrin gallu ysgolion trwy weithio rhwng ysgolion a chlwstwr yn y GCA, CSC a GwE. Mewn cyferbyniad, canolbwyntiodd ERW ar feithrin gallu ysgolion trwy recriwtio staff ar lefel ALl yn y ddwy flwyddyn, er mwyn darparu cymorth strategol ac wedi'i deilwra i ysgolion a chynorthwyo hyfforddiant ac uwchsgilio staff ysgolion. Adroddodd un ALl am leihau'r gyfran o ddyraniadau bwrsariaeth yn yr ail flwyddyn i hwyluso ymagwedd fwy strategol, a symudodd un arall o ffocws ar uwchsgilio i ymgorffori gwaith presennol. Ar lefel ranbarthol, adroddodd ERW am symudiad tebyg hefyd i ffwrdd oddi wrth gynyddu ymwybyddiaeth i ymgorffori dysgu presennol:

> "Ar y dechrau, roedd yn ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth, ac rydym wedi gwneud hynny nawr, ac felly mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth arall. Y peth nesaf yw cael ysgolion i dyfu ar eu pennau'u hunain ac ymgorffori eu dysgu" (rhanddeiliad ar lefel CARh, ERW).

5.16 Adroddodd pob un o'r pedwar CARh am ddiweddaru cynlluniau ar sail gwariant blaenorol a rhoi gwedd gliriach ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru:

- Dywedodd GwE fod yr ALlau wedi cyfarfod yn rhanbarthol fel rhan o adolygiadau chwarterol o wariant i ddarparu canfyddiadau allweddol yr aeth GwE ati wedyn i'w colau a'u defnyddio i ddiweddaru blaenoriaethau; fodd bynnag, ni wnaeth pob ALl fynychu'r cyfarfodydd hyn;
- Adroddodd CSC, ar ôl dyraniadau bwrsariaeth bob blwyddyn, y byddai arweinydd y CARh a'r cydgysylltwyr LACE yn cyfarfod i drafod dysgu o'r gweithgareddau a ariannwyd cyn y cylch ariannu nesaf;
- Adroddodd GCA eu bod wedi mapio gwariant ar gyfer 2014/15 i gefnogi datblygu'u cynllun 2015/16 ac, yn 2016, fe wnaethant gynnal adolygiad gan ddefnyddio'u system FADE (ffocws, gweithgarwch, gwneud, gwerthuso) a chan gynnwys ALlau i asesu beth weithiodd yn dda, a lle'r oedd diffyg cysondeb; ac
- Adroddodd ERW eu bod wedi mireinio cynlluniau ar ôl adolygiad gwariant yn 2015/16, ymgynghoriad uniongyrchol i gipio barnau plant sy'n derbyn gofal a gwerthusiadau o hyfforddiant. Hefyd, aethant drwy'r gwariant chwarterol eto ar gyfer y flwyddyn ariannu hon er mwyn nodi'r mathau o weithgareddau a ariannwyd ac i sicrhau eu bod yn gyson â chynlluniau.

5.17 Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig oedd o unrhyw brosesau adolygu systematig ac nid oedd yn glir pa wybodaeth a gasglwyd, a sut y'i defnyddiwyd wedyn i fwydo'n systematig i gynllunio yn y dyfodol.

5.18 Ar lefel ALl, fe wnaeth o leiaf ddau ALl yn GwE ac un ALl yn ERW adrodd eu bod wedi diweddaru'u cynlluniau ar gyfer monitro a gwerthuso gwariant.

> "Rydym yn dysgu wrth i ni fynd yn ein blaenau, am fod angen i ni adolygu ein cynllun yn gyson mewn modd ailadroddol. Rydym eisiau dysgu oddi wrth bawb arall a rhannu'r hyn rydym wedi'i wneud gyda phobl eraill" (cydgysylltydd LACE, ERW)

> “Rydym yn cael cyfarfod fforwm athrawon dynodedig plant sy’n derbyn gofal ar ddiwedd pob tymor, rydym yn edrych ar beth y defnyddiwyd cyllid ar ei gyfer, ar gyfer pwy wnaethom ei ddefnyddio, sut [wnaethom ei ddefnyddio] a pha mor effeithiol?” (cydgysylltydd LACE, GwE)

**Prif bwyntiau cryno**

5.19 Fe wnaeth yr adran hon ganfod y canlynol:

- Roedd staff CARh ac ALl a grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol, yn gyffredinol, yn deall nodau ac amcanion cenedlaethol y grant a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno gyda blaenoriaethau ar lefel genedlaethol, gan nodi bod newidiadau ac amcanion grant yn angenrheidiol ac amserol. O ystyried y cytundeb cyffredinol o ran blaenoriaethau, byddai arweinwyr CARh yn dymuno symud at fodel cenedlaethol ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau.
- Fodd bynnag, roedd staff ALl a grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol yn awgrymu’n aml y gallai Llywodraeth Cymru egluro’n well mai penderfyniad polisi cenedlaethol oedd cyflwyno’r PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a’r gofyniad am i’r cyllid gael ei gadw ar lefel ranbarthol; darparu arweiniad cliriach ar y mathau o weithgarwch y gellir eu hariannu a pha bobl ifanc a gwmpesir gan y cyllid; egluro p’un a ddylai deilliannau lles ehangach gael eu hystyried ochr yn ochr â chyrhaeddiad addysgol; a darparu mwy o eglurder ynglŷn â sut dylai plant sy’n symud i mewn neu allan o Gymru gael eu cefnogi gan y grant.
- Roedd blaenoriaethau a chynlluniau ar lefel ranbarthol a lleol yn gyson yn gyffredinol, fodd bynnag, nodwyd rhai gwahaniaethau yn y mathau o weithgareddau a gynlluniwyd, yn enwedig ar lefel ALl. Lle’r oedd amrywiadau bach i’w cael, teimlai ALlau eu bod yn angenrheidiol er mwyn mynd i’r afael ag anghenion penodol eu poblogaeth.
- Roedd cysoni blaenoriaethau ar lefel CARh a blaenoriaethau clwstwr yn llai eglur; adroddodd y rhan fwyaf o’r cyfweleion a wnaeth sylwadau ar drefniadau clwstwr bod amrywiadau mawr yng nghynnwys ac ansawdd ceisiadau clwstwr.
- Yn gyffredinol, arhosodd blaenoriaethau yr un fath dros y cyfnod, er bod yr ail flwyddyn wedi canolbwyntio mwy ar ymgorffori dysgu o’r flwyddyn gyntaf, meithrin gallu ysgolion drwy hyrwyddo gweithio mewn clwstwr a gweithio’n fwy strategol.
- Adroddodd pob un o’r pedwar CARh iddynt ddiweddaru cynlluniau ar ôl monitro a gwerthuso gwariant, adolygu a thrafod blaenoriaethau yn unol â pholisi

Llywodraeth Cymru, ac mewn rhai achosion, diweddaru blaenoriaethau a chynlluniau ar sail y sylfaen dystiolaeth ehangach, canfyddiadau arfer gorau a chanlyniadau gwerthuso. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw brosesau adolygu systematig.

- Ar lefel ALl, adroddodd tri ALl eu bod wedi diweddaru cynlluniau ar sail monitro a gwerthuso gwariant. Teimlai ymatebwyr i'r arolwg mewn ysgolion fod cynlluniau rhanbarthol, yn gyffredinol, yn ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru ac ymchwil gyfredol a/neu arfer gorau; fodd bynnag, nid oedd hyn mor wir ar gyfer cynlluniau lleol.

# 6. Dyrannu

6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau i asesu p'un a yw:

- Penderfyniadau gwario a'u sail resymegol yn adlewyrchu anghenion dynodedig ac yn ystyried tystiolaeth o beth sy'n gweithio;
- Dewisiadau gwario yn gyson â pholisi ac arfer da CARh;
- Yr holl ddyraniadau yn cynnwys costiadau, cyllidebau, allbynnau, deilliannau a thargedau disgwyliedig; a
- Grantiau yn cael eu defnyddio'n gyson â disgwyliadau cynlluniau (o ran prosesau, cyllideb ac allbynnau) ac arfer da.

6.2 Ystyrir y rhain yn dilyn dadansoddiad manwl o'r broses ddyrannu a'r gweithgareddau y dyrannwyd cyllid grant iddynt ym mhob CARh.

**Trosolwg o ddyraniadau gwariant**

*Dirprwyo cyllid ar gyfer penderfyniadau dyrannu*

6.3 Mae Tabl 6.1 isod yn amlinellu'r lefelau (CARh, ALl, ysgolion) y gwnaeth CARh ddirprwyo cyllid grant iddynt ar gyfer penderfyniadau ynghylch dyraniadau. Nodwyd amrywiadau o ran ymagwedd ar draws CARh a blynyddoedd, ac o fewn rhai rhanbarthau. Mae'n dangos:

- Bod yr holl CARh wedi cadw rhywfaint o gyllid ar gyfer ALlau (yn 2015/16) a bod dau wedi cadw rhywfaint o gyllid ar gyfer ALlau yn 2016/17 (dim GCA na CSC);
- Darparodd yr holl CARh gyllid i ysgolion; rhai yn uniongyrchol (GwE yn y ddwy flwyddyn, CSC a GCA 2016/17), a rhai drwy gyllid ALl (CSC a GCA 2015/16, GwE ac ERW); a
- Bod rhai CARh wedi darparu cyllid i ysgolion unigol (CSC yn y ddwy flwyddyn, GCA yn 2015/16) a rhai i glystyrau ysgolion (GwE yn y ddwy flwyddyn, GCA yn 2016/17).

6.4 Yn ychwanegol at yr amrywiadau yn y strwythur dyrannu, tynnodd y rhai a gafodd eu cyfweld sylw at y gwahaniaethau mewn ymagwedd at benderfynu ar ddyraniadau cyllid ar gyfer ALlau. Er bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio data Asiantaeth

Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) i ddyrannu grantiau i CARh[70], wrth benderfynu ar ddyraniadau ar lefel ALl neu lefel ysgolion, defnyddiodd ERW, CSC a GCA (yn 2016/17) ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i benderfynu ar gyfanswm niferoedd plant sy'n derbyn gofal i'w ddefnyddio yn eu fformwlâu dyrannu. Yn 2015/16, gofynnodd GCA i gydgysylltwyr LACE ddarparu'r niferoedd o blant sy'n derbyn gofal ar gyfer eu ALl i'r CARh, ond nid yw'n glir sut yr aeth pob ALl ati i gyfrifo'r ffigur hwn.

6.5 Fe wnaeth pob CARh ddefnyddio dull fformwla nid dull gwneud cais ar gyfer dyraniadau cyllid i ALlau (er bod canfyddiadau o un cyfweliad â chydgysylltydd LACE yn awgrymu, yn 2016/17, y gallai CSC fod wedi caniatáu i ALlau wneud cais am rywfaint o gyllid (dyrannwyd y gweddill i ysgolion)). Defnyddiwyd dull gwneud cais yn fwyaf cyffredin ar gyfer dyraniadau cyllid ysgolion gan y CARh a'r ALlau, er bod rhai ALlau yn ERW wedi adrodd eu bod wedi cadw'r holl arian ar lefel ALl, ac wedi ariannu ymyriadau ar lefel ysgolion neu fwrsariaethau unigol drwy'r cyllid hwn gan yr ALl (h.y. ni ddarparwyd unrhyw arian yn uniongyrchol i ysgolion). Darparodd un o ALlau ERW gyllid fformwla i ysgolion a gofynnodd un arall am geisiadau.

[70] Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2015. *Y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal: Cwestiynau cyffredin.*

**Tabl 6.1 Prosesau ariannu yn ôl CARh**

| | CSC | | GCA | | ERW | GwE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyraniad ar lefel CARh** | Dyrennir cyllid grant i bob CARh ar sail eu nifer o blant sy'n derbyn gofal. Caiff cyllid grant ei frigdorri i ddarparu gweithgareddau ar lefel CARh. | | | | | |
| **Blwyddyn** | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 | 2016/17 | 2015/16 a 2016/17 | 2015/16 a 2016/17 |
| **Dyraniad ar lefel ALl** | Gweddill y cyllid wedi'i ddarparu i ALlau – y mwyafrif wedi'i basio i ysgolion | | Gweddill y cyllid wedi'i ddarparu i ALlau | | Gweddill y cyllid wedi'i ddarparu i ALlau. Tri ALl yn cadw'r holl gyllid ar lefel ALl ac yn ei ddefnyddio mewn ysgolion ar sail angen dynodedig (dim proses gwneud cais). | Bron yr holl arian wedi'i ddarparu ysgolion/clystyrau trwy broses gwneud cais a oruchwyliwyd gan dimau LACE; derbyniodd ALlau swm bach o gyllid yn uniongyrchol ar gyfer dyraniadau bwrsariaeth i ddisgyblion unigol a blaenoriaethau lleol, rhwydweithio a dysgwyr y Tu Allan i Gymru. |
| **Dyraniad ar lefel ysgolion** | Ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid i'r ALl; mae un ALl yn dyrannu cyllid ar sail data olrhain disgyblion | Ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid i CARh: ALlau yn cynorthwyo ceisiadau gan ysgolion a chlystyrau | Ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid i'r ALl. | Arweinwyr clystyrau ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid i CARh; cyfranogiad cymysg gan yr ALl mewn panelau asesu CARh | Mewn un ALl, dyrennir £450 fesul disgybl i ysgolion â 5+ o blant sy'n derbyn gofal; mae un ALl yn caniatáu cynigion gan ysgolion ar gyfer cyllid bwrsariaeth. | Mae clystyrau ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid i banelau ALl. Mae ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am fwrsariaeth fach ar gyfer disgyblion unigol i ALlau. |

6.6 Mae Tabl 6.2 yn crynhoi'r cyllid a gedwir ar bob lefel, ar gyfer y ddwy flwyddyn. Fe wnaeth canran y cyllid a gadwyd ar lefel CARh gynyddu fymryn yn CSC, ERW a GCA rhwng 2015/16 a 2016/17; roedd y cynnydd mwyaf yn CSC (o 2 y cant i 10 y cant). Yn 2015/16, cafodd yr holl arian a oedd yn weddill ei ddirprwyo i ALlau, fodd bynnag, fe wnaeth ALlau y GCA ddyrannu'r rhan fwyaf o'u dyraniad i ysgolion (tua 75 y cant). Cadwodd ALlau CSC oddeutu dwy ran o dair o'r cyllid, a chadwodd ALlau ERW fwyafrif (dros dri chwarter) y cyllid.

6.7 Yn 2016/17, arhosodd trefniadau ERW yr un peth. Nid yw'n glir p'un a yw'r cynnydd yng nghanran y cyllid a gadwyd ar lefel ALl yn yr ail flwyddyn yn ganlyniad data gwael neu b'un a yw'n adlewyrchu gostyngiad mewn cyllid bwrsariaeth mewn ysgolion, er i un ALl adrodd fod ganddo lai o gyllid bwrsariaeth yn yr ail flwyddyn gan ffafrio ymagwedd fwy strategol ar lefel ALl. Mewn cyferbyniad, fe wnaeth GCA a CSC ddyrannu'r holl gyllid, neu'r mwyafrif helaeth o'r cyllid, yn uniongyrchol i ysgolion trwy geisiadau am gyllid ar lefel CARh. Darparodd CSC rywfaint o arian i ALlau ar gyfer dysgwyr y Tu Allan i Gymru.

6.8 Ni ddarparwyd unrhyw ddata ar gyfer GwE ond cadarnhaodd y rhai a gafodd eu cyfweld fod ymagwedd gymysg gan GwE at ariannu dros y ddwy flwyddyn. Cadwyd cyfran fach o gyllid ar lefel CARh, tra cynigiwyd y mwyafrif i glystyrau ysgolion ar sail ceisiadau. Hefyd, rhoddwyd cyfran fach o gyllid yn uniongyrchol i ALlau i ddarparu cyllid bwrsariaeth i fyfyrwyr unigol, ac i'w wario ar flaenoriaethau'r ALl.

**Tabl 6.2 Dyraniadau cyllid a amcangyfrifir**

| Blwyddyn | | Cyfanswm dyraniad CARh | Canran a gadwyd ar lefel CARh | Canran a ddarparwyd i ALlau | Canran a ddarparwyd yn uniongyrchol i ysgolion | Canran a gadwyd ar lefel ALl | Canran a ddarparwyd i ysgolion gan yr ALl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2015/16** | GCA | 761,250 | 6 | 94 | 0 | 32[71] | 73 |
| | ERW | 1,150,800 | 7 | 93 | 0 | 78[72] | 22 |
| | GwE | 661,500 | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data |
| | CSC | 1,347,150 | 2 | 98 | 0 | 65[73] | 36 |
| **2016/17** | GCA | 727,950 | 12 | 0 | 89 | 0 | 0 |
| | ERW | 1,068,350 | 7 | 93 | 0 | 91 | 9 |
| | GwE | 671,600 | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data |
| | CSC | 1,302,950 | 10 | 2 | 87 | 100 | 0 |

Ffynhonnell: Cyflwynwyd y taenlenni gwariant gan CARh ac ALlau a chyflwynwyd y dystiolaeth ddogfennol gan Lywodraeth Cymru, CARh ac ALlau.

71 Nid oedd y ffigurau ar gyfer Blaenau Gwent ar gael, ac mae data ar gyfer Caerffili a Chasnewydd wedi'i seilio ar wybodaeth am wariant a ddarparwyd mewn tystiolaeth ddogfennol. O ganlyniad, nid yw'r cyfanswm ffigurau ar gyfer gwariant a gadwyd ac a ddyrannwyd ar lefel ALl yn gwneud cyfanswm o 100%.

72 Mae ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin (gwariant wedi'i gynllunio), Ceredigion (gwariant wedi'i gynllunio), Sir Benfro (gwariant gwirioneddol) ac Abertawe (gwariant wedi'i gynllunio) yn seiliedig ar ffigurau a gymerwyd o dystiolaeth ddogfennol felly dylid eu dehongli'n ofalus.

73 Mae ffigurau ar gyfer Bro Morgannwg a Chaerdydd yn seiliedig ar wariant wedi'i gynllunio o dystiolaeth ddogfennol, felly dylid eu dehongli'n ofalus.

*Gweithgareddau a ariannwyd ar lefel CARh*

6.9 Fe wnaeth pob CARh ddyrannu rhywfaint o gyllid i dalu am arweinyddiaeth a rheolaeth CARh. Yn gyffredinol, roedd hyn yn cynnwys costau uniongyrchol arweinwyr y CARh. Hefyd, defnyddiodd pob CARh gyllid rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ymddygiad ac ymlyniad i athrawon a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, defnyddiodd ERW gyllid ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad a gwaith i gynnwys athrawon ac ysgolion yn y cyfryw hyfforddiant; cynigiodd GwE raglenni hyfforddiant athrawon yn canolbwyntio ar arwain newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth o faterion ymlyniad (e.e. hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Pivotal Education, Yellow Kite a Braveheart); cynigiodd y GCA hyfforddiant ymlyniad ac ymddygiad i athrawon, llywodraethwyr, gofalwyr maeth, staff asiantaeth gwirfoddol, staff colegau ôl-16, darparwyr cwricwlwm amgen a gwasanaethau ieuenctid: a chynigiodd CSC hyfforddiant i staff ysgolion, yn cynnwys hyfforddiant iechyd meddwl a lles yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ymlyniad, newid ymddygiad yn cael ei gynnal gan Pivotal Education, a Chwmni Theatr Geese, a hyfforddiant PALAC i gynorthwyo dysgu a datblygiad proffesiynol[74].

6.10 Defnyddiwyd cyfran fach iawn o gyllid hefyd ar gyfer rhwydweithio a gweithgareddau rhannu arfer gorau yn CSC, ERW a GwE a chefnogi monitro a gwerthuso gwell. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid gan GwE i wella cyfleoedd rhwydweithio i athrawon ac i ddatblygu ymagwedd fwy cyfunol at fonitro gwariant a data deilliannau, gwerthuso a gwneud penderfyniadau. Adroddodd CSC am rywfaint o wariant ar "gymorth arall" yn cynnwys yr hyn a ddisgrifiwyd fel cymorth prosiect a chyfarfodydd LACE rhanbarthol, tra dywedodd GCA fod unrhyw waith rhwydweithio wedi'i ariannu drwy'r dyraniad ar gyfer hyfforddiant ar lefel CARh, a bod gwaith monitro wedi'i ariannu drwy rôl arweinydd CARh heb ddweud yn glir beth oedd y gweithgarwch hwn. Yn gyffredinol, ychydig o newid fu mewn cyfrannau ariannu rhwng blynyddoedd, ac eithrio ar gyfer CSC, a gynyddodd y cyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddiant yn yr ail flwyddyn. Crynhoir y dyraniad bras yn Tabl 6.3 isod.

[74] Rhaglen gyfnewid gwybodaeth yw Hyrwyddo Cyflawniad Plant sy'n Derbyn Gofal (PALAC) sy'n ceisio hyrwyddo ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth mewn ysgolion, a chefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol mewn ysgolion. Hyrwyddo Cyflawniad Plant sy'n Derbyn Gofal

**Tabl 6.3 Gwariant ar lefel CARh yn ôl math o weithgaredd**

| | 2015/16 | | | | 2016/17 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CSC** | **GCA** | **ERW** | **GwE** | **CSC** | **GCA** | **ERW** | **GwE** |
| **Arweinydd CARh** | £10,593 (32%) | £17,000 (36%) | £60,000 (80%) | | £29,432 (22%) | £33,000 (40%) | £60,000 (80%) | |
| **Hyfforddiant** | £19,279 (59%) | £30,000 (64%) | £15,000 (20%) | | £102,461 (76%) | £50,000 (60%) | £13,000 (17%) | |
| **Rhwydweithio/ rhannu arfer gorau** | £1,111 (3%) | 0% | 0% | | 0% | 0% | £2,000 (3%) | |
| **Arall** | £1,852 (6%) | 0% | 0% | | £2,953 (2%) | 0% | 0% | |

Ffynhonnell: Taenlenni cyllid

*Dyraniadau ar lefel ALl ac ysgolion*

6.11 Mae Tablau 6.4 i 6.7 yn yr adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd o dystiolaeth ddogfennol, taenlenni cyllid a ddychwelwyd a chyfweliadau ynglŷn â'r ALlau ac ysgolion ym mhob CARh. Mae dyraniadau cyllid wedi'u cynnwys lle bônt ar gael, ond am y rhesymau a amlinellwyd uchod ynghylch argaeledd cofnodion cyflawn, dylid dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus. Amlygwyd gwahaniaethau rhwng CARh lle bo modd.

6.12 Ledled Cymru:

- Dim ond tri ALl adroddodd eu bod wedi defnyddio cyllid i wella systemau a phrosesau monitro a gwerthuso (un yn ERW a dau yn CSC), fodd bynnag, gwnaed rhywfaint o waith monitro a gwerthuso gan ddefnyddio adnoddau o fath arall neu gan staff a recriwtiwyd gan ALlau gan ddefnyddio cyllid PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal;
- Adroddodd bron pob un (20 o'r 22) o'r ALlau ar draws y pedwar CARh eu bod wedi defnyddio cyllid ALl i gyflwyno hyfforddiant (yn ychwanegol at ddarpariaeth hyfforddiant ar lefel CARh) ar amrywiaeth o destunau, yn cynnwys ymwybyddiaeth ymlyniad, materion ymddygiadol a chwarae yn seiliedig ar berthnasoedd, er enghraifft;
- Darparodd ychydig dros hanner (12 o'r 22) yr ALlau dystiolaeth o ariannu staff cymorth plant sy'n derbyn gofal, fodd bynnag, roedd amrywiadau mawr yn y gyfran/symiau o gyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer staff rhwng ardaloedd CARh. Er

mai staff ychwanegol oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o ddyraniad yr ALl yn ERW, ni wnaeth ALlau yn GwE ddefnyddio unrhyw arian ar gyfer staff ar lefel ALl;

- Adroddodd ychydig o dan hanner yr ALlau (10) ar draws pob un o'r pedwar CARh eu bod wedi defnyddio cyllid ar gyfer gweithgareddau rhannu arfer gorau. Soniodd dau ALl hefyd am yr hyn a fyddai'n ymddangos yn weithgareddau rhannu arfer gorau, ond mae'n aneglur p'un a ariannwyd y gwaith mewn ffordd arall neu drwy'r grant;
- Adroddodd bron pob un (20) o'r ALlau eu bod wedi darparu cymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal: mae'n debygol fod y ddau ALl arall wedi darparu cymorth, ond na wnaethant adrodd amdano. Adroddodd wyth ALl eu bod wedi darparu ymyriadau ledled yr ALl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cynlluniau mentora a phrosiectau grwpiau ieuenctid lleol. Roedd cymorth arall ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys darpariaeth grwpiau anogaeth, cymorth gyda phontio i'r/o'r ysgol uwchradd (e.e. lleoliadau coleg ac ymweliadau â choleg), hyfforddiant academaidd, pecynnau cwricwlwm amgen, darparu adnoddau (e.e. cynlluniau benthyg gliniaduron), ymyriadau llythrennedd a rhifedd, gweithgareddau chwaraeon a chlybiau ysgol, teithiau preswyl, a chymorth ymddygiad a chwnsela; ac
- Adroddodd naw ALl (yn ERW, GwE a CSC) eu bod wedi ariannu gweithgareddau "eraill". Roedd y rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer dysgwyr y Tu Allan i Gymru ac mewn rhai achosion, costau ychwanegol heb eu hesbonio.

6.13 Roedd llai o wybodaeth ar gael am y gweithgareddau a ariannwyd trwy gynigion clwstwr neu ysgolion. Yn y GCA yn 2016/17, defnyddiwyd y cyfryw gyllid ar gyfer hyfforddiant, recriwtio staff a chymorth disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyllid ar gyfer gwaith monitro neu werthuso neu weithgareddau rhwydweithio a rhannu arfer gorau. Yn CSC yn 2016/17, ceir tystiolaeth o gyllid ar gyfer hyfforddiant, cymorth unigol i blant sy'n derbyn gofal, rhwydweithio a gwaith monitro a recriwtio staff mewn ysgolion.

*GCA*

6.14 Yn 2015/16, darparwyd y rhan fwyaf o'r grant i ysgolion gan ALlau, naill ai trwy broses gwneud cais neu'n uniongyrchol. Ariannwyd gweithgareddau yn gyson â'r "pump R" [yn Saesneg), fel y'u diffiniwyd gan y GCA ar lefel ranbarthol: tâl (taliadau ychwanegol i staff), recriwtio (staff ychwanegol mewn ysgolion, fel cyflogi mentoriaid plant sy'n derbyn gofal), ailstrwythuro (newid rolau staff), rhyddhau (cymorth hyfforddiant i staff perthnasol ac ar gyfer meithrin gallu), adnoddau (TGCh, prynu cyrsiau arbenigol). Fe wnaeth pob un o'r ALlau ariannu hyfforddiant ac ystod o gymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys gweithgareddau ysgol gyfan, clybiau ar ôl ysgol a chymorth bwrsariaeth i fyfyrwyr unigol. Defnyddiodd dau ALl gyllid ar gyfer gweithgareddau rhwydweithio a rhannu arfer gorau, a defnyddiodd ddau ALl gyllid i recriwtio staff cymorth ar lefel ALl (Tabl 6.4).

6.15 Yn 2016/17, darparwyd cyllid i glystyrau ysgolion yn uniongyrchol gan y CARh. Mae'r dyraniadau'n dangos y cafodd £480,036 (74 y cant) ei ddarparu ar gyfer 'gweithgareddau meithrin gallu'[75] gan gynnwys hyfforddiant Thrive[76], hyfforddiant anogaeth[77], prosiectau ysgol gyfan, a recriwtio gweithwyr cymorth a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Darparwyd cyfanswm o £135,144 (21 y cant) ar gyfer 'cymorth disgyblion' gan gynnwys hyfforddiant a chymorth emosiynol.

6.16 Dangosodd adroddiad cynnydd ac uchafbwyntiau'r GCA yn Ionawr 2017 i Lywodraeth Cymru fod 542 o ddisgyblion wedi elwa o'r grant, ac oddeutu 50 y cant o ysgolion yn y rhanbarth.

6.17 Mae astudiaethau achos yn rhoi rhagor o fanylion am weithgareddau ar lefel clystyrau ysgolion yn 2016/17.

- Mewn un ALl, cafodd staff cymorth pwrpasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal eu lleoli mewn nifer o ysgolion uwchradd ar budd plant sy'n derbyn gofal yn y clwstwr. Darparodd y rhain gymysgedd o gymorth bugeiliol ac academaidd a thiwtor plant sy'n derbyn gofal yn darparu cymorth academaidd. Adroddodd y rhai a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth achos fod deiliaid swydd wedi helpu i gyfeirio disgyblion at asiantaethau cymorth eraill fel bo'r gofyn, ac wedi cysylltu ag

[75] Mae'r gweithgareddau meithrin gallu a adroddir yma wedi'u diffinio gan y GCA ac yn cynnwys ystod o weithgareddau ehangach o lawer (e.e. hyfforddiant a phrosiectau ysgol gyfan) na'r diffiniad meithrin gallu a ddefnyddiwyd trwy gydol gweddill yr adroddiad hwn.

[76] Hyfforddiant i gynorthwyo unigolion i weithio mewn ffordd dargedig gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael anhawster gyda digwyddiadau anodd mewn bywyd. Thrive

[77] Mae hyfforddiant anogaeth yn cynorthwyo athrawon a staff eraill sy'n gweithio gyda phlant i roi grwpiau anogaeth ar waith a gweithgareddau eraill i helpu plant ymgysylltu â phrofiadau anogaeth cynnar a gollwyd a gwella'u sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Nurture

athrawon a gofalwyr; wedi helpu plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu sgiliau bywyd, meithrin hyder ac ymddiriedaeth; wedi darparu clybiau hyfforddiant gwaith cartref a chymorth pynciau pwrpasol i blant sy'n derbyn gofal cyn arholiadau.

- Mewn ALI arall, darparwyd cymorth mentora ar draws clystyrau mewn pum ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Darparodd y mentor rhan-amser ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gymorth mentora, hyfforddiant a chymorth teulu i ryw 20 o fyfyrwyr ar draws yr ysgolion clwstwr. Derbyniodd pob plentyn sesiwn 30 munud bob wythnos.

**Tabl 6.4 Gweithgareddau wedi'u hariannu yn y GCA 2015/16, yn ôl ALI**

| Categori gwariant | Math o weithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategol** | Monitro a gwerthuso | | | | | |
| **Hyfforddiant** | Hyfforddiant | "Cyfran fawr" o gyllid ar gyfer hyfforddiant e.e. Thrive | Ymarferwyr Thrive wedi'u hyfforddi i weithio ar draws ysgolion | Hyfforddiant ELSA (£2,583) | Hyfforddiant Thrive | £8,205 |
| **Meithrin gallu yn y system** | Recriwtio staff | Dau fentor | | Staff cymorth bugeiliol (£14,377) | | |
| | Rhwydweithio/rhannu arfer gorau | | | Cydlynydd yr UCD wedi rhannu arfer gorau ar ddelio ag ymlyniad (£11,025) | | Secondio staff o ysgolion. Darparodd UCD waith rhwng ysgolion a rhannu arfer gorau (£15,000) |
| **Cefnogi plant sy'n derbyn gofal** | Ymyriadau/rhaglenni ysgol gyfan a ledled yr ALI ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darpariaeth unigol/cymorth bwrsariaeth | Darpariaeth anogaeth, cymorth pontio | Rhaglenni mentora ar gyfer rheoli dicter; Rhaglenni anogaeth ar draws ysgolion | Cymorth disgyblion unigol e.e. therapi ceffylau, cymorth pontio, hyfforddiant (£5,936); Cyllid ar gyfer pedair ysgol a myfyrwyr unigol sydd mewn perygl o gael eu gwahardd (cymorth tymor byr a rhaglenni ail-integreiddio) (£39,780) | Cynllun 'Letterbox'; Hyfforddiant; person dynodedig plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, hyfforddiant, adnoddau, pecynnau cwricwlwm amgen | "Mentrau disgyblion" (ni ddarparwyd rhagor o wybodaeth) (£5,000); dyraniad yn defnyddio data disgyblion rhanbarthol a grŵp llywio ALI ar gyfer: mentora; llythrennedd, rhifedd, ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol; a chymorth disgyblion unigol (£168,851); hyfforddiant cerddoriaeth, gweithgareddau chwaraeon, lleoliadau colegau, teithiau preswyl (£16,500) |

*ERW*

6.18 Roedd ERW yn mynnu bod ALlau yn canolbwyntio ar dri math o weithgarwch wedi'i ariannu: hyfforddi a datblygu, staff cymorth ac adnoddau ychwanego. ERW oedd yr unig CARh i ddarparu dyraniadau i bob ALl. Yn unol â'r dyraniadau hyn, fe wnaeth yr holl ALlau ariannu hyfforddiant ar draws yr ALl, adnoddau ychwanegol/cymorth bwrsariaeth a staff cymorth ar lefel ALl i gyflwyno gweithgareddau i ysgolion ar draws eu hardaloedd. Cafodd y rhan fwyaf o gymorth ar lefel disgyblion ei drefnu a'i ariannu gan y deiliaid swyddi hyn yn hytrach na'i ddosbarthu i ysgolion (gweler Tabl 6.5).

6.19 Fe wnaeth cyfweliadau a chanfyddiadau astudiaethau achos[78] amlygu'r rolau a'r cyfrifoldebau canlynol gan y gweithwyr cymorth a ariannwyd:

- Darparu cymorth unigol i fyfyrwyr, gan gynnwys darparu a/neu drefnu tiwtora, goruchwylio yn ystod arholiadau, a chymorth bugeiliol;
- Dylunio, trefnu a chyflwyno hyfforddiant ar ystod o destunau sy'n canolbwyntio ar anghenion plant sy'n derbyn gofal;
- Cynorthwyo plant yn y cartref, er enghraifft cymorth adolygu;
- Cefnogi cynlluniau ôl-16, trefnu teithiau, ymweliadau a chyrsiau;
- Meithrin cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill a darparu cyngor a chymorth i athrawon.

6.20 Edrychodd un astudiaeth achos ar rôl swyddog cymorth addysg a ariannwyd ar lefel ALl a oedd yn gyfrifol am drefnu darpariaeth cwricwlwm amgen ac ymweliadau â cholegau a digwyddiadau dysgu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. Teimlai athrawon y byddent yn anodd i'w trefnu eu hunain gan nad oedd ganddynt yr oruchwyliaeth strategol angenrheidiol na'r amser i drefnu ymweliadau a mynd ar ôl ffurflenni caniatâd ar gyfer yr holl ddisgyblion. Hefyd, cynhaliodd deiliad y swydd lawer o waith gyda gofalwyr maeth, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a'u bod yn ymwybodol o'r cymorth a oedd yn cael ei gynnig, a sicrhau eu bod yn cael eu huwchsgilio er mwyn cynorthwyo'u plentyn yn well gyda'i addysg; bu'n cysylltu'n agos â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau

[78] Cynhaliwyd tair astudiaeth achos yn ALlau ERW: un astudiaeth achos yn edrych ar rôl ac effaith mentor plant sy'n derbyn gofal ar lefel ALl (cyfweliadau gyda thri aelod o staff ALl a dau aelod o staff ysgol); un astudiaeth yn edrych ar rôl ac effaith swyddog addysg plant sy'n derbyn gofal mewn un ALl (cyfweliadau gydag 17 o randdeiliaid, yn cynnwys staff ALl, y deiliad swydd, gofalwyr maeth, athrawon, gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr addysgu), ac un astudiaeth achos yn edrych ar effaith hyfforddiant chwarae yn seiliedig ar berthnasoedd ar draws un ALl (17 o gyfweliadau, fel uchod).

iechyd meddwl i sicrhau bod anghenion ehangach plant yn cael eu bodloni; a chyfrannodd at y gweithgareddau gwerthuso a monitro gan y tîm cydgysylltwyr LACE ar blant unigol sy'n derbyn gofal.

**Tabl 6.5 Gweithgareddau wedi'u hariannu yn ERW yn 2015/16 a 2016/17, yn ôl ALI**

| Categori gwariant | Gweithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 | ALI 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategol** | Monitro a gwerthuso | Wedi'i ariannu mewn modd arall – y cydgysylltydd plant sy'n derbyn gofal i ymgorffori systemau a phrosesau | | | | £19,200 (2016/17 yn unig) | |
| **Hyfforddiant** | Hyfforddiant | Hyfforddiant ymlyniad a chwarae yn seiliedig ar berthnasoedd ar gyfer ysgolion cyfan a nyrsys, gweithwyr ieuenctid, gwasanaethau lles; hyfforddiant mewnol ar gyfer cynorthwywyr addysgu (£42,700 yn 2015/16; £89,220 yn 2016/17) | Mentor dysgu plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu hyfforddiant (£5,396 yn 2015/16) | Hyfforddiant gan y cydlynydd AAA mewn ysgolion, hyfforddiant chwarae yn seiliedig ar berthnasoedd (£17,062 yn 2015/16; £11,936 yn 2016/17) | Hyfforddiant ymlyniad yn cael ei gynnal gan seicolegydd addysgol ar gyfer ysgolion ac unigolion; hyfforddiant i ofalwyr maeth. | Hyfforddiant 'Thrive' ac ELSA (£18,000 yn 2015/16; £13,000 yn 2016/17) | Cyllid i'r swyddog arwain prosiectau i gynllunio/ archwilio hyfforddiant (£26,000 yn 2015/16); hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad i arweinwyr dynodedig plant sy'n derbyn gofal a phenaethiaid (£8,500 yn 2016/17) |
| **Meithrin gallu yn y system** | Recriwtio staff | £67,600 yn 2015/16; £102,930 yn 2016/17 | 1.5 o fentoriaid dysgu (un hanner amser yn y gwasanaethau cymdeithasol, y llall mewn addysg) (£31,744 yn 2015/16; £34,521 yn 2016/17) | Cyllid i staff gynorthwyo disgyblion mewn ysgolion, cyflwyno hyfforddiant mewn ysgolion; rhaglenni ymyrraeth mewn ysgolion a chymorth ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol (£195,741 yn | Seicolegydd addysgol – cysylltiadau gyda'r gwasanaeth gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; anogwyr dysgu plant sy'n derbyn gofal (£45,400 yn 2015/16; | Mae dau swyddog cymorth addysg yn cynnig asesiadau a chymorth un i un, rhaeadru dysgu o hyfforddiant i ysgolion (£1000 yn 2015/16; £10,000 yn 2016/17) | Pedwar gweithiwr prosiect (£186,000 yn 2015/16; £142,115 yn 2016/17) |

| Categori gwariant | Gweithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 | ALI 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2015/16; £202,728 yn 2016/17) | £69,740 yn 2016/17) | | |
| | Rhwydweithio/rhannu arfer gorau | Athro o ysgol arweiniol yn rhannu dysgu o hyfforddiant ymlyniad | | | Eiriolaeth dros blant sy'n derbyn gofal (£8,700 yn 2015/16). Rhith ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | | |
| **Cefnogi plant sy'n derbyn gofal** | Ymyriadau/rhaglenni ysgol gyfan a ledled yr ALI ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darpariaeth unigol/cymorth bwrsariaeth | Comisiynwyd grwpiau ieuenctid lleol i gynnal prosiectau; Gweithgareddau'n cael eu cynnal gan weithwyr ymgysylltu ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, a chyfleoedd cwricwlwm amgen | Cyllid ad-hoc ychwanegol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol ac ymweliadau; ysgolion â 5+ o blant sy'n derbyn gofal wedi cael dyraniad o £450 fesul plentyn sy'n derbyn gofal | £11,155 (drwy staff cymorth); hyfforddiant (£21,926 yn 2015/16; £18, 244 yn 2016/17); Deunyddiau cymorth dysgu (£9,166 yn 2015/16; £6,855 yn 2016/17) | Cynigion drwy rith ysgol: Cymorth ymddygiad a chwnsela, cymorth darllen, cwnselydd ysgol | Dyraniadau ALI wedi'u seilio ar angen: Oriau cynorthwywyr addysgu, pecynnau addysg pwrpasol (£86,880 yn 2015/16; £64,961 yn 2016/17) | Hyfforddiant min nos yn y cartref, ac adnoddau. |
| **Arall** | Arall | | | Dysgwyr y Tu Allan i Gymru (£10,000 yn 2015/16; £5,000 yn 2016/17) | | £2000 yn 2015/16, £5,000 yn 2016/17 (ni ddarparwyd unrhyw fanylion) | Dysgwyr y Tu Allan i Gymru (£15,000 yn 2015/16; £9,200 yn 2016/17) |

*GwE*

6.21 Roedd cynllun rhanbarthol GwE yn dangos dyraniadau'r ALl ac ysgolion ar gyfer hyfforddi a datblygu, a chymorth bwrsariaeth hyblyg ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal. Ariannwyd gweithgareddau yn gyson â'r blaenoriaethau hyn, gyda'r holl ALlau yn darparu cymorth bwrsariaeth hyblyg, a phob ALl ond un yn ariannu cyfleoedd hyfforddi a datblygu (Tabl 6.6). Mae'n aneglur p'un a yw adroddiadau ar lefel ALl ar gyllid bwrsariaeth yn cynnwys unrhyw geisiadau clwstwr am gyllid, am fod cyfanswm gwerthoedd bwrsariaethau yn ymddangos yn fach. Ni adroddodd unrhyw ALl ei fod wedi ariannu gweithgareddau recriwtio staff neu weithgareddau monitro a gwerthuso, er bod pedwar wedi adrodd eu bod wedi cyflwyno rhwydweithio a gwaith rhannu arfer gorau.

6.22 Mae astudiaethau achos yn rhoi mwy o fanylion am weithgareddau a ariannwyd mewn ALlau. Cyflwynodd un ALl hyfforddiant i staff ysgol i ddatblygu grwpiau anogaeth mewn ysgolion cynradd i gynorthwyo sgiliau cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal ac i oresgyn anawsterau ymlyniad. Gan adeiladu ar lwyddiant y grwpiau cyntaf, ailadroddwyd hyfforddiant mewn ysgolion eraill a gyda staff eraill. Erbyn hyn, mae dau ALl yn sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd yn cael eu hachredu yn unol â'r cynllun cenedlaethol gwobrwyo anogaeth. Mewn ALl arall, fe wnaeth un ysgol gyfuno ei bwrsariaethau myfyrwyr unigol i ddylunio a chyflwyno clwb marchogaeth i blant sy'n derbyn gofal a dysgwyr eraill 7 i 11 oed sy'n agored i niwed, a oedd yn cynnwys rheoli stablau, marchogaeth a gweithgareddau gofalu am geffylau. Ar ôl llwyddiant cychwynnol y clwb, ehangodd yr ALl y gwaith i gynnwys clwstwr o ysgolion cynradd ar draws yr ALl.

**Tabl 6.6 Gweithgareddau wedi'u hariannu yn GwE yn 2015/16 a 2016/17, yn ôl ALI**

| Categori gwariant | Gweithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 | ALI 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategol** | Monitro a gwerthuso | | | | | | |
| **Hyfforddiant** | Hyfforddiant | Hyfforddiant ymlyniad Pivotal a gweithwyr cyflenwi (£23,166 yn 2015/16) | Pivotal a Train the Trainer (£20,000 in 2015/16); Hyfforddiant i Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn 2016/17 | Hyfforddiant ymlyniad Yellow Kite gydag 20 o staff yn 2016/17. | | Hyfforddiant profedigaeth ac iechyd meddwl ar gyfer y rhwydwaith ysgolion (£17,500 yn 2015/16; £19, 995 yn 2016/17) | Rheoli ymddygiad ac ymlyniad, iechyd meddwl a chyfle cyfartal. |
| **Meithrin gallu yn y system** | Recriwtio staff | | | | | | |
| | Rhwydweithio/rhannu arfer gorau | Rhwydweithio yn 2016/17 (£7,500) | Yn cael ei redeg yn ddigost | | | £77 yn 2015/16; £2,937 yn 2016/17. | Cyllid ar gyfer fforwm athrawon dynodedig plant sy'n derbyn gofal yn 2016/17 (£7,500). |
| **Cefnogi plant sy'n derbyn gofal** | Ymyriadau/rhaglenni ysgol gyfan a ledled yr ALI ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darpariaeth unigol/cymorth bwrsariaeth | Therapi naratif (ni ddarparwyd mwy o fanylion), grwpiau anogaeth, DVD storïau personol, adnoddau dysgu, clybiau ar ôl ysgol, ymweliadau addysgol, teithiau tramor, gwersi cerddoriaeth | Clwb Lego club ar gyfer blwyddyn bontio 6-7 (£5,000 yn y ddwy flwyddyn), clybiau marchogaeth; Bwrsariaethau unigol (£12,600 yn 2016/17) | Bron yr holl arian wedi'i ddefnyddio i ariannu bwrsariaethau: hyfforddiant ysgolion, cymorth tiwtora, ymyriadau lles, grwpiau anogaeth, ysgolion haf, gweithgareddau pontio a datblygu mannau tawel mewn ysgolion | Cynllun benthyg gliniaduron; defnyddir bron yr holl arian fel ceisiadau am gyllid bwrsariaeth. | Rhaglen therapi a benthyg gliniaduron (£7,529 yn 2015/16; £2,110 yn 2016/17); bwrsariaeth ysgolion (£2,121 yn 2015/16; £34,545 yn 2016/17) | Prosiect therapi cymdeithasol ac emosiynol yn 2016/17. |
| **Arall** | Arall | Dysgwyr y Tu Allan i Gymru (£7,350 yn 2015/16) | Dysgwyr y Tu Allan i Gymru (£7,282 yn 16/17) | | | Gweinyddu'r grant (£3,000 2015/16) | Dysgwyr y Tu Allan i Gymru (£11,500 2016/17) |

*CSC*

6.23 Yn 2015/16 darparwyd cyllid i ALlau (Tabl 6.7). Fe wnaeth ALlau ariannu ystod o weithgareddau yn cynnwys gwaith monitro a gwerthusol, hyfforddiant, cymorth staff, a rhwydweithio yn ogystal â darparu cymorth hyblyg i ysgolion a myfyrwyr. Er enghraifft:

- Monitro: gwariodd un ALl bron i £40,000 ar ddyfeisio a gweithredu taenlen olrhain bob tymor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion (er bod cynnwys ac union bwrpas y daenlen yn aneglur o dystiolaeth ddogfennol);
- Arweiniad: fe wnaeth dau ALl wario tua £30,000[79] i gyd-gynhyrchu llyfryn i gynorthwyo ysgolion i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n agored i niwed yn well. Ar ôl cynhyrchu llyfryn yn flaenorol ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth, fe wnaeth y bartneriaeth gomisiynu Prifysgol Caerdydd i ddylunio llyfryn ar gyfer ystod eang o randdeiliaid ar sut i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal orau, ac yna cyflwynodd sesiynau hyfforddiant mewn ysgolion ar draws y ddau ALl gan ddefnyddio'r deunydd yn y llyfryn;
- Hyfforddiant: darparwyd hyfforddiant ar lefel ALl gan bedwar o'r pump ALl. Fe wnaeth un ALl ariannu trwydded hyfforddiant Thrive dwy flynedd yn 2015/16 gyda chyllid yn 2016/17 ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i ddiweddaru sgiliau ymarferwyr Thrive (amcangyfrif cyfanswm gwariant o £45,000). Fe wnaeth yr ALl hyfforddi ychydig o unigolion mewn timau ALlau gwahanol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ogystal â dau aelod o staff o bob clwstwr ysgolion (cyfanswm o 23 o unigolion). Mae ymarferwyr Thrive mewn ysgolion yn cynnal asesiadau o ddisgyblion ac yn trefnu cymorth hyblyg ar sail anghenion dynodedig, yn cynnal asesiadau mewn cartrefi maeth; ac yn rhannu gwybodaeth gyda staff ysgolion eraill ynglŷn ag ymagweddau, cysyniadau a therminoleg er mwyn uwchsgilio'r ysgol gyfan.

6.24 Yn 2016/17, mae gweithgareddau wedi'u hariannu yn aneglur gan i gyllid gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion gan y CARh, a dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael am y gweithgareddau a gefnogwyd gan y cyllid. Mae canfyddiadau o astudiaethau achos a gynhaliwyd fel rhan o'r adroddiad hwn ac astudiaethau achos mewnol a gynhyrchwyd gan ysgolion yn CSC yn darparu mwy o fanylion am

[79] Mae'r cyfanswm gwerth a adroddwyd gan y rhai a gyfwelwyd mewn astudiaethau achos yn amrywio o'r gwerthoedd a adroddwyd gan gydgysylltwyr LACE yn y tabl isod.

weithgareddau yn 2016/17 a ariannwyd ar lefel ysgolion gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol. Ymddengys bod yr holl weithgareddau wedi'u hariannu mewn ysgolion unigol yn hytrach nag mewn clystyrau o ysgolion. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Cyflogi cynorthwyydd addysgu mewn ysgol gynradd i ddarparu cymorth emosiynol ac academaidd unigol, sesiynau coginio therapiwtig a chlybiau brecwast a chinio galw heibio a oedd yn canolbwyntio ar wella sgiliau cymdeithasol ac ymlyniad emosiynol;
- Prosiect darllen mewn parau mewn dwy ysgol gynradd;
- Defnyddio'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu fel cyfrwng archwilio a chefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol drwy therapy LEGO mewn ysgol uwchradd;
- Gweithredu rhaglen fentora ar gyfer chwech o fyfyrwyr er mwyn gwella uchelgais a dysgu rhagweithiol mewn ysgol uwchradd;
- Datblygu gwaith llais y disgybl trwy ddarparu hyfforddiant ymlyniad i staff ysgolion a threfnu cyfarfodydd "siocled poeth" lle gallai plant sy'n derbyn gofal drafod pryderon gydag athrawon;
- Gweithio i gynorthwyo disgyblion sy'n derbyn gofal mewn dwy ysgol gynradd gyda phontio i'r ysgol uwchradd;
- Cyflwyno cwrs ar Faethu a Gwella Llythrennedd Emosiynol i staff ysgolion uwchradd;
- Cynnal grwpiau "TALKABOUT" mewn ysgol gynradd i feithrin adeiladu perthnasoedd.

**Tabl 6.7 Gweithgareddau a ariannwyd yn CSC yn 2015/16, yn ôl ALI**


| Categori gwariant | Gweithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategol** | Monitro a gwerthuso | Cyflawniad i Bawb (ni ddarparwyd mwy o fanylion) (£77,000) | Dyfeisio a defnyddio taenlenni olrhain bob tymor ar gyfer ysgolion (£39,770) | | | |
| **Hyfforddiant** | Hyfforddiant | Hyfforddiant Thrive (£45,271) | | Hyfforddiant ymlyniad Theatr Geese a hyfforddiant addysg gofalwyr maeth (£13,017) | £8,772 | Sesiynau hyfforddi athrawon dynodedig bob tymor, hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth, "datgodio addysg" i gynyddu ymwybyddiaeth o strategaeth ysgolion a sut i ddehongli gwybodaeth o ysgolion |
| **Meithrin gallu yn y system** | Recriwtio staff | Dau o ymarferwyr Thrive – cynnal asesiadau a gweithio gyda gofalwyr maeth (£46,462) | Dau fentor dysgu – un ar gyfer cymorth pontio (torrwyd yn 2016/17), un ar gyfer CA4 yn bennaf i gadw plant yn yr ysgol; seicolegydd addysgol 0.6 CALI ar gyfer cymorth yn yr ysgol neu'r cartref (ddim yn 2016/17) (£117,271) | Aelod staff wedi'i recriwtio i gyflwyno hyfforddiant ac ysgrifennu a chyflwyno pecynnau hyfforddi (£27,549) | £35,033 | |
| | Rhwydweithio/rhannu arfer gorau | | Fforwm bob tymor i Athrawon dynodedig plant sy'n derbyn gofal (£894) | Adnodd Ysgolion sy'n Ystyriol o Blant sy'n Derbyn Gofal (mewnbwn gan Seicolegydd Addysgol i gynhyrchu'r adnodd a chostau argraffu/cyfieithu) (£12,324) | Adnodd ysgolion sy'n ystyriol o blant sy'n derbyn gofal (£7,014) | |

| Categori gwariant | Gweithgaredd | ALI 1 | ALI 2 | ALI 3 | ALI 4 | ALI 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi plant sy'n derbyn gofal** | Ymyriadau/rhaglenni ysgol gyfan a ledled yr ALI ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darpariaeth unigol/cymorth bwrsariaeth | | Hyfforddiant disgyblion ar gyfer CA4; cymorth cyflym a phwrpasol i ysgolion; gweithgareddau â ffocws sy'n ymwybodol o ymlyniad, clybiau Lego, gweithgareddau llythrennedd emosiynol. | Hyfforddiant disgyblion (£3,227) | Prosiect llythrennedd (£31,858); £58,838 o gyllid bwrsariaeth | |
| **Arall** | Arall | £10,187 (dim manylion) | | Adnoddau hyfforddi ac ymgysylltiad llais y disgybl (£5,009) | | |

*Gwariant ar lefel ysgolion*

6.25 Mae ymatebion i arolwg ar lefel ysgolion yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y mathau o weithgarwch a ariannwyd ar lefel ysgolion drwy ddyraniadau bwrsariaeth (Ffigwr 6.1). Dywedodd cyfanswm o 113 o ymatebwyr (72 y cant) eu bod wedi derbyn cyllid naill ai yn 2015/16 neu 2016/17, neu'r ddwy flwyddyn. Derbyniodd fwy o ymatebwyr gyllid yn yr ail flwyddyn (56 y cant).


**Ffigwr 6.1 Cyfran yr ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant yn ôl blwyddyn**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ymatebodd ynglŷn â chyllid grant (N = 181). Dim ymateb: 38 o ymatebion (hepgorwyd).*

6.26 Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant yn un o'r ddwy flwyddyn neu'r ddwy ei ddefnyddio i ddatblygu ymyrraeth benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (71 y cant) (Ffigwr 6.2). Dilynwyd hyn gan ddarpariaeth hyfforddiant ysgolion (39 y cant) a recriwtio staff cymorth (33 y cant): eto, nid oedd unrhyw newid rhwng y blynyddoedd. Gwelwyd y newidiadau mwyaf o ran lle cyfeiriwyd gwariant mewn cydweithio neu weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill (dewiswyd hyn gan ddeg o ymatebwyr ar gyfer 2015/16, o gymharu â 22 ar gyfer 2016/17) a datblygu system/proses newydd ar gyfer monitro a/neu werthusol (tri ymateb yn 2015/16 a deg yn 2016/17).

**Ffigwr 6.2 Defnydd cyffredinol o gyllid y PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal**





*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant (N = 113). Ticiwch bob un sy’n gymwys.*

6.27 Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt ddarparu adborth cyffredinol ar eu canfyddiadau o’r grant, teimlai’r rhai a gyfwelwyd ac ymatebwyr i’r arolwg fod yna amrywiadau mawr yn y mathau o weithgareddau a oedd yn cael eu hariannu gan y grant ar draws ALlau gwahanol ac ysgolion.

*Prosesau ariannu*

6.28 Dywedodd y rhai a gafodd eu cyfweld fod alldalu cyllid yn hwyr yn effeithio’n sylweddol ar eu gallu i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau ar ôl proses gwneud cais yn ystod y flwyddyn ariannol, er mai dim ond chwarter o’r ymatebwyr i’r arolwg ysgolion ddywedodd fod y broses/prosesau presennol ar gyfer cael cyllid yn anoddach ac yn llai effeithlon na chyn 2015 (Ffigwr 6.3). Yn fras, mae hyn yn gyfwerth â’r gyfran o ymatebwyr (21 y cant) a ddywedodd ei bod hi’n haws ac yn fwy effeithlon na chyn 2015. Yn nodedig, ni wnaeth 18 y cant sylwi ar unrhyw wahaniaeth, ac nid oedd 36 y cant o ymatebwyr yn gwybod.

**Ffigwr 6.3 Canfyddiadau o'r broses bresennol ar gyfer cael cyllid grant**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, N = 219 (178 o ymatebion, 41 heb ymateb sydd wedi'u hepgor).*

6.29 Pan gawsant y cyfle i roi sylwadau pellach ar ddiwedd yr arolwg i randdeiliaid ysgolion, roedd bron pob un o'r sylwadau'n ymwneud â materion yn gysylltiedig â phrosesau ariannu. Roedd y materion allweddol yn cynnwys:

- Llinellau amser ariannu – tynnodd ymatebwyr sylw at ddyraniadau cyllid hwyr, amser cyfyngedig ar gyfer llunio cais am gyllid a chyfnodau ariannu byr yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio unrhyw ymyriadau tymor hwy;
- Cymorth gyda cheisiadau a chyllid – soniodd ymatebwyr am ddiffyg cymorth/ gwybodaeth wrth wneud cais am gyllid neu wrth geisio nodi plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol neu ddefnyddio data CYBLD i nodi plant sy'n derbyn gofal. Soniodd un ymatebydd hefyd na dderbyniodd y lefel cyllid gywir, ac ni chafodd y lefel gywir o gymorth i ddatrys hyn;
- Problemau gyda'r system ariannu ehangach – soniodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddarparodd sylwadau ychwanegol am anawsterau a gawsant neu bryderon oedd ganddynt ynglŷn â'r system ariannu, ac yn ei dro, pa mor effeithiol y teimlent ydoedd ar gyfer gwella deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Galwodd y mwyafrif o'r rheiny a wnaeth sylwadau am ymagwedd fwy lleol at ariannu (e.e. cyllid uniongyrchol i ysgolion ar sail niferoedd o blant sy'n derbyn gofal neu drwy'r ALI). Teimlai ymatebwyr hefyd fod angen gwella gweithio mewn clwstwr e.e. sicrhau cytundeb clwstwr cyn gwneud ceisiadau, neu wneud proses ymgeisio clwstwr yn fwy effeithlon.

6.30 Darparodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar y modd y gellid gwella prosesau ariannu, yn cynnwys: pwysoli cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar sail lefel amddifadedd yr ALl, cynyddu mwy o ymwybyddiaeth neu wella cyfathrebu ynglŷn â'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i helpu ysgolion ddefnyddio'r arian yn effeithiol (a gwneud cais yn y lle cyntaf), ac ehangu'r cyllid yn fwy clir i ddisgyblion a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

**Penderfyniadau gwariant a seiliau rhesymegol**

6.31 Mae'r adran hon yn archwilio'r graddau y mae penderfyniadau gwariant a seiliau rhesymegol yn adlewyrchu tystiolaeth o angen a beth sy'n gweithio, a'r graddau yr oeddent yn gyson â pholisi ac arfer da CARh.

6.32 Gan gymharu gwariant â gweithgareddau a amlinellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n benodol i'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ymddengys bod mwyafrif y cyllid a ddyrannwyd a gafodd ei nodi yn gyson â gofynion y grant. Mae'n amlwg o dablau sy'n amlinellu gwariant fesul gweithgaredd a adroddwyd uchod, bod y grant wedi'i ddefnyddio i recriwtio arweinydd CARh ac i gyflwyno ymyriadau targedig a hyblyg sy'n cefnogi cyrhaeddiad addysgol ac anghenion cyfannol ehangach plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. Hefyd, defnyddiwyd ychydig o'r cyllid i wella systemau rhwydweithio a systemau arfer gorau, yn unol â'r canllawiau. Fodd bynnag, defnyddiwyd rhywfaint o gyllid, er enghraifft i recriwtio cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion a gweithwyr cymorth yr ALl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, nad oedd wedi'i argymell yn yr arweiniad ehangach ar y PDG.

6.33 Yn yr un modd, ar lefel CARh, ymddengys bod gwariant ar lefel ALl ac ysgolion yn gyson â chanllawiau a blaenoriaethau cyffredinol ar lefel CARh. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bosibl asesu cysondeb cyllid bwrsariaeth ysgolion â cheisiadau clwstwr gyda blaenoriaethau ar lefel CARh o ystyried y diffyg gwybodaeth glir sydd ar gael ar wariant a monitro.

*Penderfyniadau ariannu ar lefel CARh ac ALl*

6.34 Ar lefel CARh ac ALl, mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfweliadau bod staff CARh ac ALl wedi defnyddio tystiolaeth o angen i lywio dyraniadau cyllid. Er bod cynnwys a fformat ceisiadau yn aneglur, lle mae CARh ac ALlau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno ceisiadau am gyllid, mae'n ymddangos bod bron pob un ohonynt yn mynnu bod ysgolion yn darparu rhywfaint o wybodaeth am anghenion dynodedig.

Er enghraifft, mae un ALl yn GwE yn mynnu bod ysgolion yn cyflwyno dogfen un dudalen yn nodi manylion y ddarpariaeth cymorth presennol, caiff ceisiadau eu hasesu wedyn gan staff ar lefel CARh a/neu All; fodd bynnag, mae'n aneglur eto sut, a pha mor drwyadl, y caiff y wybodaeth hon ei hasesu. Yn ERW, lle cafodd yr holl gyllid ei gadw ar lefel ALl, adroddodd cydgysylltwyr LACE a staff cymorth a ariannwyd am ryngweithio rheolaidd gyda phobl ifanc a staff ysgolion er mwyn nodi a deall anghenion unigol. Hefyd, soniodd un ALl yn ERW fod Swyddogion Adolygu Annibynnol neu Weithwyr Cymdeithasol yn aml yn nodi anghenion penodol pobl ifanc ac yn cyfeirio at dîm LACE i gael cymorth.

6.35 Mae astudiaeth achos y cydlynydd addysg yn ERW yn rhoi enghraifft dda o fodel a lwyddodd i nodi a chefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal. Teimlai'r holl randdeiliaid, gan gynnwys staff ysgolion a gofalwyr maeth mai cael tîm ALl cryf ar waith sydd â'r gallu i gynorthwyo nid yn unig myfyrwyr, ond staff hefyd, wrth fynd i'r afael ag anghenion plant, oedd y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid grant. Bu'r tîm mewn cyswllt mynych ac uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal, felly roeddent yn ymwybodol o'u hanghenion unigol, ond roedd ganddynt arbenigedd damcaniaethol cadarn a gwybodaeth am y sylfaen dystiolaeth i weithredu ac argymell ymyriadau yn llwyddiannus. Teimlai staff ysgolion fod y model hwn wedi darparu gwerth ychwanegol y tu hwnt i hynny y gallent ei ddarparu eu hunain, gan ddisgrifio'r tîm fel "pâr newydd o lygaid" a oedd yn gallu awgrymu ffyrdd newydd ac effeithiol o weithio gyda'u pobl ifanc na fyddai'r amser ganddyn nhw eu hunain i ymchwilio iddynt.

6.36 Er i'r rhai a gyfwelwyd gydnabod rôl CARh wrth hwyluso ymagwedd fwy strategol at ariannu, teimlai'r rhai a gyfwelwyd ar lefel ALl ac ymatebwyr i'r arolwg ar lefel ysgolion fod CARh yn rhy bell i ffwrdd oddi wrth blant sy'n derbyn gofal i ddeall eu hanghenion yn iawn a thargedu ymyriadau'n briodol. Teimlai cydgysyllgwyr LACE mai ar lefel ALl yr aed i'r afael ag angen orau, mewn cydweithrediad ag ysgolion, gan eu bod nhw'n gallu darparu cymorth targedig a chymorth strategol. Daeth y gwerthusiad diweddaraf o'r PDG[80] i'r casgliad fod angen i CARh gael dealltwriaeth well o'r anghenion gwahanol yn eu rhanbarth.

6.37 Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod penderfyniadau cyllid ar lefel CARh ac ALl wedi'u seilio'n rhannol ar dystiolaeth gyhoeddedig o beth sy'n gweithio, ac yn rhannol ar ganfyddiad o arfer gorau. Er enghraifft, adroddodd yr arweinydd CARh yn y GCA ei

[80] Pye, J., Taylor, C. a Huxley, K. (2017*).* op. cit.

fod wedi adolygu'r hyn oedd yn gweithio'n dda yn 2015/16 ac wedi asesu cysondeb ar draws ALlau i lywio penderfyniadau ariannu yn 2016/17; adroddodd arweinydd CARh GwE ei fod wedi ymchwilio i'r math mwyaf effeithiol o hyfforddiant i'w gynnig ar lefel ranbarthol o wybodaeth amdanynt ar-lein; ac adroddodd yr arweinydd CARh yn CSC ei fod wedi adeiladu ar y gwaith a nodwyd mewn astudiaethau achos o arfer da yn adroddiadau ESTYN drwy ddod â chydgysylltwyr LACE ac ysgolion at ei gilydd i rannu arfer da cyn cynllunio'r rownd ariannu nesaf.

6.38 Ar lefel ALl, defnyddiodd un cydgysylltydd LACE astudiaethau achos o arfer da i benderfynu beth i'w ariannu; penderfynodd rhai eraill i roi ymyriadau ar waith ar sail arfer da a dderbyniont o brofiad mewn rhanbarthau neu ALlau eraill (er enghraifft, grwpiau anogaeth yn GwE) neu ar ôl cynnal eu hymchwil gyfyngedig eu hunain i effeithiau gwahanol fathau o hyfforddiant ac ymyriadau (er enghraifft, hyfforddiant chwarae yn seiliedig ar berthnasoedd yn ERW). Roedd adroddiadau gwerthuso gweithgareddau gan rai ALlau, ond nid yw'n glir os cafodd y rhain, a sut cafodd y rhain, eu defnyddio gan unrhyw gydgysylltwyr LACE i lywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol.

6.39 Tynnodd grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol sylw at yr angen i CARh ac ALl ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarnach ar gyfer dewis ymyriadau i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dewis oherwydd beth sy'n gweithio:

> "Rwy'n credu bod angen i ni edrych ar y sylfaen dystiolaeth o ran beth sy'n eu cynorthwyo orau…. Nid oes gennym dystiolaeth o ansawdd da yn yr ardaloedd hyn" (Cynrychiolydd sefydliad rhanddeiliaid).

*Penderfyniadau ariannu ar lefel ysgolion*


6.40 Fe wnaeth CSC werthuso ceisiadau clwstwr 2016/17 yn erbyn gofynion am asesiadau ac astudiaethau cwmpasu cadarn o anghenion ar sail ymchwil o beth sy'n gweithio (gan ddefnyddio tystiolaeth o'r cynradd ac uwchradd) i gefnogi dewis gweithgareddau a phrosiectau. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a oedd asesiadau mor gynhwysfawr o anghenion ac asesiadau o beth sy'n gweithio yn gyffredin ar draws yr holl ymyriadau a ariannwyd mewn ysgolion.

6.41 Mae canfyddiadau o'r arolwg yn awgrymu mai tystiolaeth gyfyngedig sydd i awgrymu bod ceisiadau gwariant a dyraniadau ysgolion wedi'u gwneud ar sail asesiad clir o angen a thystiolaeth o beth sy'n gweithio (Ffigwr 6.4). Fe wnaeth dros hanner yr

ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant benderfyniadau ariannu ar lefel ysgolion ar sail anghenion unigol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol (69 y cant am gyllid yn 2015/16 a 61 y cant am gyllid yn 2016/17). Dywedodd llai o ymatebwyr eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail asesiad o anghenion ar lefel ysgolion (dynododd 55 y cant fod hyn yn wir yn 2015/16, a dywedodd hanner yr ymatebwyr yr un peth yn 2016/17). Dim ond un rhan bump adroddodd eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth (21 y cant yn 2015/16 ac 16 y cant yn 2016/17).

6.42 Adroddwyd am ganfyddiadau tebyg yn adroddiad gwerthuso terfynol y PDG a ddaeth i'r casgliad mai'r ysgolion lle ceir y bwlch cyrhaeddiad mwyaf oedd y rhai a oedd, yn gyffredinol, yn lleiaf parod i dderbyn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a defnyddio tystiolaeth o "beth sy'n gweithio" wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad; yn lle hynny, roeddent yn tueddu dibynnu ar brofiad blaenorol neu reddf. Roedd rhesymau dros hyn yn cynnwys ysgolion heb fod yn ymwybodol o'r dystiolaeth, yn cael eu llethu gan faint o dystiolaeth oedd ar gael, yn amheugar ynglŷn â thystiolaeth nad oedd yn cydweddu â'u profiadau personol, neu'n teimlo mai 'gimigau' oedd pecynnau cymorth a argymhellwyd a oedd yn ceisio osgoi'r angen am addysgu a dysgu gwell.

**Ffigwr 6.4 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau gwario ar lefel ysgolion**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant yn 2015/16 (N = 87) ac yn 2016/17 (N = 102).*

*Asesiad o weithgareddau a ariannwyd yn erbyn arfer gorau*

6.43 Er gwaethaf unrhyw dystiolaeth glir o weithgareddau'n cael eu hariannu'n systematig ar sail tystiolaeth o beth sy'n gweithio ac arfer gorau, mae'r adran hon yn ystyried y graddau y mae gweithgareddau wedi'u hariannu yn gyson â'r ymyriadau effeithiol a

nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth ym mhennod 3, a chanfyddiadau o grwpiau ffocws gyda phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

6.44 Canfu'r ymgynghoriadau â phobl ifanc a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn fod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi nodi rhai athrawon, rhieni maeth a ffrindiau fel unigolion allweddol sy'n eu helpu gyda'u haddysg. Mae'r canfyddiad hwn fwy neu lai'n gyson â'r llenyddiaeth academaidd. Teimlent hefyd y byddai darparu technoleg, er enghraifft gliniadur, cyfrifiadur desg neu ffôn symudol yn eu helpu fwyaf gyda'u haddysg, ac yn eu helpu i deimlo'n fwy cydnaws â phlant â rhieni biolegol. Mae hyn yn cyferbynnu â chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a ganfuodd dystiolaeth gyfyngedig o effaith adnoddau deunydd oni bai bod pobl ifanc yn derbyn cymorth cysylltiedig digonol i'w defnyddio'n adeiladol.

6.45 Pan ofynnwyd iddynt sut dylai'r grant gael ei wario, dywedont y byddent yn dymuno cael man diogel yn yr ysgol neu ystafell ymlacio i'w galluogi i orffwys os nad oeddent wedi cysgu, ac i gefnogi'u hanghenion emosiynol a lles ehangach; man diogel/preifat i gael gweld staff cymorth; hyfforddiant staff i sicrhau bod sgiliau digonol ganddynt i ddelio â bwlio a deall a mynd i'r afael ag anghenion plant sy'n derbyn gofal; recriwtio staff ychwanegol, er enghraifft gweithwyr cymorth, cynorthwywyr addysgu, nyrsys neu gwnselwyr; darparu clybiau ar ôl ysgol neu glybiau cinio yn cynnwys gweithgareddau amrywiol y penderfynir arnynt gan y bobl ifanc (tynnwyd sylw ganddynt at brofiadau rhyngweithio ag anifeiliaid, teithiau dramor, gweithgareddau a theithiau chwaraeon a'r cyfle i wneud gwaith elusen); a mynediad gwell at adnoddau, yn enwedig TG.

6.46 Mae Tabl 6.8 yn asesu'r graddau yr ariannwyd gweithgareddau yn unol ag arfer gorau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer recriwtio staff cymorth, a darpariaeth hyfforddiant a hyfforddiant ymlyniad y ceir y dystiolaeth gliriaf o gysondeb. Fodd bynnag, er bod y sylw i staff cymorth yn glir yn gyffredinol, nid oes digon o dystiolaeth i nodi cyrhaeddiad a chwmpas darpariaeth hyfforddiant a hyfforddiant ymlyniad (ar lefel CARh ac ALl) i asesu'r graddau y cyflwynwyd gweithgareddau arfer gorau. Roedd llawer llai o dystiolaeth o systemau monitro a gwerthuso, hyfforddiant cyffredinol i ofalwyr maeth, darparu mannau/ystafelloedd diogel i bobl ifanc, darparu adnoddau deunydd a chyflwyno clybiau ysgol wedi'u cynllunio a'u dewis gan blant sy'n derbyn gofal.

## Tabl 6.8 Tystiolaeth o gysoni gweithgareddau gydag arfer gorau

| Ymyrraeth arfer gorau | CSC | GCA | ERW | GwE |
|---|---|---|---|---|
| **Sefydlu systemau ac offer monitro cadarn a gweithdrefnau gwerthuso clir y mae staff awdurdodau lleol ac ysgolion wedi'u hyfforddi i'w defnyddio.** | Tystiolaeth o un ALl yn ariannu gwelliannau monitro a gwerthuso | Rhywfaint o dystiolaeth o symud at ddull monitro mwy systemaidd (system FADE) | Tystiolaeth gyfyngedig o waith o fath arall i wella monitro a gwerthuso | Dim tystiolaeth glir er y nodwyd hyn fel blaenoriaeth |
| **Darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal, a sut i'w bodloni** | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur |
| **Darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth i'w helpu i gynorthwyo anghenion addysgol plant yn well yn y cartref** | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig |
| **Darparu cymorth meithrin gallu ehangach i athrawon dynodedig, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth** | Rhywfaint o dystiolaeth (recriwtio staff a rhannu arfer gorau) | Rhywfaint o dystiolaeth (recriwtio staff a rhannu arfer gorau) | Tystiolaeth glir (trwy waith staff cymorth) | Rhywfaint o dystiolaeth (rhwydweithio a rhannu arfer gorau) |
| **Datblygu mannau diogel i bobl ifanc i gefnogi'u hanghenion lles** | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig |
| **Darparu hyfforddiant unigol i blant sy'n derbyn gofal mewn sgiliau allweddol fel darllen a mathemateg sylfaenol** | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur | Tystiolaeth glir; graddfa'n aneglur |
| **Darparu adnoddau perthnasol gyda chymorth cysylltiedig priodol i sicrhau bod pobl ifanc yn eu defnyddio'n adeiladol** | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig | Tystiolaeth gyfyngedig |
| **Darparu staff cymorth ychwanegol** | Tystiolaeth glir | Tystiolaeth glir | Tystiolaeth glir | Rhywfaint o dystiolaeth ar lefel ysgolion/ clwstwr |
| **Darparu clybiau cinio a chlybiau ar ôl ysgol wedi'u cynllunio gan bobl ifanc** | Dim tystiolaeth | Dim tystiolaeth | Dim tystiolaeth | Dim tystiolaeth |

*Ffynhonnell: mae canfyddiadau yn y tabl hwn yn crynhoi canfyddiadau o'r holl ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad.*

### Dyraniadau wedi'u cynllunio a chysondeb â gwariant gwirioneddol

6.47 Mae'r adran hon yn archwilio'r graddau yr oedd dyraniadau wedi'u cynllunio wedi'u seilio ar gostiadau'n gysylltiedig â mewnbynnau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig, ac yr oedd cyllidebau, allbynnau a deilliannau wedi'u pennu ar eu cyfer, a ph'un a ddefnyddiwyd grantiau yn gyson â'r disgwyliadau hyn ac arfer gorau.

6.48 Roedd yn ofynnol i'r holl CARh ddarparu cynlluniau cymorth ar gyfer y ddwy flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, arweiniodd fformat templed y cynllun cymorth at ymatebion ansoddol yn bennaf, heb fawr o gysondeb, neu ddim cysondeb o gwbl, o ran arddull ymatebion ar draws CARh, er bod ansawdd y cynllun wedi gwella yn 2016/17 yn unol â meini prawf adrodd manylach gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, derbyniodd ICF gynlluniau gwario a chynlluniau rhanbarthol gan y GCA a CSC a roddodd ddadansoddiadau cliriach o wariant fesul gweithgaredd. Mae Tabl 6.9 isod yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r wybodaeth a ddarparwyd gan CARh.

**Tabl 6.9 Eglurder gwybodaeth ar lefel CARh yn erbyn meini prawf gwerthuso**

| | **CSC** | **GCA** | **ERW** | **GwE** |
|---|---|---|---|---|
| **Costiadau clir a chyllideb** | Dadansoddiad clir o gostiadau fesul gweithgaredd a gwariant gwirioneddol yn erbyn y cynllun ar gyfer 15/16 (lefel CARh ac ALI); dadansoddiad lefel uchel o wariant ar gyfer 16/17 | Dadansoddiad cymharol glir o gostiadau yn ôl blaenoriaeth a gweithgaredd ar draws y ddwy flwyddyn (lefel CARh ac ALI 15/16; lefel CARh yn unig 16/17) | 2015/16: Dim dadansoddiad clir o weithgareddau; dim costau cysylltiedig; 2016/17: dadansoddiad o weithgareddau lefel uchel ond dim gwybodaeth am gostau. | Dim dadansoddiad clir o weithgareddau a dim costau cysylltiedig yn yr un o'r ddwy flwyddyn. Dwy ddogfen wedi'u hymgorffori yn amlinellu gweithgareddau yn 16/17 ond ni chafodd ei darparu i ICF. |
| **Mesurau/targedau clir ar gyfer allbynnau a deilliannau** | Rhyw syniad o'r effaith a ddymunir a chynlluniau gwerthuso, ond diffyg manylion yn gyffredinol; amlinellwyd targedau cyrhaeddiad ar gyfer 16/17. | Rhyw syniad o'r effaith a ddymunir a chynlluniau monitro fesul gweithgaredd, ond diffyg manylion yn gyffredinol; amlinellwyd targedau cyrhaeddiad a phresenoldeb (lefel ALI a CARh yn 15/16; lefel CARh yn 16/17) | Ni chafodd targedau deilliannau eu pennu yn yr un o'r ddwy flynedd. | Dim targedau yn 2015/16; cynllun 2016/17 yn sôn am gynlluniau i ddatblygu mesurau deilliannau a thargedau'n gysylltiedig â phresenoldeb a gwaharddiadau. |

6.49 Ymddengys bod cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys dadansoddiadau cliriach o weithgareddau; fodd bynnag, ceir diffyg dadansoddiadau gwariant o hyd i raddau helaeth (GCA, ERW, GwE). Mae targedau deilliannau cyffredinol yn gliriach hefyd, er bod y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar fesurau/targedau cyrhaeddiad meintiol yn hytrach na deilliannau ehangach. Yn ychwanegol at gynlluniau gwario, mae'n ofynnol i CARh gynhyrchu 'Adroddiadau Uchafbwyntiau' ddwywaith y flwyddyn sy'n darparu gwybodaeth am gynnydd gwirioneddol yn erbyn cynlluniau. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau yn cynnwys disgrifiadau ansoddol o gynnydd a phroblemau gweithredu yn bennaf, ac nid ydynt yn rhoi diweddariadau ar wariant neu fonitro. Roedd ansawdd diweddariadau yn gyfyngedig hefyd yn sgil y diffyg manylder a ddarparwyd mewn rhai o'r cynlluniau gwreiddiol.

6.50 Ar lefel ALl, darparwyd y wybodaeth ganlynol am wariant (0). Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw ddull safonedig o adrodd am wariant wedi'i gynllunio ar draws ALlau. ALlau yn CSC ac ERW wnaeth ddarparu'r dadansoddiadau cliriaf o wariant wedi'i gynllunio fesul gweithgaredd mewn cynlluniau gwario cymharol safonedig, ond ni ddarparwyd y rhain/nid oedd y rhain ar gael ar gyfer pob ALl. Ymddengys bod GwE wedi cyflwyno taenlen safonol ar gyfer adrodd ar wariant wedi'i gynllunio a gwariant gwirioneddol yn erbyn tri phrif fath o weithgaredd yn 2016/17; fodd bynnag, nid ymddengys bod pob ALl wedi defnyddio'r templed hwn. Mewn rhai achosion, roedd taenlenni'n darparu cyfanswm gwariant wedi'i gynllunio ond dim dadansoddiad yn ôl gweithgareddau.

6.51 Roedd y rhan fwyaf o ddata ar wariant yn aneglur hefyd (0). Adroddwyd amdano'n aml fel cofnodion data unigol heb unrhyw ddull safonedig o grynhoi gwariant yn ôl math o weithgaredd. Hefyd, ychydig o ALlau wnaeth ddarparu unrhyw gymhariaeth o wariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol. O'r rheiny a wnaeth, nid oeddent, gydag ychydig o eithriadau, yn gallu darparu ffigurau wedi'u cynllunio a ffigurau gwirioneddol wedi'u dadansoddi yn ôl gweithgaredd neu gategorïau gweithgareddau safonedig.

**Tabl 6.10 Gwybodaeth am wariant a ddarparwyd gan ALlau**

| CARh | Gwybodaeth am wariant 2015/16 | Gwybodaeth am wariant 2016/17 |
|---|---|---|
| **ERW** | Gwariant wedi'i gynllunio (3 ALl); gwariant gwirioneddol (1 ALl); gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (2 ALl) | Gwariant wedi'i gynllunio (3 ALl); gwariant gwirioneddol (1 ALl); gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (2 ALl) |
| **CSC** | Gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (3 ALl) | Gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (2 ALl) |
| **GwE** | Gwariant gwirioneddol (3 ALl ond dim dadansoddiadau yn ôl gweithgaredd, dim ond dadansoddiad ar gyfer hyfforddiant a ddarparwyd gan un ALl)<br>Gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (1 ALl) | Gwariant gwirioneddol (3 ALl ond dim dadansoddiadau yn ôl gweithgaredd, dim ond dadansoddiad ar gyfer hyfforddiant a ddarparwyd gan un ALl)<br>Gwariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol (2 ALl) |
| **GCA** | Gwariant gwirioneddol (3 ALl) | Gwariant gwirioneddol (2 ALl) |

6.52 O ystyried y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael o gynlluniau, ar lefel CARh bu ond yn bosib asesu gwariant cyffredinol wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol yn CSC yn 2015/16. Yn 2015/16, roedd gwariant gwirioneddol yn gyson yn gyffredinol â chynlluniau, er y nodwyd tanwariant a gorwariant bach ar gyfer rhai gweithgareddau.

6.53 Ar lefel ALl, darparodd 12 dogfen wybodaeth gymharol am wariant wedi'i gynllunio yn erbyn gwariant gwirioneddol. Ni adroddwyd am orwariant na thanwariant gan y rhan fwyaf o ALl (7 adroddiad). Adroddodd dau ALl (GwE ac ERW) am orwariannau cymharol fach, sef £1,050 a £46.30 yn y drefn honno. Adroddodd tri ALl am amrywiadau mawr oddi wrth wariant wedi'i gynllunio: adroddodd un ALl yn CSC am danwariant o £86k ar weithgareddau wedi'u cynllunio yn 2015/16 a wariwyd fel rhan o gynllun wrth gefn yn cynnwys 'rhith brosiect', gweithgareddau meithrin gallu a hyfforddiant Cyflawniad i Bawb; adroddodd un ALl yn GwE am danwariant o £20,558 ar ddyraniad grant o £62,447 yn 2015/16 (ni ddarparwyd unrhyw eglurhad); ac adroddodd un ALl yn ERW am orwariant o £24,621 ar ddyraniad o £232,554 yn 2016/17.

### Prif bwyntiau cryno

6.54 Dirprwyaethau cyllid:

- Roedd y lefelau (CARh, ALl, ysgol) yr oedd CARh yn dirprwyo cyllid grant iddynt ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau yn amrywio ar draws CARh a rhwng blynyddoedd. Cadwodd pob un o'r CARh rywfaint o gyllid ar gyfer ALlau (yn 2015/16), a chadwodd dau rywfaint o gyllid ar gyfer ALlau yn 2016/17 (nid y GCA

na Chonsortiwm Canolbarth y De (CSC)). Darparodd yr holl CARh gyllid i ysgolion (neu glystyrau); rhai yn uniongyrchol (GwE yn y ddwy flwyddyn, CSC a GCA yn 2016/17), a rhai trwy gyllid ALl (CSC a GCA 2015/16, GwE ac ERW), er bod cyfrannau cyllid yn amrywio yn ôl y CARh.

- Nodwyd amrywiadau yn y dull o benderfynu ar ddyraniadau cyllid: yn lle defnyddio data Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol i bennu cyfansymiau dyrannu ar gyfer ALlau neu glystyrau ysgolion, fe wnaeth tri CARh ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).
- Defnyddiodd pob un o'r CARh ddull fformiwla (yn hytrach na cheisiadau) o ddyrannu cyllid i ALlau; defnyddiwyd y dull ceisiadau yn fwyaf cyffredin ar gyfer dyraniadau ysgol ar lefel CARh neu ALl.
- Roedd rhwng 2 a 12 y cant o'r cyfanswm cyllid rhanbarthol yn cael ei gadw ar lefel CARh; yn gyffredinol, cadwodd CARh ganran uwch o gyllid ar lefel ranbarthol yn 2016/17 o gymharu â 2015/16. Roedd pob un o'r CARh yn cadw rhywfaint o arian i gyllido arweinyddiaeth a rheolaeth CARh a hyfforddiant lefel rhanbarthol ar faterion ymlyniad a newid ymddygiad. Hefyd, defnyddiwyd cyfran fach iawn o gyllid ar gyfer gweithgareddau rhwydweithio a rhannu arfer gorau yn CSC, ERW a GwE ac ar gyfer cynorthwyo gwell monitro a gwerthuso.
- Ar lefel ALl, ychydig o gyllid a ddefnyddiwyd i wella systemau a phrosesau monitro a gwerthuso; adroddodd bron pob un o'r ALl eu bod wedi defnyddio cyllid i ddarparu hyfforddiant ar lefel ALl; fe wnaeth dros hanner ariannu staff cymorth ar lefel ALl; adroddodd ychydig o dan hanner yr ALlau ar draws yr holl CARh eu bod wedi defnyddio cyllid ar gyfer gweithgareddau rhannu arfer gorau; ac adroddodd bron pob un ohonynt eu bod wedi darparu cymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal. ERW oedd yr unig CARh i ariannu staff cymorth ychwanegol yn gyson ar lefel ALl ym mhob un o'r ALlau.
- Roedd llai o wybodaeth ar gael am y gweithgareddau a ariannwyd trwy geisiadau clwstwr neu ysgolion, ond ceir tystiolaeth o ariannu ar gyfer hyfforddiant ysgolion/clwstwr, recriwtio staff, cymorth unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal/ymyriadau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a strategaethau ysgol gyfan sy'n cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn anghyfartal. Ymddengys mai bach iawn o gyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau monitro a gwerthuso, a rhwydweithio a rhannu arfer gorau.

6.55 Prosesau ariannu:

- Roedd alldalu cyllid yn hwyr yn effeithio ar allu staff CARh, ALl ac ysgolion i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau. Tynnodd ymatebwyr i'r arolwg ysgolion sylw hefyd at gymorth cyfyngedig gyda cheisiadau cynigion, a mwy o faich gweinyddol yn sgil prosesau ceisiadau clwstwr.
- Ymddengys bod y mwyafrif o'r dyraniadau yn gyson â gofynion grant. Ar lefel CARh, mae gwariant ALl ac ysgolion yn gyson i raddau helaeth ag arweiniad a blaenoriaethau cyffredinol lefel CARh. Mae'n anoddach asesu cysondeb cyllid bwrsariaeth ysgolion a cheisiadau clwstwr gyda blaenoriaethau lefel CARh o ystyried y diffyg gwybodaeth glir am wariant a monitro sydd ar gael.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod staff CARh ac ALl wedi defnyddio tystiolaeth o angen i lywio dyraniadau cyllid, ac ar gyfer ceisiadau clwstwr, bod CARh neu ALlau, yn gyffredinol, yn mynnu bod ysgolion yn cyflwyno ceisiadau am gyllid a oedd yn darparu rhywfaint o wybodaeth am anghenion dynodedig. Ariannwyd hyfforddiant, hyfforddiant ymlyniad a staff cymorth gan y grant, sy'n gyson gydag arfer gorau. Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael o gyllid ar gyfer gweithgareddau arfer gorau eraill.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth fod penderfyniadau ar gyllid ar lefel CARh ac ALl wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, a'u bod wedi'u hariannu yn gyson ag arfer gorau, ond ni nodwyd unrhyw ddull systematig o nodi beth sy'n gweithio, a bwydo hynny i brosesu gwneud penderfyniadau.
- Ar lefel ysgolion, fe wnaeth dros hanner yr ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant ddweud eu bod wedi gwneud penderfyniadau cyllid lefel ysgol ar sail anghenion unigol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol, ond dywedodd llai o ymatebwyr eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail asesiad o anghenion ar lefel ysgol (ychydig dros hanner) a dim ond un rhan o bump wnaeth adrodd eu bod wedi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Nid oedd dyraniadau yn cynnwys costiadau a chyllidebau yn aml. Er yr adroddwyd am gyfanswm y dyraniadau gan CARh ac ALl, nid yw pob un ohonynt yn darparu dadansoddiadau clir o wariant wedi'i gynllunio yn ôl math o weithgaredd.

- Yn gyffredinol, adroddiadau ansoddol yn bennaf oedd mewn cynlluniau cymorth CARh heb unrhyw ddull safonedig o adrodd am wariant wedi’i gynllunio ar draws ALlau, ac adroddiadau cyfyngedig/aneglur am wariant gwirioneddol ar lefel CARh ac ALl a oedd yn gwneud cymariaethau rhwng dyraniadau wedi’u cynllunio a dyraniadau gwirioneddol yn anodd.
- Lle’r oedd modd cymharu gwariant wedi’i gynllunio a gwariant gwirioneddol, roedd tanwariant neu orwariant mawr gan rai ALlau yn un neu’r ddwy o’r blynyddoedd ariannu.
- Roedd cynnwys ac ansawdd cynlluniau lefel CARh yn gymysg. Tra bod rhai yn adrodd am ganlyniadau, deiliannau a thargedau disgwyliedig, weithiau wedi’u dadansoddi yn ôl gweithgaredd, yn gyffredinol roedd ansawdd ac eglurder pennu targedau a phenodoldeb/mesuradwyedd deilliannau dethol yn wael.

## 7. Monitro a gwerthuso

7.1 Mae'r adran hon yn asesu:

- A oes systemau ar waith i gyfrif am wariant a monitro'r defnyddiau a wneir o'r grant, a buddiolwyr y grant;
- A oes mesurau ar waith i asesu gwerth am arian, deilliannau a chynaliadwyedd yn rheolaidd; ac
- A yw plant sy'n derbyn gofal ac ymarferwyr yn gweld bod y grant yn gwneud gwahaniaeth.

**Monitro gwariant y grant a'r defnydd a wneir ohono**

7.2 Mae gan yr holl CARh systemau ar waith i gyfrif am ddyraniadau gwariant i ryw raddau; fodd bynnag, mae systemau'n amrywio o ran eu ffurf a'u hansawdd. Disgrifir hyn yn fanylach yn yr adran ar fonitro gwariant wedi'i gynllunio yn y bennod flaenorol. Nid oes gan CARh ac ALlau fformatau a matricsau adrodd cyffredin o gyfrannau dyraniadau a wariwyd a nifer a chyfran allbynnau wedi'u cynllunio, fel staff hyfforddedig, plant sy'n derbyn gofal sy'n elwa, staff/oriau'r staff ychwanegol a gyflogir. Nid oedd unrhyw CARh nac ALl yn gallu rhoi crynodeb clir o'r holl wariant cynlluniedig a gwirioneddol ar lefel CARh, ALl ac ysgol gyda manylion clir am ddiben, a buddiolwyr, pob dyraniad grant.

**Monitro a gwerthuso gwerth am arian, deilliannau a chynaliadwyedd**

*Systemau ac arfer*

7.3 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn gofyn bod rhaid i bob CARh ddangos ar ddiwedd pob blwyddyn bod y bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion wedi lleihau trwy ddefnyddio'r PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Disgwylir iddynt lunio adroddiadau gwerthusol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn dadansoddi sut mae gwariant wedi effeithio ar ddeilliannau addysgol. Hefyd, mae'r arweiniad yn amlygu mai rôl arweinwyr CARh yw bod yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi data ar ddeilliannau a pharatoi adroddiadau interim ac adroddiadau cynnydd terfynol, tra bod gofyn i gydgysylltwyr LACE fonitro, coladu a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad ar sail unigol ac ar y cyd.

7.4 Ychydig o dystiolaeth a geir bod hyn yn cael ei wneud gan nad yw CARh yn darparu'r adroddiadau hyn, er bod Tabl 7.1 yn dangos bod gan sawl CARh systemau ar waith i fonitro deilliannau addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan CARh ac ALlau ffyrdd amrywiol o fonitro a gwerthuso eu gwariant o'r grantiau ond nid yw'r rhain, ar y cyfan, yn asesu gwerth am arian, cynaliadwyedd y deilliannau na'u cyfraniad tuag at ddeilliannau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal (presenoldeb, cyrhaeddiad, dilyniant). Mae Tabl 7.1 yn dangos bod dulliau ar gyfer monitro a'r data a gesglir yn amrywio'n fawr yn ôl CARh ac ALl. Mae sawl un ohonynt wedi disgrifio systemau ar gyfer casglu gwybodaeth (fel adroddiadau effaith yn CSC a GCA), gweithgareddau monitro (adroddiadau chwarterol, ymweliadau ag ysgolion) a chasglu a choladu data monitro ar gynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Tabl 7.1 Crynodeb o systemau monitro a gwerthuso yn ôl CARh**

| | CSC | GCA | GwE | ERW |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am fonitro** | Arweinydd CARh<br><br>2015/16: Cydgysylltwyr ac ysgolion LACE 2016/17: Ymgynghorwyr Her ac ysgolion | Arweinydd CARh trwy Grŵp Llywio CARh<br><br>2015/16: Cydgysylltwyr LACE ac ysgolion<br><br>2016/17: Arweinwyr clwstwr, cydgysylltwyr LACE ac ysgolion | Rheolwr Perfformiad (lefel CARh), cydgysylltwyr ysgolion/ysgolion arweiniol LACE ac mewn clystyrau | Cydlynydd hyfforddiant/arweinydd CARh, timau LACE ac ysgolion |
| **Proses monitro a gwerthuso 2015/16** | Archwiliad ariannol ar gyfer ysgolion: mae'n ofynnol i'r holl ysgolion gyflwyno cynlluniau gwariant ac adroddiadau effaith.<br><br>Taenlen penaethiaid rhithwir wedi'i phoblogi gan ddata consortia (ar waith cyn PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) – system goleuadau traffig ar gyfer olrhain deilliannau myfyrwyr unigol.<br><br>Mae'n ofynnol i ysgolion osod targedau unigol ac olrhain data bob tymor. Caiff targedau eu hadolygu gan ALlau. Gwelir tystiolaeth o olrhain cynnydd disgyblion ar gyfer ymyriadau penodol trwy broffiliau disgyblion ac ysgolion. | Taenlen olrhain disgyblion rhanbarthol, gan gynnwys deilliannau meintiol ac ansoddol; targedau a osodwyd a data a gasglwyd gan ysgolion ac a goladwyd yn lleol gan gydgysylltwyr LACE.<br><br>Monitro ariannol misol yn unol â phum targed rhanbarthol (y pump R)<br><br>Gwerthusiadau effaith a ddarparwyd gan ysgolion ac y mae timau LACE yn sicrhau eu hansawdd bob tymor. | Mae'n ofynnol i bob ALl adrodd yn ôl i CARh ar gynlluniau gwariant, ond mae amrywiad mawr mewn dulliau. Datblygwyd fformat ar gyfer y sesiynau hyn gan un ALl ac fe'i rhannwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â chydgysylltwyr LACE eraill.<br><br>Mae'r Rheolwr Perfformiad yn cydgysylltu adroddiadau monitro chwarterol trwy system Excel. Hefyd, mae CARh yn gwerthuso'r holl gyrsiau a gweithdai gydag athrawon ar lefel ranbarthol (nid yw adroddiadau ar gael i ICF). | Mae'n ofynnol i ALlau gynnal archwiliad chwarterol o wariant ond nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynglŷn â pham y gwariwyd arian yn y fath fodd.<br><br>Defnyddir CAP i olrhain disgyblion unigol a monitro cyrhaeddiad, fodd bynnag, gall cydgysylltwyr LACE ond olrhain disgyblion y maent yn rhiant corfforaethol ar eu cyfer.<br><br>Mae gan bob ALl ei system ei hun ar gyfer cofnodi gwaharddiadau, symud ysgolion a newid lleoliadau; ni chedwir unrhyw wybodaeth yn ganolog ac nid yw ERW yn ymwybodol o'r modd y mae ysgolion yn cofnodi neu'n monitro cynnydd. Nid oes system fonitro ranbarthol gan nad oes arweinydd CARh ar waith. |
| **Proses monitro a gwerthuso 2016/17** | Yn ymarferol, cyfyngedig oedd y monitro a wnaed gan Ymgynghorwyr Her o ganlyniad i ddarparu cyllid yn hwyr; ac ni ddarparwyd | Symud i fonitro clwstwr; datblygu taenlen newydd i fonitro ac olrhain gwariant ysgolion; adlewyrchir ymagwedd ranbarthol mewn targedau a lefelau perfformio; a rhannwyd data ar draws y rhanbarth. Mae'n ofynnol | Yr un fath â 2015/16. | Datblygwyd 'Llyfr marcio ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal' rhanbarthol yn 2015/16 i ddarparu offeryn monitro ar gyfer presenoldeb; cyrhaeddiad; ymgysylltu a gwaharddiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ysgolion ERW. Caiff dangosyddion Gwerthuso/ |


| | CSC | GCA | GwE | ERW |
|---|---|---|---|---|
| | unrhyw ofynion monitro clir i ysgolion. | i ysgolion gyflwyno adroddiadau a chadw cofnodion o wariant ariannol. Disgwylir i gydgysylltwyr LACE goladu data olrhain disgyblion unigol. | | Llwyddiant eu monitro trwy Astudiaethau Achos, Holiaduron, Sgorau Pellter a Deithiwyd, data Presenoldeb a Chyrhaeddiad, data cyrchfannau ôl-16 a NEET.<br><br>Ffurflen olrhain i fonitro lefelau o hyfforddiant/cymorth a gynigir i ysgolion a lefel y cymorth staffio; caiff y rhain eu coladu bob tymor gan y Cydlynydd Hyfforddiant. |
| **Monitro ar lefel ALI** | Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau yn 2015/16, gan gynnwys: adroddiadau ysgol/archwiliadau o ymyriadau; a thrafodaethau anffurfiol gyda phob ysgol i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â chynlluniau a thrafod deilliannau. | Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau yn 15/16, gan gynnwys: datblygu taenlen ar effeithiau posibl y grant ar bob plentyn; ymweliadau ag ysgolion; astudiaethau achos ysgolion; olrhain gwaharddiadau a chyrhaeddiad yn gyffredinol; a darparu adroddiadau cynnydd a gwerthusiadau yn seiliedig ar blant unigol. | Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau dros y ddwy flwyddyn, gan gynnwys: dim monitro gwariant; olrhain gwariant ariannol ond nid data deilliannau neu werthusiadau effaith ad-hoc ar gyfer rhai ymyriadau; casglu adborth ysgrifenedig anffurfiol gan ysgolion a chynnal ymweliadau LACE ag ysgolion; a chynnal gwerthusiadau grŵp ar lefel ALI o fwrsarïau a hyfforddiant. | Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau dros y ddwy flwyddyn, gan gynnwys: rhoi adroddiad rheolaidd i CARh yn unol â chynlluniau gwariant ALI; olrhain gwariant trwy ysgol rithwir ond dim gwerthuso deilliannau yn systematig; monitro cynnydd myfyrwyr unigol; gwerthusiadau o ymyriadau hyfforddiant; gwerthusiadau gan ddefnyddio seren deilliannau; defnyddio data deilliannau anecdotaidd; gwerthusiadau bob hanner tymor gan anogwr addysgu Plant sy'n Derbyn Gofal; ac olrhain nifer y CAPau. |

Ffynhonnell: Cyfweliadau â Chydgysylltwyr LACE ac arweinwyr CARh, tystiolaeth ddogfennol a gwybodaeth o astudiaethau achos.

7.5 Mae hefyd yn glir ei bod yn ymddangos bod dryswch ynghylch rôl pwy yw monitro gwariant a deilliannau ar bob lefel o ystyried amrywiaeth y dyraniadau cyllid, llywodraethu a darparu adnoddau ar wahanol lefelau. Nodwyd dwy ymagwedd fonitro lwyddiannus o'r cyfweliadau a'r astudiaethau achos; fodd bynnag, awgrymwyd y dylid gwneud rhagor o welliannau i'r systemau hyn, sef:

- Yn ERW, lle roedd mwyafrif y cyllid fel arfer yn cael ei ddal ar lefel ALl a'i gydlynu gan staff cymorth a ariennir, a dywedodd un ALl ei fod yn defnyddio taenlen i olrhain gwariant gan staff cymorth ar lefel ALl ac yn cysylltu gwariant â deilliannau a gyflawnwyd. Roedd staff cymorth yn gyfrifol am olrhain cynnydd yr ymyriadau yr oeddent yn ymgymryd â nhw gyda disgyblion unigol, gan gyflwyno holiaduron i werthuso ymyriadau hyfforddiant a gweithgareddau grŵp ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn bwydo'r wybodaeth hon i'r daenlen. Roedd hefyd yn ofynnol i ysgolion fwydo gwybodaeth am fonitro, ochr yn ochr â data monitro safonedig ar lefel ALl (ar gyrhaeddiad, presenoldeb, ac ati) ac a oedd yn cael ei droi wedyn yn adroddiad tymhorol gan y cydgysylltydd LACE.
- Yn GCA, yn sgil datblygu system olrhain a monitro ranbarthol, amlygwyd manteision posibl defnyddio ymagwedd ranbarthol, safonedig at fonitro. Datblygodd GCA daenlen ranbarthol a oedd yn cynnwys manylion am swm y cyllid, yr ymyriad, a'r math o gymorth. Roedd hefyd yn cynnwys adran yn yr adroddiad yn amlinellu effeithiau ar: bresenoldeb, ymddygiad, cyrhaeddiad academaidd a deilliannau 'eraill'. Roedd disgwyl i gydgysylltwyr LACE ac ysgolion fwydo data i'r daenlen hon. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth am ddeilliannau a ddarparwyd yn y daenlen yn ansoddol yn bennaf, neu'n adlewyrchu targedau deilliannau yn hytrach na'r deilliannau a gyflawnwyd. Dywedodd rhai cydgysylltwyr LACE nad oeddent yn glir ynglŷn â'u rôl fonitro a sut i fwydo hyn i'r daenlen.
- Ar lefel ysgol, yn gyffredinol, nid oedd monitro ac adrodd yn mynd y tu hwnt i gyfrif am y gwariant (Ffigwr 7.1). Dywedodd y rhan fwyaf o staff ysgolion eu bod yn monitro cyfanswm y gwariant (80%), er mai 50% ohonynt yn unig a roddodd ddadansoddiad o wariant fesul gweithgaredd, ac fe wnaeth 51% fonitro deilliannau'n deillio o wariant.


**Ffigwr 7.1 Sut mae eich ysgol yn cyfrif am wariant?**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a dderbyniodd gyllid grant (N = 131, mae 30 â dim ymatebion wedi eu heithrio). Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

7.6 Pan gofnodwyd data deilliannau mesuredig, canolbwyntiodd y rhan fwyaf ohonynt ar adrodd am gynnydd mewn cyrhaeddiad neu bresenoldeb yn hytrach na deilliannau neu effeithiau lles ar staff neu brosesau ysgolion (Ffigwr 7.2).

**Ffigwr 7.2 Deilliannau gweithgareddau ysgol a ariennir gan y PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a adroddodd eu bod yn defnyddio cyllid PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2015/16 a/neu 2016/17 (N = 108). Dim ymateb yn amrywio (13 – 23) ar gyfer pob datganiad ac mae wedi'i eithrio o'r cyfansymiau.*

*Adborth rhanddeiliaid ar systemau monitro*

7.7 At ei gilydd, roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod systemau bellach yn fwy strategol a bod ysgolion yn fwy atebol am eu gwariant, o gymharu â'r cyfnod cyn 2015 pan oedd arian yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion. Fodd bynnag, roedd pob un ohonynt yn ymwybodol (cenedlaethol CARh ac ALl) fod systemau monitro a gwerthuso yn wael ar y cyfan o hyd ac angen gwelliannau. Dywedodd CARh a staff ALl eu bod yn ei chael yn anodd diffinio a sefydlu ffyrdd cytûn o fonitro gwariant a data deilliannau ar draws ALlau a CARh ac roedd hyn yn arwain at anghysondebau sylweddol, neu ddiffyg monitro yn gyfan gwbl mewn rhai achosion:

> "Does dim rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth mewn gwirionedd, ac nid oes ffordd ffurfiol o fynd i'r afael â phethau. Mae'n faes ansicr a gellir ei gamddefnyddio. Mae enghreifftiau o hyd o gyllid wedi'i gamgyfeirio er gwaethaf gwelliant mewn targedu Plant sy'n Derbyn Gofal yn uniongyrchol" (cydgysylltydd LACE, GwE).

7.8 Galwodd pob un ohonynt am ymagwedd gliriach a mwy systematig o fonitro ar draws CARh ac ALlau. Awgrymodd sawl un o'r rhai a gafodd eu cyfweld hefyd fod angen eglurder gwell ynglŷn â'r mathau o ddeilliannau y dylent fod yn adrodd yn unol â nhw:

> "Mae yna lawer y gellir ei wella yn genedlaethol ynglŷn â monitro ac olrhain plant sy'n derbyn gofal …ddylai ddim bod mor anodd â hynny i gael system, sy'n fodel rhithwir fel yn Lloegr, ar gyfer pob consortiwm" (cydgysylltydd LACE, ERW)
>
> "Mewn byd delfrydol, byddai un ymagwedd ar draws pob ALl ar gyfer popeth yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal a mesur lles cyffredin" (cydgysylltydd LACE, GwE)

7.9 Amlygwyd bod monitro a gwerthuso gwell yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer blwyddyn ariannu 2017/18. Er enghraifft, adroddodd ERW am gynlluniau i ddatblygu templedi a ffurflenni olrhain safonedig ar gyfer monitro gwariant a deilliannau ar lefel ALl a datblygu dulliau ar gyfer gwerthuso set ehangach o ddeilliannau, nid cyrhaeddiad a phresenoldeb yn unig. Nododd y rhai a gafodd eu cyfweld yr heriau canlynol â gofynion monitro a gwerthuso presennol:

- Mae gan ysgolion llai, yn enwedig ysgolion cynradd, allu cyfyngedig i ddatblygu systemau monitro cryf;
- Roedd gwneud penderfyniadau am wariant a rhoi'r rhain ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ei gwneud yn anodd gofyn am wneud y monitro a'r

gwerthuso. Er enghraifft, dywedodd un ALl yn CSC fod cydgysylltwyr LACE yn cyfarfod i ddyfeisio ffurflenni monitro a gwerthuso newydd i'w hanfon i ysgolion, ond yn cytuno ei bod yn annheg gofyn i ysgolion adrodd ar y deilliannau:

> "Doedd y system oedd ar waith ddim yn wych. Doedd cyllid ddim yn cael ei ddyrannu'n ddigon cynnar, ac roedd hyn yn effeithio ar ansawdd y gwerthuso" (cydgysylltydd LACE, GCA);

- Roedd mesurau deilliannau gofynnol ar lefel genedlaethol a CARh yn cael eu hystyried yn aneglur. Dywedodd ychydig o gydgysylltwyr LACE eu bod wedi drysu ynglŷn â'r graddau y dylent fod yn adrodd yn unol â dangosyddion rhieni corfforaethol, fel nifer y CAPau a gwblhawyd neu sgorau iechyd meddwl a lles, neu yn unol â dangosyddion gwella ysgolion, fel presenoldeb a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Teimlai cydgysylltwyr LACE hefyd, er gwaethaf gofynion Llywodraeth Cymru, ei bod yn amhriodol adrodd yn unol â dangosyddion cyrhaeddiad a phresenoldeb o ystyried niferoedd bach y Plant sy'n Derbyn Gofal ym mhob grŵp blwyddyn a natur ansicr carfanau Plant sy'n Derbyn Gofal. Roeddent yn galw am ymagwedd ehangach at fesurau deilliannau sy'n canolbwyntio ar anghenion ehangach pob plentyn:

> "Mae'n mynd yn anodd iawn am fod pobl eisiau i chi edrych ar grwpiau o blant …ac edrych ar garfan y Plant sy'n Derbyn Gofal ac edrych ar eu cyrhaeddiad. Ond, eu lles yw'r peth pwysicaf, heb os nac oni bai. Lles yn sicr yw'r peth pwysicaf i mi. Os ydw i o dan y fath bwysau neu drawma, yna beth yw'r peth cyntaf i ddioddef, wel fy ngwaith, mae'n ddrwg gen i, ac eto, rydym ni'n disgwyl i blant fynd i'r ysgol a chyflawni" (cydgysylltydd LACE, ERW);

- Roedd diffyg eglurder ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am fonitro pan oedd systemau ariannu yn newid. Yn y GCA, teimlai cydgysylltydd CARh y gallai symud at ymagwedd clwstwr fod wedi gwella monitro wrth iddo ddod yn fwy strategol, ond teimlai'r rhain fwyaf o ALlau fod monitro wedi gwaethygu am nad oedd ganddynt unrhyw ymwybyddiaeth mwyach o sut roedd arian yn cael ei wario ac nid oeddent yn sicr p'un ai eu cyfrifoldeb nhw oedd monitro gwariant a deilliannau:

> "Nid [yw'n] teimlo mai ein grant ni ydyw i'w fonitro" (cydgysylltydd LACE, GCA).

- Nid oedd unrhyw ddata gwariant neu ddeilliannau ar gael ar gyfer grantiau wedi eu dyrannu i glystyrau yn GwE neu CSC; ac

- Roedd un ALl yn GwE yn teimlo y bydd gofynion gwerthuso llym yn rhwystro ysgolion rhag gwneud ceisiadau am gyllid:

> “Rwy’n gallu gweld ysgolion yn dweud ‘wel, os oes rhaid i mi ysgrifennu hunanasesiad ar y grant, wna’ ddim ymdrechu i wneud cais amdano, ac yn y diwedd, bydd y Plant sy’n Derbyn Gofal yn colli allan” (cydgysylltydd LACE, GwE).

**Effaith y grant: a yw’n gwneud gwahaniaeth?**

7.10 O ystyried ansawdd cyffredinol y systemau monitro a gwerthuso sydd ar waith, tystiolaeth gyfyngedig iawn a geir o effaith fesuredig y grant. Mae’r rhan fwyaf o’r wybodaeth a adroddir amdani yn yr adran hon yn ansoddol ac yn dod o astudiaethau achos a chyfweliadau nad ydynt wedi cael eu cefnogi gan wybodaeth feintiol.

*Effaith strategol*

7.11 Yn gyffredinol[81], roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y trefniadau ariannu newydd wedi cynyddu proffil Plant sy’n Derbyn Gofal a dysgwyr sydd dan anfantais ehangach yng Nghymru yn fawr. Er bod tystiolaeth gadarn gyfyngedig o ddeilliannau o wariant, mae’r holl randdeiliaid yn teimlo bod y grant wedi cael effaith y tu hwnt i’r ddarpariaeth ariannu bresennol ac mae arian yn cael ei dargedu’n fwy cywir at Blant sy’n Derbyn Gofal a dysgwyr eraill cymwys:

> “Mae’n newid o ymagwedd unigol i ymagwedd strategol, gan ddefnyddio arian at ddiben priodol cefnogi cyflawniad Plant sy’n Derbyn Gofal. O’r blaen, weithiau, doedd ysgolion ddim yn canolbwyntio ddigon arian ac roedd yn cael ei wario yn rhywle arall” (rhanddeiliad lefel CARh, GCA)

7.12 Yn ehangach, nodwyd bod y grant yn hwyluso uwchsgilio staff yn gynaliadwy, mae wedi cryfhau gallu ar draws ysgolion, wedi gwella cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid gan gynnwys ysgolion, ALlau, gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr maeth, ac wedi datblygu ffyrdd mwy systematig a strategol o weithio.


> “Mae’r ymagwedd ariannu newydd hon wedi sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth ac mae wedi cynyddu gallu ysgolion i fodloni anghenion Plant sy’n Derbyn Gofal” (Cydysylltydd LACE, ERW)

*Effaith gweithgareddau ar lefel ranbarthol a lefel ALl*

[81] Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â’r gwerthusiad PDG. Pye, J., Taylor, C. a Huxley, K. (2017*) Gwerthusiad o’r Grant Amddifadedd Disgyblion: adroddiad terfynol, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 77/2017*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

7.13 Dywedodd dros hanner (56 y cant) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ysgolion fod rhywun yn eu hysgol wedi mynychu hyfforddiant neu gyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi eu darparu gan CARh neu ALlau, ac fe gafodd 41 y cant arall o ymatebwyr hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol eu hunain hefyd (Ffigwr 7.3). Dywedodd cyfran ychydig yn llai o ymatebwyr eu bod nhw (43 y cant) neu rywun yn eu hysgol (46 y cant) wedi mynychu digwyddiad rhwydweithio neu ddigwyddiad dysgu ar y cyd, a dywedodd 33 y cant fod staff eu hysgol/ysgol arall hefyd wedi derbyn cymorth gan staff wedi eu recriwtio ar lefel ALI. Dywedodd llai ohonynt fod rhywun yn eu hysgol wedi defnyddio systemau monitro a gwerthuso wedi'u darparu gan CARh neu ALlau (27 y cant).

**Ffigwr 7.3 Cyfran yr ymatebwyr yn mynychu gwahanol weithgareddau CARh neu ALI**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n ymwybodol o weithgareddau rhanbarthol neu awdurdod lleol penodol. Mae hyn wedi'i nodi yn y ffigur.*

*Hyfforddiant*

7.14 Teimlai pob un o'r rhai a gafodd eu cyfweld ar lefel CARh a'r rhan fwyaf o'r rhai a gafodd eu cyfweld ar lefel ALI fod cyflwyno hyfforddiant ar lefel ranbarthol a lefel ALI wedi gwella ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal, ac mewn llawer o achosion, wedi gwella eu gallu i gynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ystafell ddosbarth. Er y byddai un cydgysylltydd LACE wedi hoffi cymryd mwy o ran mewn penderfynu ar y mathau o gwrs i'w gyflwyno ar lefel ranbarthol, roedd pob un ohonynt yn gwerthfawrogi ymagwedd ranbarthol at hyfforddiant a'i gomisiynu:

"Mae'r hyfforddiant yn sicr wedi bod o fudd i ni yn [yr ALl hwn] gan na fydden ni wedi gallu fforddio gwneud hyn heb gael yr hyfforddiant trwy'r rhanbarth" (cydgysylltydd LACE, ERW)

7.15 Mae canfyddiadau astudiaethau achos ochr yn ochr ag adroddiad gwerthuso allanol ar gyfer hyfforddiant rhanbarthol yn ERW yn darparu rhagor o fanylion am ddeilliannau hyfforddiant. Defnyddiodd ERW hyfforddwyr allanol i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad i ysgolion ledled y rhanbarth. Cafodd hyfforddiant ei dargedu at grŵp o 'ysgolion arweiniol' yn 2015/16 i ddechrau, ac wedyn fe'i cyflwynwyd ar hyd a lled y rhanbarth cyfan. Mae'r rhai a gafodd eu cyfweld yn credu bod y rhai a fynychodd wedi magu "hyder ac wedi ennill sgiliau ymarferol" ac wedi gwella lefelau gwydnwch ac empathi, sydd wedi cael effeithiau uniongyrchol ar leihau'r cynnydd mewn ymddygiad gwael ymhlith Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae adroddiad gwerthuso allanol[82] yn amcangyfrif bod o leiaf 1,186 o gyfranogwyr o 127 o ysgolion wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant[83].

7.16 At ei gilydd, roedd 99 y cant o unigolion a ymatebodd i'r arolwg a gomisiynwyd yn allanol (Kate Cairns Associates 2017) wedi gweld yr hyfforddiant yn ddefnyddiol a dywedon nhw y byddent yn ei argymell i gydweithwyr; dywedodd 90 y cant fod yr hyfforddiant wedi newid y ffordd yr oeddent yn gweld ymddygiadau ac yn ymateb iddynt (teimlai 84 y cant fod y newid mewn ymagwedd ymddygiadol wedi digwydd ar draws eu hysgol gyfan); dywedodd 78 y cant eu bod yn defnyddio eu gwybodaeth o leiaf bob dydd yn eu gwaith (adroddwyd am y canfyddiad hwn eto sawl mis ar ôl yr hyfforddiant); dywedodd 68 y cant fod ganddynt ddealltwriaeth well o faterion ymlyniad yn syth ar ôl yr hyfforddiant, ac adroddodd 66 y cant am lefel gynaledig o ddealltwriaeth sawl mis ar ôl cwblhau'r hyfforddiant; dywedodd 61 y cant fod yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu wedi cael effaith gadarnhaol ar eu perthnasoedd gweithio gyda rhieni, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, ac ati; dywedodd 60 y cant eu bod yn cyflwyno strwythurau newydd neu ffyrdd newydd o weithio i ymateb i'r hyfforddiant; a dywedodd 57 y cant eu bod wedi gallu rhaeadru dysgu ar draws eu hysgol.

[82] Kate Cairns Associates (2017) *ERW Attachment Aware School project 2015-2017: Longitudinal survey results.* ERW


[83] O'r unigolion hyn, cwblhaodd 603 o leiaf un holiadur ar ôl yr hyfforddiant gan gynnig asesiadau o ddealltwriaeth cyn/ar ôl hynny, amlder cymhwyso a hyder mewn esbonio damcaniaeth, cwblhaodd 253 yr arolwg hydredol (chwe mis ar ôl y digwyddiad hyfforddi cyntaf) a chwblhaodd 212 holiadur ar ôl yr hyfforddiant ac arolwg hydredol.

7.17 Fe wnaeth un ALl yn ERW werthuso effaith hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad rhanbarthol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn fewnol hefyd. Fe wnaethant adrodd fod rhoi strategaethau Ymwybyddiaeth Ymlyniad ar waith mewn ysgolion wedi arwain at eu canlyniadau TGAU gorau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2016 (er 2011); roedd yn lleihau'r angen am ymyriad corfforol/ymdriniaeth gadarnhaol; ac yn cefnogi rheoli ymddygiad gwell, gan wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor uniongyrchol y gellir priodoli'r deilliannau i roi'r strategaethau hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad ar waith yn unig.

7.18 Yn CSC, amlygodd canfyddiadau astudiaethau achos ar effaith hyfforddiant Thrive mewn un ALl ei effaith gadarnhaol ar Blant sy'n Derbyn Gofal a staff ysgol hefyd. Wedi iddynt ddod yn ymarferwr Thrive hyfforddedig, mae staff yn cynnal asesiad Thrive gyda disgyblion ac yn trefnu cymorth hyblyg yn ôl yr angen, gan gynnwys sesiynau therapi, gwersi ychwanegol, cymorth llythrennedd emosiynol a/neu sicrhau bod staff yn ymwybodol o unrhyw anghenion cymorth. Roedd deilliannau a adroddwyd gan y rhai a gafodd eu cyfweld yn cynnwys: monitro deilliannau'n well gan fod ymagwedd Thrive yn cynnwys system wedi'i hymgorffori ar gyfer gosod targedau a monitro deilliannau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal; gwelliannau yng ngallu plant i ddatblygu perthnasoedd iach; gostyngiadau yn nifer y gwaharddiadau a gwelliannau mewn cyrhaeddiad; hwyluso bywyd cartref mwy sefydlog trwy gynnal asesiadau a rhoi cyngor i ofalwyr maeth; a gwelliannau i ddatblygiad emosiynol Plant sy'n Derbyn Gofal.

7.19 Yn unol â'r canfyddiadau hyn, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg ar lefel ysgol yn gadarnhaol ynglŷn â deilliannau gweithgareddau hyfforddi, gyda thros 80 y cant o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiadau isod. Roedd 13 y cant yn unig o ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi sylwi ar welliannau yng nghynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn cyrhaeddiad, ac roedd 12 y cant yn anghytuno bod ganddynt arferion addysgu gwell.

**Ffigwr 7.4 Deilliannau ysgolion o ran gweithgareddau hyfforddi CARh neu ALI**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fynychodd weithgareddau hyfforddi CARh/ALI (N = 92). Dim ymateb wedi'i eithrio (mae'n amrywio o 1-3)*

*Recriwtio staff*

7.20 Yn gyffredinol, mae'r astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg yn darparu tystiolaeth gadarnhaol iawn o effaith y staff sy'n cael eu recriwtio i roi cymorth ar gyfer gweithgareddau penodol. Ar lefel ysgol, dywedodd 22 o ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi derbyn cymorth gan staff ar lefel ALI ac roedd pob un o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar ddeilliannau'r cymorth hwn (20 o ymatebwyr) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ei fod wedi cefnogi meithrin gallu mewn ysgolion, teimlai 20 o 21 o ymatebwyr ei fod wedi gwella cymorth i ysgolion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (nid oedd un ymatebwr yn gwybod) ac roedd 20 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf hefyd bod y cymorth wedi gwella'r deilliannau addysgol a/neu les ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (er bod un ymatebwr yn anghytuno'n gryf).

7.21 Rhoddodd gwerthusiad mewnol o'r cymorth a ddarparwyd gan dîm lles (plant sy'n derbyn gofal un ALI yn ERW dystiolaeth wedi'i mesur o effaith gadarnhaol. Cafodd cyfanswm o 79 myfyriwr ysgol uwchradd a 62 myfyriwr ysgol gynradd ar draws 73 o ysgolion gymorth gan y tîm rhwng mis Medi 2015 a mis Gorffennaf 2017. Gofynnwyd i ddisgyblion sy'n cael cymorth gan weithwyr ymgysylltu (cymorth un i un; mynediad at weithgareddau ymgysylltu ag addysg, adnoddau, hyfforddiant a chymorth pontio) roi sgôr o rhwng 1-5 (1 yn negyddol, 5 yn gadarnhaol) ynghylch sut roeddent yn teimlo ar ddechrau ac ar ddiwedd ymyrraeth, wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol: ydych chi'n teimlo bod pobl yn gwrando arnoch chi yn yr ysgol; ydych chi'n teimlo'n

ddiogel yn yr ysgol; a allwch chi siarad â'r oedolion yn yr ysgol; ydych chi'n gallu canolbwyntio yn yr ysgol; ydych chi'n teimlo'n hapus yn yr ysgol; ac a ydych chi'n tynnu ymlaen gyda ffrindiau yn yr ysgol? Adroddodd pob un o'r ymatebwyr (18 unigolyn) welliannau cyffredinol.

7.22 Roedd adborth ar gymorth ysgolion (ymyriadau cynorthwyydd addysgu a chyngor a strategaethau gan y Cynghorydd Ymlyniad a Thrawma) a ddarparwyd yng ngwerthusiad mewnol ERW hefyd yn gadarnhaol drwyddi draw, gyda phob ysgol yn adrodd am welliannau cyffredinol yn eu dealltwriaeth o anghenion emosiynol ac ymddygiadol plant sy'n derbyn gofal, yn eu hyder i ymateb i heriau emosiynol ac ymddygiadol plant sy'n derbyn gofal, yn eu dealltwriaeth o effaith trawma ac esgeulustod ar ddysgu; ac yn eu dealltwriaeth o effaith egwyddorion ymwybyddiaeth ymlyniad ar ddysgu.

7.23 Mae astudiaethau achos[84] a chyfweleion yn adrodd y deilliannau canlynol wrth i staff cymorth ar lefel ALl, wedi'u hariannu gan y grant, fod ar gael:

- **Deilliannau i blant sy'n derbyn gofal:** gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau ac atgyfeiriadau i UCDau; gwell iechyd meddwl a lles; gwell cyrhaeddiad addysgol; cynnydd yn nifer y CAPau; llai o symud ysgol a mwy o gymorth ar gyfer symud;
- **Deilliannau i ysgolion a staff ysgol:** ar y cyfan, mae staff cymorth wedi cael croeso mawr gan ysgolion, er rhai amheuon cychwynnol, ac mae staff ysgol wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a gwybodus i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a mynd i'r afael â'u hanghenion, a'u bod yn cael mwy o gymorth ar gyfer hynny. Nodwyd bod cymorth ysgolion hefyd yn hyrwyddo newid yn niwylliant ysgol gyfan ac yn helpu i wreiddio dysgu a gafwyd o hyfforddiant mewn arferion bob dydd trwy gymorth wedi'i deilwra, ac yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio i staff;

  > "Mae ysgolion wir yn gwerthfawrogi tîm rhagweithiol a phan fydd pethau yn anodd tu hwnt, gallant godi'r ffôn ac mae gweithredu ar droed" (Cydgysylltydd LACE, ERW); a

- **Deilliannau systemau ehangach:** mae timau LACE sydd ag adnoddau da yn gallu cynnig cymorth eang ar draws yr ALl, ond wedi'i deilwra yn ôl anghenion disgyblion unigol. Mae recriwtio staff wedi bod yn gysylltiedig hefyd â mwy o

[84] Un astudiaeth achos yn ystyried effaith Mentor ar lefel yr ALl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac un astudiaeth achos yn ystyried effaith swyddog cymorth addysg ar lefel yr ALl.

ffocws ar anghenion lles plant sy'n derbyn gofal, yn hytrach na ffocws cul ar gyrhaeddiad; cynnig cysylltiad gwell rhwng yr ysgol ac amgylchedd y cartref a hwyluso ymagwedd amlasiantaeth; gwella ansawdd monitro a gwerthuso ar lefel leol; a chodi ymwybyddiaeth o anghenion cymorth ehangach yr holl ddisgyblion.

> "Mae'r newid i ddyraniadau cyllid wedi bod yn enfawr. Bu buddion pendant i blant sy'n derbyn gofal oherwydd mae'n cyrraedd mwy o staff a disgyblion yn ein hysgolion na feddyliais i y byddai'n gwneud, ond nid dim ond plant sy'n derbyn gofal, mae'n cyrraedd pob disgybl" (Cydgysylltydd LACE, ERW)

*Rhwydweithio a gweithgareddau dysgu ar y cyd*

7.24 Defnyddiwyd cyllid cyfyngedig i ddatblygu cyfleoedd rhwydweithio a chyfleoedd dysgu ar y cyd. Fodd bynnag, mae cyfweleion wedi adrodd am well cydweithredu a chydgysylltu rhwng ystod eang o randdeiliaid ar lefel ranbarthol, ALI ac ysgol, yn deillio o weithgareddau rhwydweithio wedi'u hariannu a gweithgareddau rhwydweithio o fath arall:


> *"*Hyd yn oed yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, rwy'n credu bod y cynllunio yno i annog awdurdodau i ddod ynghyd i rannu arfer da." (Cydgysylltydd LACE, GwE)

7.25 Roedd y staff ALI a'r staff ysgol a gafodd eu cyfweld fel rhan o astudiaeth achos yn canolbwyntio ar ddatblygu llyfryn arfer gorau a phecyn cymorth cysylltiedig ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, wedi adrodd eu bod yn teimlo bod y llyfryn wedi cynyddu eu dealltwriaeth o anghenion plant sy'n derbyn gofal yn llwyddiannus, a'r ffordd orau o'u cefnogi, gan gynnwys cynnig cyngor ymarferol i staff ysgolion eraill. Datblygwyd y llyfryn ar y cyd â dau ALI ac ysgolheigion o Brifysgol Caerdydd, gydag ymgynghoriadau gyda phlant sy'n derbyn gofal.

7.26 O'r 70 o staff ysgol a ddywedodd eu bod yn cymryd rhan mewn cyfleoedd rhwydweithio neu gyfleoedd dysgu ar y cyd ar lefel ranbarthol neu leol, roedd y mwyafrif helaeth ohonynt (78-99 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cyfleoedd wedi arwain at welliannau mewn gofal bugeiliol ac arferion addysgu, gwell cymorth i staff ar lefel ranbarthol, leol neu ysgol, mwy o hyder ymhlith staff i ddarparu ymyriadau effeithiol i blan sy'n derbyn gofal, a gwell dealltwriaeth a gallu i gefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion (Ffigwr 7.5). Serch hynny, anghytunodd 11 y cant o ymatebwyr fod y cyfleoedd rhwydweithio/dysgu ar y cyd wedi gwneud gwelliannau i arferion addysgu (ac nid oedd 10 y cant yn gwybod) ac

anghytunodd 7 y cant eu bod wedi gwneud gwelliannau i ofal bugeiliol (ac nid oedd 3 y cant yn gwybod).

**Ffigwr 7.5 Deilliannau cyfleoedd rhwydweithio/dysgu ar y cyd CARh/ALI i ysgolion**




*Sylfaen: Pob ymatebydd a fynychodd weithgareddau rhwydweithio/dysgu ar y cyd CARh/ALI (N = 70). Ymatebodd bawb.*

*Monitro a gwerthuso*


7.27 Defnyddiwyd ychydig iawn o gyllid ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso, ond gwnaed ychydig welliannau i systemau monitro fel rhan o weithgareddau ehangach y grant (er enghraifft trwy waith staff wedi'u recriwtio ar lefel ALI). Fodd bynnag, bach iawn o dystiolaeth o effaith gwaith gwerthuso a nodwyd ar lefel ysgol, gan y 29 o ymatebwyr a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau monitro/gwerthuso wedi'u hariannu gan y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (neu a oedd yn adnabod rhywun yn eu hysgol a oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau hyn). Fe wnaeth tua thri chwarter (21 ymatebydd) gytuno'n gryf neu gytuno'u bod wedi gwella'r gwaith o fonitro a gwerthuso cyllid, gweithgareddau neu ddeilliannau ar lefel ysgol. Anghytunodd dau ymatebydd ac nid oedd pump yn gwybod. Ni wnaeth yr un ymatebydd anghytuno'n gryf.

*Effaith gweithgareddau ar lefel ysgol*

7.28 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ar lefel ysgol roi sylwadau ar effaith yr ymyrraeth/ymyriadau a gyflwynwyd yn eu hysgol (Ffigur 7.6:). Os oedd ymatebwyr yn cyflwyno mwy nag un ymyrraeth, gofynnwyd iddynt roi sylwadau ar yr un a gafodd yr

effaith fwyaf[85] yn eu tyb nhw. Adroddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg dystiolaeth wedi'i mesur neu ei harsylwi o well deilliannau addysgol i blant sy'n derbyn gofal (87 y cant), gwell lles meddyliol, emosiynol neu gorfforol (95 y cant), gwell gwybodaeth a sgiliau ymhlith staff (86 y cant) a gwell ymarfer yn yr ystafell ddosbarth (80 y cant). Roedd canfyddiadau'n llai cadarnhaol ar gyfer gwelliannau yn y ffordd y caiff gwaith ei ariannu, ei redeg neu ei werthuso, gyda 53 y cant yn unig o ymatebwyr yn adrodd am dystiolaeth wedi'i mesur neu ei harsylwi. Ni allai cyfweleion mewn astudiaethau achos gadarnhau hyn.

**Ffigwr 7.6 Deilliannau gweithgareddau ysgol wedi'u hariannu gan y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**




*Sylfaen: Roedd yr holl ymatebwyr a ymatebodd wedi defnyddio cyllid y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2015/16 a/neu yn 2016/17 (N = 108). Roedd cyfraddau dim ymateb yn amrywio (13 – 23) ar gyfer pob datganiad.*

*Cynaliadwyedd*

7.29 Roedd yr holl gyfweleion yn deall mai diben y grant oedd gweithredu ymyriadau addas ac roedd pob un ohonynt yn canolbwyntio ar hwyluso cynaliadwyedd drwy weithgareddau. Fodd bynnag, er gwaethaf yr amcan hwn, roedd y dystiolaeth fesuradwy o gynaliadwyedd, a amlygwyd gan gyfweleion, yn gyfyngedig iawn.

[85] Adroddodd y rhan fwyaf (71%) o'r ymatebwyr am gyflwyno ymyriadau penodol i blant sy'n derbyn gofal, yna hyfforddiant ysgol, recrwitio staff cymorth, gweithredu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darpau cyllid bwrsariaeth, cefnogi neu ddatblygu gweithio mewn partneriaeth a/neu weithgareddau monitro.

Canfu’r gwerthusiad o hyfforddiant a gyflwynwyd gan ERW dystiolaeth o ddysgu parhaus chwe mis ar ôl cyflwyno’r hyfforddiant a defnydd ohono yn eu hymarfer bob dydd. Roedd yr holl gyfweleion o’r farn bod hyfforddiant wedi bod yn fodd o wella medrau a meithrin gallu staff yn yr hirdymor, gan ostwng y pwysau ar Gydgysylltwyr LACE a’u timau dros gyfnod tymor hwy. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i’r staff, roedd yn bwysig bod cyrsiau’n parhau i gael eu cynnig a bod staff hyfforddedig yn cael cyrsiau diweddaru er mwyn cynnal momentwm a pharhau i annog newid yn niwylliant ysgolion yn ehangach.

7.30 Hefyd, nododd cyfweleion fod recriwtio staff ysgol yn ymagwedd gynaliadwy oherwydd teimlont fod staff cymorth ychwanegol, gydag amser, yn helpu i wella sgiliau a meithrin gallu mewn ysgolion, a oedd yn lleihau’r angen am ddarpariaeth drwy’r bwrsari oherwydd gallai staff ysgolion ddarparu’r cymorth angenrheidiol eu hunain, gydag arweiniad gan ddeiliaid swydd ar lefel yr ALl. Er enghraifft, dywedodd yr holl staff ysgol a gafodd eu cyfweld fel rhan o astudiaeth achos Swyddog Addysg mewn ALl yn ERW fod ganddynt wybodaeth well am ffyrdd effeithiol o weithio gyda phlant sy’n derbyn gofal, yn sgil cael arweiniad ar arfer gorau ac awgrymiadau am strategaethau newydd i’w defnyddio gyda myfyrwyr. Bu’r aelod staff a ariannwyd hefyd yn gweithio’n agos gyda staff ysgol i helpu gwreiddio dysgu o hyfforddiant trwy eu cynorthwyo i roi technegau newydd eu dysgu ar waith i ymdopi â phroblemau ymddygiad a phresenoldeb plant sy’n derbyn gofal.

7.31 Yn olaf, nodwyd bod gwaith chwarae seiliedig ar berthynas yn hynod gynaliadwy ac isel ei gost. Mewn un ALl yn ERW, cyflwynwyd hyfforddiant gan staff ar lefel yr ALl ac, yn sgil hyfforddiant, dim ond buddsoddiad bach mewn cyfarpar/offer ac amser pwrpasol staff yr oedd eu hangen ar gyfer sesiynau chwarae seiliedig ar berthynas.


*Y mathau o weithgaredd mwyaf effeithiol*

7.32 Ar lefel ranbarthol, roedd yr holl gyfweleion ar lefel CARh ac ALl, a’r rhan fwyaf o staff ysgol, o’r farn bod hyfforddiant ymlyniad yn arbennig o effeithiol. Ar lefel yr ALl, nodwyd bod recriwtio staff ychwanegol ar lefel yr ALl, hyfforddiant a chymorth bwrsariaeth hyblyg, yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant sy’n derbyn gofal.

7.33 Yn achos ymatebwyr yr arolwg ysgolion, ystyriodd yr ymatebwyr mai’r tri gweithgaredd mwyaf llwyddiannus oedd datblygiad ymyriadau penodol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal; hyfforddiant ysgol; a recriwtio staff cymorth ysgol (Ffigur 7.7:). Fodd bynnag, o’r ymatebwyr a adroddodd ariannu ymyrraeth benodol ar gyfer plant

sy'n derbyn gofal, dim ond 59 y cant oedd yn credu mai dyma'r math mwyaf llwyddiannus o weithgaredd. Yn debyg i hynny, 44 y cant yn unig o'r rhai a oedd yn darparu hyfforddiant ysgol oedd o'r farn mai dyma'r math o weithgaredd mwyaf llwyddiannus.

**Ffigwr 7.7 Y math o weithgaredd mwyaf llwyddiannus (ticiwch hyd at dri gweithgaredd)**





*Sylfaen: Ymatebwyr sy'n ymwybodol o weithgareddau rhanbarthol neu weithgareddau wedi'u hariannu gan yr ALl h.y. y rhai na ddewisodd 'dim un o'r uchod' (N = 185). Ticiwch hyd at dri.*

*Y lefel gwariant fwyaf effeithiol*

7.34 O ystyried yr amrywiaeth fawr o strwythurau a phrosesau ariannu, mae nodi'r lefel gwariant fwyaf effeithiol yn arbennig o anodd (Ffigwr 7.8). Ar lefel ysgol, roedd ymatebwyr yr arolwg o'r farn mai cyllid lefel ysgol oedd yn cael y mwyaf o effaith (68 y cant), yna lefel yr ALl (22 y cant).

**Ffigwr 7.8 Y lefel mae cyllid yn fwyaf effeithiol arni**




*Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (N = 219). 206 o ymatebwyr, 15 dim ymateb, sydd wedi'u hepgor o'r dadansoddiad.*

7.35 Ymhlith cyfweleion CARh ac ALlau, roedd y farn yn gymysg. Lle'r oedd CARh yn darparu cyllid i glystyrau ysgolion, dywedodd un arweinydd CARh a phedwar cydgysylltydd LACE fod cydlyniad strategol wedi gwella:

> "Mae ysgolion bellach yn rhannu data ac arfer da ac yn cynnal sesiynau i ysgolion eraill – dyna beth mae [CARh] eisiau, dysgu gan gymheiriaid ac ymagwedd glwstwr, mae gennych rwydwaith o weithgareddau'n mynd yn eu blaen nawr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal" (arweinydd CARh).

7.36 Fodd bynnag, roedd hi'n well gan y rhan fwyaf o gydgysylltwyr LACE fod cyllid yn cael ei ddarparu ar lefel yr ALl, gan eu bod mewn gwell sefyllfa i ddeall a mynd i'r afael ag angen y gellid ei fodloni ar draws ysgolion. Beirniadaeth allweddol o gyllid lefel CARh oedd ei ddiffyg hyblygrwydd yn wyneb newidiadau yn natur anghenion. Mewn rhai achosion, ar ôl i ysgolion wneud cais am gyllid, nid oedd cyllid atodol ar gael i fynd i'r afael ag anghenion unigol a oedd yn dod i'r amlwg gan blant sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd, roedd dau gydgysylltydd LACE o'r farn nad oedd ceisiadau clwstwr yn cynnig cwmpas digonol o gymorth i ysgolion (h.y. nid oedd pob ysgol yn gwybod am y cyllid neu ni wnaethant gais am amrywiol resymau) a bod y gofyniad i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wneud ceisiadau ynghyd yn lleihau effeithiolrwydd cyllid gan fod anghenion y ddau fath o ysgol yn aml yn wahanol iawn.

> "Yn sicr, teimlom ein bod wedi cael canlyniadau gwell [yn 2015/16] ac rwy'n credu bod rhywfaint o hynny yn uniongyrchol oherwydd y bu'n bosibl i ni fod yn rhagweithiol ac yn adweithiol. Yn bersonol, rwy'n teimlo bod hynny wedi'i gymryd i ffwrdd erbyn hyn gan ei fod yn cael ei ddal gan y consortiwm…Mae'n anodd iawn mynd lawr i lefel y plentyn pan rydych chi'n cwmpasu cymaint o blant a nifer fawr o ardaloedd" (Cydgysylltydd LACE, CSC)

7.37 Yn ERW, roedd myfyrdodau ar ddal cyllid ar lefel yr ALl i raddau helaeth yn gadarnhaol. Roedd canfyddiadau astudiaeth achos o staff ysgol, gofalwyr maeth a staff gofal cymdeithasol oll wedi cefnogi'r model cymorth hwn yn unfrydol. Er llawer o feirniadaeth a gwrthwynebiad cychwynnol gan ysgolion, adroddodd bob un ohonynt am y gwerth ychwanegol o gael tîm cryf o LACE a staff cymorth i gyflwyno ymyriadau strategol, effeithiol a monitro deilliannau, na ellid eu cyflawni yn eu barn nhw pe bai arian yn mynd yn syth i ysgolion neu glystyrau:

> "Nid oedd tynnu cyllid rhag ysgolion fyth yn mynd i fod yn benderfyniad poblogaidd, ond rydym wedi eu troi nhw o'n plaid gyda chymorth emosiynol a chymorth â pherthnasoedd i reoli ymddygiad. I ddechrau, roedd ysgolion yn teimlo'n chwerw, ond mae rhai wedi'u hargyhoeddi ac yn hyrwyddo hyn yn frwd mewn ysgolion, sef y cymorth sydd ar gael, ac mae ei fuddion wedi bod yn bendant felly mae ysgolion wedi newid eu hagwedd" (Cydgysylltydd LACE, ERW).

**Prif bwyntiau cryno**

7.38 Mae'r adran hon yn canfod y canlynol:

- Mae systemau gan yr holl CARh ar waith i olrhain dyraniadau gwario i ryw raddau. Fodd bynnag, mae systemau yn amrywio o ran ffurf ac ansawdd sy'n golygu nad oes unrhyw fformatau na matricsau adrodd safonedig. Nodwyd amrywiadau tebyg mewn dulliau monitro a gwerthuso ar lefel ALl, gyda rhai ALlau yn adrodd ychydig iawn neu ddim o gwbl ar fonitro gwariant neu ddeilliannau. Ar lefel ysgolion, nid oedd ysgolion yn monitro deilliannau yn sgil gwariant yn gyson.
- Nid oedd holl staff ALl ac ysgolion a oedd yn gyfrifol am wario dyraniadau grant yn glir ynglŷn â'u rôl o ran monitro'r gwariant a'r deilliannau a gyflawnwyd. Y rheswm am hyn yn rhannol yw'r prosesau dyrannu/alldalu cyllid gwahanol, strwythurau llywodraethu a lefelau darparu adnoddau ar draws ALlau a CARh, ac yn rhannol oherwydd diffyg arweiniad clir ar yr atebolrwydd am gyllid wedi'i ddirprwyo.
- Teimlai'r rhai a gafodd eu cyfweld ar lefel CARh ac ALl fod ysgolion yn fwy atebol am eu gwariant o gymharu â chyn-2015 pan oedd arian yn cael ei ddyrannu i ysgolion yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedden nhw a rhanddeiliaid cenedlaethol yn ymwybodol fod systemau monitro a gwerthuso yn dal yn wael yn gyffredinol, a bod angen gwelliannau.

- O ystyried ansawdd cymharol wael y systemau monitro a gwerthuso sydd ar waith, tystiolaeth gyfyngedig iawn sydd o effaith fesuredig y grant. Yn gyffredinol, roedd consensws ynghylch y canlynol:
  - Bod y trefniadau ariannu newydd wedi cynyddu proffil cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal a golygai hynny bod cyllid yn targedu plant sy'n derbyn gofal yn well;
  - Mae'r cyllid strategol wedi hwyluso uwchsgilio staff yn gynaliadwy, wedi cryfhau gallu ar draws ysgolion, ac wedi gwella cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid yn cynnwys ysgolion, ALlau, gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr maeth;
  - Mae hyfforddiant ar lefel CARh ac ALl wedi gwella ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o anghenion plant sy'n derbyn gofal ac, mewn llawer o achosion, wedi gwella eu gallu i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn yr ystafell ddosbarth. Fe wnaeth canfyddiadau gwerthuso mewnol yn ERW gysylltu hyfforddiant ymlyniad hefyd â gwelliannau mewn canlyniadau TGAU a chyfraddau presenoldeb a gwahardd gwell.
  - Roedd staff cymorth ychwanegol wedi cynorthwyo meithrin gallu mewn ysgolion ac wedi gwella deilliannau addysgol a lles ar gyfer plant unigol sy'n derbyn gofal, fel llai o waharddiadau, cyrhaeddiad uwch a lles gwell.
- Ar lefel ranbarthol, nodwyd hyfforddiant fel defnydd o gyllid sy'n arbennig o effeithiol; ar lefel ALl, gwelwyd recriwtio staff, hyfforddiant a chymorth bwrsariaeth hyblyg fel yr elfennau mwyaf effeithiol; ac ar lefel ysgolion, nododd ymatebwyr i'r arolwg ymyriadau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, hyfforddiant ysgolion a recriwtio staff cymorth ysgolion fel elfennau a gafodd yr effaith fwyaf.

# 8. Casgliadau

8.1 Yn y bennod hon, caiff canfyddiadau'r gwerthusiad eu dwyn ynghyd i asesu pa mor dda mae'r system ar gyfer dyrannu'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gweithredu ac i ba raddau y mae'r grant yn cyflawni ei fuddion bwriadedig.

**Pa mor dda y mae'r system a gyflwynwyd yn 2015 yn gweithredu?**

8.2 Nodau'r system ariannu newydd a gyflwynwyd yn 2015 oedd gwella'r ymagwedd strategol at benderfyniadau cyllidol; lleihau biwrocratiaeth a gweinyddu; ac ehangu ystod y buddiolwyr grant. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CARh i gydweithio gydag ALlau, ysgolion a phartneriaid eraill i ddatblygu ymyriadau effeithiol ar gyfer gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Disgwyliwyd y byddai unrhyw ddirprwyo cyllid i ALlau neu ysgolion yn eithriadol, a dim ond lle fyddai cynlluniau yn gyson ag ymagwedd ranbarthol.

8.3 Mae'r astudiaeth wedi nodi nad yw holl ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru wedi'u bodloni. Canfu fod CARh wedi pennu amcanion strategol ac wedi gweithredu proses ddyrannu ddiwygiedig sydd wedi defnyddio rhywfaint o'r grant ar gyfer gweithgareddau cynaliadwy strategol, fel meithrin gallu athrawon drwy hyfforddiant, a chyfran fawr o'r grant ar gyfer cynorthwyo grwpiau o blant sy'n derbyn gofal mewn ALlau a chlystyrau ysgolion sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.

8.4 Fodd bynnag, canfu hefyd fod yr ymagweddau strategol wedi dirprwyo symiau mawr o'r grant naill ai i ALlau ac ysgolion neu i'r ddau, nad yw cydweithio wedi'i sefydlu'n dda ym mhob ardal, ac y gellid dangos tystiolaeth well o'r defnydd o'r grant ar ymyriadau effeithiol. Er bod nodweddion tebyg yn strategaethau a blaenoriaethau CARh sy'n adlewyrchu anghenion plant sy'n derbyn gofal, nid oes system effeithiol yn cael ei gweithredu yn unrhyw un o'r CARh i gynllunio, dyrannu a sicrhau atebolrwydd ar gyfer y grant lle caiff ei ddirprwyo. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo cyllid wedi'i ddirprwyo i glystyrau ysgolion. Gellir gweld amrywiadau mawr mewn rheolaeth y grant a threfniadau darparu adnoddau, yn ogystal ag amrywiadau yn y prosesau dyrannu grant a ddefnyddir ym mhob CARh, ar draws ALlau yn yr un CARh ac ar draws blynyddoedd ariannu.

8.5 Mae amrywiadau ar lefel CARh, ALl ac ysgolion yn y modd y cyfrifir am wariant grant a deilliannau, a bylchau yn y data ar wariant gwirioneddol, wedi'i gwneud hi'n anodd

asesu sut y gwariwyd y grant yn 2015/16 a 2016/17 a pha weithgareddau sydd wedi cyfrannu at unrhyw fuddion i blant sy'n derbyn gofal.

### Tabl 8.1 Y prif gasgliadau yn ôl dangosyddion gwerthuso

| Materion gwerthusol | Dangosydd | Asesiad |
|---|---|---|
| **Llywodraethu** | Adnoddau digonol | **Nid yw'n gweithio'n dda yn gyffredinol:**<br>Mae amrywiadau yn swm, ansawdd a pharhad darparu adnoddau ar lefel CARh, ALl ac ysgol i reoli'r grant;<br>Mae diffyg dilyniant yn y staffio mewn rolau allweddol (mewn CARh ac ALlau) a diffyg amser gan staff yn cyfrannu at fylchau mewn adrodd, cyfathrebu ac atebolrwydd am ddyraniadau grantiau. |
| | Ymgysylltiad gan bartneriaid ac atebolrwydd partneriaid | **Nid yw'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Yn gyffredinol, ni ymgynghorwyd â sefydliadau rhanddeiliaid ehangach, gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal yn ystod cyfnodau cynllunio ac adolygu;<br>Presenoldeb y Grŵp Strategol Cenedlaethol a thystiolaeth o gydweithredu rhwng CARhau ar lefel genedlaethol, ond trefniadau llywodraethu lleol a rhanbarthol amrywiol yn arwain at lefelau cymysg o ymgysylltu gan gydgysylltwyr LACE a rhanddeiliaid eraill yn ystod prosesau cynllunio, dyrannu'r grant a monitro'r grant ar lefel CARh;<br>Fawr ddim ymwneud neu ddim ymwneud o gwbl gan gynrychiolwyr ysgolion â phrosesau cynllunio CARh ac ALl neu eu prosesau penderfynu ar ddyraniadau'r grant; a<br>Rhai enghreifftiau o strwythurau/mecanweithiau rhannu arfer gorau, ond mae'r rhain yn rhai ALl i ALl, anffurfiol ac ad-hoc fel arfer. |
| | Cyfathrebu rhwng partneriaid yn glir ac yn addas i'r diben | **Nid yw'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Nid yw gohebiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r grant a phrosesau'r grant bob amser yn amserol at ddibenion cynllunio; mae dogfennau arweiniad yn ddefnyddiol ond mae angen eglurhad a gwybodaeth ychwanegol yn eu cylch;<br>Ar y cyfan, mae sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol, CARh a chydgysylltwyr LACE yn ymwybodol o bolisi a blaenoriaethau'r grant; mae'r ymwybyddiaeth ymhlith gofalwyr maeth a staff ysgol yn gymysg;<br>Prin yw'r mecanweithiau cyfathrebu ffurfiol ar gyfer lledaenu gwybdoaeth o CARh i ALlau a chlysytyrau ysgolion; mae rhywfaint o rannu gwybodaeth yn rheolaidd rhwng cydgysylltwyr LACE. |

| Materion gwerthusol | Dangosydd | Asesiad |
|---|---|---|
| **Pennu polisi** | Blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol ag arweiniad a thystiolaeth | **Mae'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Ar y cyfan, mae blaenoriaethau CARh yn cyd-fynd ag arweiniad, y dystiolaeth ymchwil sydd ar gael a barn ymarferwyr a rhanddeiliaid cenedlaethol;<br>Mae pob CARh yn diweddaru blaenoriaethau/cynlluniau ar ôl monitro a gwerthuso'u gwariant. Mae ychydig dystiolaeth fod CARh yn diweddaru cynlluniau ar sail y sylfaen dystiolaeth ehangach ac arfer mewn CARh eraill;<br>Prin yw'r dystiolaeth o CARh neu ALlau yn addasu gweithgareddau a gynlluniwyd ar sail asesu gwerth am arian gwariant blaenorol neu'r sylfaen dystiolaeth ehangach o arfer gorau. |
| | Sefydlu blaenoriaethau, cytuno arnynt a'u deall | **Mae'n gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd:**<br>Yn gyffredinol, mae deall, cytudeb ac aliniad blaenoriaethau polisi ar lefel genedlaethol, CARH ac ALlau yn dda;<br>Nid yw pob CARh o reidrwydd wedi cytuno ag ysgolion/rhanddeiliaid eraill ar y blaenoriaethau a'r prosesau ar gyfer dyrannu ac nid yw ALlau ac ysgolion/rhanddeiliaid eraill o reidrwydd yn eu deall;<br>Mae aliniad blaenoriaethau lefel CARh a blaenoriaethau lefel clwstwr ysgolion yn llai clir; adroddir amrywiadau mawr yn ansawdd ceisiadau clwstwr. |
| **Dyrannu** | Tystiolaeth o angen a beth sy'n gweithio yn ei lywio | **Nid yw'n gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd:**<br>Mae rhywfaint o dystiolaeth bod staff CARh ac ALl yn defnyddio tystiolaeth o angen i lywio gweithgareddau h.y. roedd pob cais/bron pob cais am gyllid yn gofyn am wybodaeth am anghenion canfyddedig, ond roedd fformatau ceisiadau a'r prosesau asesu yn amrywio ar draws CARh ac ALlau;<br>Mae ychydig dystiolaeth fod staff CARh ac ALlau yn seilio penderfyniadau ariannu ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio; mae tystiolaeth fwy cyfyngedig fod hyn yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion. |
| | Wedi'i alinio â blaenoriaethau ac arfer gorau | **Mae'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Ymddengys fod mwyafrif y dyraniadau yn cyd-fynd â gofynion y grant ac arweiniad a blaenoriaethau lefel CARh;<br>Mae rhai gweithgareddau a ariennir (hyfforddiant, recriwtio staff arbenigol a hyfforddiant ychwanegol) yn cyd-fynd ag arfer gorau;<br>Nid yw rhai gweithgareddau a ariennir yn cyd-fynd â'r disgwyliadau ar gyfer y grant o ran |

| Materion gwerthusol | Dangosydd | Asesiad |
|---|---|---|
| | | cynaliadwyedd neu yn lle rhiant corfforaethol yr ALl. |
| | Cyllidebau clir, gydag allbynnau a deilliannau disgwyliedig wedi'u pennu | **Nid yw'n gweithio'n dda ym mhob ardal:**<br>Amrywiadau sylweddol mewn ansawdd ac argaeledd cyllidebau ar lefel ranbarthol ac ALl; ac<br>Amrywiaeth sylweddol o ran eglurder yr allbynnau a'r deilliannau disgwyliedig mewn cynlluniau CARh ac ALlau; yn absennol ar y cyfan. |
| | Defnyddio'r grantiau yn unol â disgwyliadau | **Mae'r dystiolaeth yn anghyflawn, ond nid yw'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Adrodd cyfyngedig ar y gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gwariant arfaethedig; y wybodaeth yn absennol ar y cyfan;<br>Lle'r oedd data ar gael, adroddodd chwarter yr ALlau am orwario neu danwario sylweddol. |
| **Monitro a gwerthuso** | Olrhain a monitro gwariant a deilliannau | **Nid yw'n gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd:**<br>Mae ffurfiau systemau CARh yn amrywio ac o ansawdd gwael; mae hyn wedi arwain at ddiffyg fformatau a metrigau adrodd safonedig;<br>Amrywiadau yn lefel ac ansawdd monitro gwariant a deilliannau ar lefel ALl;<br>Er bod ysgolion yn olrhain gwariant yn gyffredinol, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn dadansoddi'r gwariant yn ôl y math o weithgaredd nac yn monitro deilliannau yn sgil y gwariant, er eu bod yn hawlio bod ganddynt systemau i fonitro addysg i blant sy'n derbyn gofal;<br>Dywed llawer o gyfweleion mewn ALlau ac ysgolion eu bod wedi drysu ynghylch pwy sydd â'r rôl o fonitro gwariant a deilliannau ar bob lefel ac adrodd ar lefelau uwch. |
| | Asesu gwerth am arian a deilliannau cynaliadwy | **Nid yw'n gweithio'n dda ym mhob ardal:**<br>Fawr ddim tystiolaeth neu ddim tystiolaeth o gwbl fod CARh nac ALlau yn asesu gwerth am arian na chynaliadwyedd y deilliannau a gyflawnir gan weithgareddau;<br>Cyfeiria llawer o gyfweleion mewn ALlau ac ysgolion at dystiolaeth ansoddol o ddeilliannau cynaliadwy ar gyfer plant unigol sy'n derbyn gofal a staff sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal. |
| | Cydnabyddir bod y grant yn gwneud gwahaniaeth i blant sy'n derbyn gofal | **Mae'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd:**<br>Tystiolaeth fesuradwy gyfyngedig o effaith gyffredinol y grant ar blant sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n elwa'n uniongyrchol o weithgareddau penodol;<br>Tystiolaeth ansoddol gyson fod y grant wedi canolbwyntio sylw ar anghenion addysgol plant |

| Materion gwerthusol | Dangosydd | Asesiad |
|---|---|---|
| | | sy'n derbyn gofal, wedi sicrhau ymagwedd fwy strategol at gefnogi plant sy'n derbyn gofal trwy alluogi i sgiliau'r staff gael eu gwella'n gynaliadwy a thrwy feithrin gallu mewn ysgolion;<br>Mae rhywfaint o dystiolaeth ansoddol fod y grant yn cael effaith uniongyrchol ar les a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. |

**Beth yw'r rhesymau am y sefyllfa hon?**

8.6 Gellir nodi'r ffactorau canlynol o'r ymchwil fel rhesymau posibl am y diffygion a amlinellwyd uchod:

- **Argaeledd staff i arwain a chydlynu:** mae gwahaniaethau yn ansawdd a pharhad arweinyddiaeth ar lefel CARh ac ALl wedi effeithio ar gryfder trefniadau llywodraethu, systemau ariannol a systemau cyfathrebu, ac felly'r graddau y mae blaenoriaethau a gweithgareddau wedi'u datblygu'n dda, wedi'u deall a'u cysoni ar bob lefel. Mae amrywiadau o ran darparu adnoddau a diffyg parhad mewn swyddi yn cael eu llenwi yn debygol hefyd o fod wedi effeithio ar y gallu i fonitro a gwerthuso gwariant a deilliannau o'r grant.
- **Ansawdd perthnasoedd gweithio a chydweithio rhwng deiliaid cyllidebau a derbynyddion grant (LIC a CARh, CARh ac ALlau a CARh/ALlau ac ysgolion):** nid yw llywodraethu a chyfathrebiadau gan CARh ac ALlau wedi ymgysylltu'n systematig â'r holl randdeiliaid allweddol bob amser, fel cydgysylltwyr LACE a chynrychiolwyr eraill plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi effeithio ar lefel yr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r grant; y cysondeb rhwng blaenoriaethau a'r mathau o weithgareddau a ariennir mewn rhai achosion; sefydlu allbynnau a deilliannau ar gyfer monitro gweithgareddau grant; a'r graddau y mae staff sy'n gyfrifol am weithgareddau a ariennir yn deall y gofynion monitro a gwerthuso
- **Dealltwriaeth gyfyngedig o beth sy'n gweithio:** er bod rhywfaint o dystiolaeth bod CARh ac ALlau yn seilio penderfyniadau ariannu ar yr hyn y deallant sy'n gweithio er mwyn helpu cynyddu'r cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae hyn yn seiliedig yn amlach ar farnau ymarferwyr eraill o arfer gorau na thystiolaeth ymchwil a rhwydweithiau dysgu. Gellir effeithio ar hyn gan y ffaith fod tystiolaeth o arfer gorau i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal mewn dogfennau arweiniad amrywiol, tystiolaeth ymchwil nad yw'n

gadarn yn gyffredinol, a phrosesau ad-hoc ar waith i nodi a rhannu arfer gorau ar draws CARh ac ALlau.

- **Systemau anghyson ar gyfer alldalu'r grant:** mae strwythurau alldalu cyllid amrywiol wedi effeithio ar: gysondeb ac aliniad gweithgareddau a ariennir ar draws CARh ac ALlau; lefel ymgysylltiad rhanddeiliaid gwahanol mewn cynllunio, dyrannu grant ac adolygu gwariant ac effaith; y gallu i asesu angen yn ddigonol a dewis ymyriadau effeithiol; ac ansawdd monitro a gwerthuso gwariant a deilliannau. Mae'r rhain hefyd wedi arwain at lefelau gwahanol o ran gweinyddu'r grant/biwrocratiaeth ar lefel CARh, ALl ac ysgolion, a lefelau gwahanol o ddarpariaeth grant (er enghraifft, nid yw pob clwstwr ysgolion yn gwneud cais am gyllid).
- **Systemau gwael ar gyfer monitro ac adolygu dyraniadau grant:** mae systemau annigonol ac absennol ar gyfer monitro a gwerthuso gwariant grant wedi effeithio ar y graddau y gellir asesu'r defnydd o'r grant a'i effaith. Mae hefyd wedi effeithio ar y graddau y gellir diweddaru cynlluniau a blaenoriaethau gwario ar sail beth sy'n gweithio, a'u monitro er mwyn atal gorwariant neu danwariant rhag digwydd.

**Beth fyddai'n gwella proses y grant a'r defnydd effeithiol o'r grant?**

8.7 Gallai'r canlynol fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r diffygion a nodwyd uchod:

- **Argaeledd staff i arwain a chydlynu:** dylai pob CARh sicrhau bod arweinydd CARh amser llawn yn ei le i ymgymryd â gweithgareddau llywodraethu, cyfathrebu a monitro sydd eu hangen. Ar lefel ALl, dylai fod cydgysylltydd LACE amser llawn fod yn ei le yn ôl y disgwyl ym mhob ALl, yn cael ei gefnogi gan staff eraill (gan ddibynnu ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ym mhob ALl a'u hanghenion cymorth) yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod addysg a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn ffocws cymorth allweddol[86]. Ar lefel ysgolion, dylai fod arweinydd dynodedig plant sy'n derbyn gofal yn bresennol ym mhob ysgol.
- **Trefniadau gweithio gwell rhwng deiliaid cyllidebau a derbynyddion grant (LlC a CARh, CARh ac ALlau/cynrychiolwyr plant sy'n derbyn gofal a CARh/ALlau ac ysgolion):** mae angen arweiniad cliriach a mwy amserol gan

[86] Gwneud Gwahaniaeth, Tachwedd 2017, tud 7-9

Lywodraeth Cymru ar flaenoriaethu, dyrannu a defnyddio'r grant, er bod awdurdod gan CARh i wneud paratoadau bob blwyddyn cyn cael union ddyraniadau, o ystyried ymrwymiad datganedig y Llywodraeth i'r PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Dylai fod trefniadau ffurfiol a chyson gan bob CARh ar gyfer cynnwys cydgysylltwyr LACE, cynrychiolwyr ysgolion ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a grwpiau rhanddeiliaid ehangach (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth) mewn prosesau cynllunio a monitro ac mewn cyfathrebiadau ynglŷn â'r grant, a thrwy gydol y flwyddyn ariannol.

- **Cynyddu dealltwriaeth o beth sy'n gweithio, ac anghenion plant sy'n derbyn gofal:** ar lefel genedlaethol, mae angen i'r dystiolaeth bresennol o'r gweithgareddau mwyaf effeithiol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal fod mewn un lle, a'i diweddaru'n rheolaidd, ac mae angen cyfleu'r canfyddiadau allweddol/arfer gorau ar gyfer staff ALl ac ysgolion ar ffurf symlach. Hefyd, mae angen prosesau monitro a gwerthuso cryfach yn enwedig ar gyfer CARh ac ALlau, a dull mwy systematig o gynnwys staff allweddol ysgolion mewn dysgu am arfer da.
- **Systemau ar gyfer rheoli dyraniadau grant (penderfyniadau, gweithredu):** o ystyried cysondeb cyffredinol blaenoriaethau grant ar draws y rhanbarthau, gellid cyflwyno model cenedlaethol ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau, gyda disgwyliad i bob CARh ddilyn proses alldalu a chyfrifo tebyg, gyda grantiau'n cael eu dyrannu ar amod bod cynllun cyflwyno adnoddau ac allbynnau a deilliannau cytûn. Dylid ategu'r system hon gan system safonol ar gyfer monitro ac adolygu dyraniadau grant. Dylai hyn roi gwedd gliriach ar rolau a chyfrifoldebau, mesurau deilliannau (gan gynnwys lles plant sy'n derbyn gofal a'u presenoldeb yn yr ysgol), ac adroddiadau safonol gyda ffocws syml ar ddyraniadau gwario, gwariant gwirioneddol ac allbynnau/deilliannau yn cael eu hadrodd yn erbyn categorïau gweithgarwch wedi'u rhag-ddiffinio er mwyn darparu gwybodaeth lefel uchel ar gyfer atebolrwydd, monitro ac adolygu.
- **Systemau atebolrwydd**: Mae angen i CARh ac ALlau fod atebol yn gliriach o ran y modd y mae'r grant ac arfer rolau rhianta corfforaethol yn cael effaith gadarnhaol ar addysg plant sy'n derbyn gofal. Gallai'r Llywodraeth ystyried targedau rhanbarthol ac adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn amlinellu cyfraniad y grant tuag at y gwelliannau a gyflawnwyd.

**A fyddai system arall yn gweithio'n well?**

8.8 Mae'r system ddyrannu newydd wedi hwyluso ymagwedd fwy strategol at ariannu ac mae'n targedu plant sy'n derbyn gofal yn gliriach o gymharu â'r trefniadau cyn 2015. Hefyd, mae wedi gwella ymwybyddiaeth o'r grant a chodi proffil plant sy'n derbyn gofal a'u hanghenion. Fodd bynnag, o ystyried ansawdd amrywiol y systemau sydd wedi'u datblygu ar draws CARh, nifer bach o'r rhai sy'n gysylltiedig sy'n cytuno bod y trefniadau ariannu wedi gostwng biwrocratiaeth a baich gweinyddol, a bod y trefniadau o reidrwydd yn addas i'r diben.

8.9 Budd yr ymagwedd sydd wedi'i harwain gan CARh yw cysylltu'r grant â gwella ysgolion a buddion posibl yr ymagwedd hon yw sicrhau bod y defnydd ar y grant wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn gynaliadwy, a dwyn ynghyd wariant ar weithgareddau fel hyfforddiant, rhwydweithio a datblygu systemau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Ni wireddwyd y rhain yn llawn erbyn diwedd 2016/17. O ystyried aliniad cyffredinol blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, byddai model cenedlaethol, yn hytrach na rhanbarthol, ar gyfer pennu blaenoriaethau a thargedau yn helpu i safoni prosesau cynllunio ar draws pob CARh, fel y byddai cytuno ar ymagwedd genedlaethol at fonitro a gwerthuso.

8.10 Gall ymagweddau eraill, fel dyrannu grant ar lefel ALl a chlwstwr ysgolion, ymddangos yn llai biwrocrataidd, ond byddent yn llai tebygol o gyd-fynd â blaenoriaethau strategol a thystiolaeth o beth sy'n gweithio. Hefyd, byddai'n arwain at ddyraniadau cyllid llai o faint a fyddai'n cyfyngu ar ystod y gweithgareddau a fyddai'n gallu cefnogi plant sy'n derbyn gofal, ac ni fyddai'n cyflawni unrhyw arbedion maint o ran hyfforddiant a rhywfaint o gymorth arbenigol. O'r ystod o weithgareddau sy'n gallu gweithio, fodd bynnag, mae'n glir bod rhai'n cael eu cyflwyno orau ar lefel ranbarthol a rhai ar lefel fwy lleol, gan gynnwys ar lefel yr ALl a grwpiau o ysgolion. Nododd cyfweleion ym mhob sefydliad fuddion dal rhywfaint o gyllid ar lefel CARh ar gyfer hyfforddiant, monitro a gwerthuso, a rhwydweithio, er mwyn hwyluso ymagwedd fwy strategol at feithrin gallu. Fodd bynnag, ymddengys fod gwariant ar weithgareddau meithrin gallu eraill, fel staff atodol arbenigol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a darparu cymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal, yn cael ei gyflawni'n fwy effeithiol pan fydd yr arian yn cael ei ddal a'i reoli ar lefel yr ALl, yn hytrach na chael ei ddosbarthu'n llwyr i ysgolion neu glystyrau ysgolion trwy geisiadau neu ddyrannu drwy fformiwla.

## 9. Argymhellion

9.1 Er mwyn mwyn tynnu argymhellion i weithredu arnynt ynghyd o'r casgliadau, mae'n angenrheidiol ystyried:

- Gwelliannau i weinyddiaeth y grant y deellir eu bod wedi'u gwneud ers dechrau 2017/18. Mae'r rhain wedi cynnwys ceisio sefydlogi a chael staff mwy cyson yn y CARh, cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr CARh i fonitro rheolaeth o'r grant a'i wariant, a darparu cymorth i arweinyddiaeth CARh gan Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru.
- Graddfa'r grant a chymesuredd mesurau i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd: dylid gallu rhoi'r argymhellion ar waith gan yr adnoddau staff sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru, CARh (un arweinydd amser llawn), ac ALlau (cydgysylltydd LACE) ac nad ydynt yn ychwanegu at ddisgwyliadau presennol ar gyfer alldalu arian cyhoeddus a chyfrif amdano.

**Argymhellion i LIC (polisi ac arfer)**

9.2 Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ryddhau cyfathrebiadau'n ymwneud â newidiadau i'r grant, blaenoriaethau blynyddol a chyfansymiau cyllid i CARh cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- Datblygu un ddogfen arweiniad, hawdd ei darllen, ar gyfer y PDG i blant sy'n derbyn gofal yn benodol, i ddisodli'r arweiniad Cwestiynau Cyffredin sydd i'w gael ar hyn o bryd. Dylai'r arweiniad dargedu rhanddeiliaid ar lefel CARh, ALl ac ysgolion, a dylai gynnwys:
    - gofynion adnoddau ar gyfer gweinyddu'r grant ar lefel CARh, ALl ac ysgolion;
    - arweiniad ar ddisgwyliadau o ran llywodraethu, cydweithio ac ymgynghori, alldalu ac atebolrwydd sy'n adlewyrchu'r model cenedlaethol cytûn;
    - eglurhad o'r modd y dylai ALlau gynorthwyo unigolion sy'n symud i ffwrdd o'r ALl, a pha ddisgyblion y mae'r cyllid yn eu cynnwys (h.y. diffiniadau cliriad o'r grwpiau buddiolwyr);
    - eglurhad o ddeilliannau disgwyliedig y grant mewn perthynas ag addysg plant sy'n derbyn gofal: er bod deilliannau addysgol yn ffocws allweddol,

dylai’r arweiniad ddweud yn glir bod deilliannau lles ehangach a phresenoldeb o fewn y cwmpas hefyd; a

  - datganiad clir ar yr hyn y gellir gwario’r grant arno, a’r lefel fwyaf priodol ar gyfer cyflwyno, a fydd yn ddealladwy i CARh, ALlau ac ysgolion.

- Tynnu’r dystiolaeth ynghyd o ba weithgareddau sy’n gweithio mewn un lle, a diweddaru hyn. Gallai’r arweiniad hwn fod yn ddogfen annibynnol neu ei gynnwys fel atodiad mewn dogfen arweiniad PDG ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.

- Gweithredu model cenedlaethol ar gyfer cynllunio, gweithredu a gwerthuso’r grant, i’w adlewyrchu yn yr Arweiniad ac yn nhelerau ac amodau’r grant fel bo’n briodol, i gynnwys:

  - Pennu blaenoriaethau a thargedau, a dylid gwneud hyn ar lefel genedlaethol trwy ddatblygu trefniadau llywodraethu cadarn i gynnwys rhanddeiliaid ar lefel CARh ac ALl;

  - Cyfran o’r cyllid y dylid ei gadw ar lefel CARh ar gyfer swydd arweiniol y CARh a gweithgareddau sy’n cefnogi arweinyddiaeth, dysgu a chydweithio rhanbarthol - hyfforddiant parhaus ar gyfer athrawon a gofalwyr maeth, monitro a gwerthuso, rhwydweithio a gweithgareddau rhannu arfer gorau;

  - Arweiniad monitro a gwerthuso gyda gwybodaeth glir ynglŷn â phwy sy’n gyfrifol am fonitro a gwerthuso gwariant a deilliannau ar bob lefel (CARh, ALl ac ysgolion) ac am y modd y dylai rhanddeiliaid gwahanol fynd ati i fonitro a gwerthuso (h.y. y mathau o fethodolegau gwerthuso i’w defnyddio ar gyfer gwahanol weithgareddau). Dylai hefyd gynnwys set o fesurau allbynnau a deilliannau safonedig y mae’n rhaid eu defnyddio gan bob CARh ac ALl i adrodd am effaith;

  - Strwythur taenlen/adroddiad safonedig ar gyfer CARh i ddarparu atebolrwydd am y grant a wariwyd a gwybodaeth y gellir ei choladu’n hawdd i ddangos ar ba weithgareddau, ac i ba ddiben (allbynnau a deilliannau) y gwariwyd y grant. Bydd CARh yn eu tro yn gallu ei ddefnyddio i olrhain gwariant gwirioneddol yn rheolaidd yn erbyn gwariant a gynlluniwyd, a chipio deilliannau a fesurir ar gyfer pob math o weithgaredd yn erbyn dangosyddion safonol.

- Mynnu bod CARh yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd eu hardal tuag at dargedau rhanbarthol o ran gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal gyda thystiolaeth o'r cyfraniad a wnaeth y grant at hyn.

**Argymhellion i ymarferwyr ar lefel CARh (ymarfer)**

9.3 Dylai CARh:

- Sicrhau eu bod yn gwneud cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ymhell cyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, a pheidio ag aros am union ddyraniadau a llythyrau grant gael ei dosbarthu.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn a chyson i'w cael ar lefel CARh er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau; atebolrwydd, a rhwydweithio, a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau gyda chydgysylltwyr LACE a chynrychiolwyr o ysgolion trwy gydol y flwyddyn ariannol. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys ymgynghori â gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod strategaethau cyfathrebu systematig ar waith i hysbysu cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, staff ysgolion a rhanddeiliaid ehangach o gynlluniau rhanbarthol, darpariaeth ar lefel CARh, a phrosesau ar gyfer cael cyllid sydd wedi'i ddirprwyo neu'n agored ar gyfer ceisiadau.
- Darparu cymorth i ysgolion ar gyfer ceisiadau clwstwr os rhoddir dyraniadau i'r rhain, sicrhau bod cytundeb gan y clwstwr i gyflawni a gwella effeithlonrwydd prosesau gwneud cais.
- Mabwysiadu'r model cenedlaethol arfaethedig a bodloni trefniadau adrodd i gyfrif am werth ychwanegol y grant yn y blynyddoedd i ddod.

**Argymhellion i ALlau ac ysgolion (ymarfer)**

9.4 Dylai ALlau:

- Sicrhau bod ganddynt gydgysylltydd LACE y mae ei rôl yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau a amlinellwyd yn arweiniad Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod cysondeb rhwng timau/staff y cydgysylltydd LACE â thimau perthnasol eraill yn yr ALl er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithio agos.
- Cyfranogi yn nhrefniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru ac ar lefel CARh ar gyfer y grant,  a chynorthwyo arweinydd y CARh i ddatblygu a chyflawni gweithgareddau rhanbarthol a ariennir gan y grant.

- Sicrhau bod unrhyw weithgareddau ar lefel ALl a ariennir gan y grant yn gynaliadwy, ac y gellir eu cyflawni i fodloni allbynnau a deilliannau cytûn.
- Asesu angen yn rheolaidd o fewn yr ALl trwy weithio'n agos gyda phlant sy'n derbyn gofal a phlant yn derbyn gofal yn flaenorol, a chydweithio'n rheolaidd gyda staff ysgolion, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol.
- Cydymffurfio â threfniadau adrodd er mwyn cyfrif am y defnydd o'r grant a'i werth ychwanegol lle caiff cyllid ei ddirprwyo.

9.5 Dylai ysgolion/clystyrau ysgolion:

- Sicrhau bod ganddynt arweinydd dynodedig plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion sy'n aelod o'r uwch dîm rheoli â chyfrifoldeb am gyflawni strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a llywodraethwr dynodedig sydd â dealltwriaeth gref o anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Gwella eu rhwydweithio a'u hymgysylltiad â gofalwyr maeth er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â chyllid grant e.e. annog athrawon i drafod gwariant y PDG ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr yn ystod nosweithiau rhieni a sicrhau bod arweinwyr plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion yn monitro ac yn annog ymgysylltiad gofalwyr maeth.
- Cydymffurfio â threfniadau adrodd er mwyn cyfrif am y defnydd o'r grant a'i werth ychwanegol lle caiff cyllid ei ddirprwyo.
- Sicrhau bod unrhyw weithgareddau ar lefel ysgolion a ariannwyd gan y grant yn gynaliadwy, ac y gellir eu cyflawni i fodloni allbynnau a deilliannau cytûn.

## Atodiadau

### Annex A: Cyfeiriadau'r adolygiad llenyddiaeth


Barnardo's (2006) *Failed by the System: The views of young care leavers on their educational experiences.* Llundain: Barnardo's.

Berridge, D., Henry, L., Jackson, S., a Turney, D. (2009) *Looked After and Learning Evaluation of the Virtual School Head Pilot.* Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Brady, E. (2017) *Supporting the Educational Attainment and Progress of Children in State Care: A Preliminary Review of International Evidence (draft working paper).* Dulyn: Coleg y Drindod Dulyn.

Brewin, M. a Statham, J. (2011) Supporting the transition from primary school to secondary school for children who are Looked After, Educational Psychology in Practice, 27:4, 365-381.

Brodie, I. (2010). Improving educational outcomes for looked after children and young people. Llundain: C4EO.

Comisiynydd Plant Cymru (2017a) *Y Ffordd Gywir: Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.

Comisiynydd Plant Cymru (2017b) Tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant sydd Wedi Bod Mewn Gofal.

Yr Adran Addysg (2018) *Promoting the education of looked after children and previously looked after children: Statutory guidance for local authorities.*

Dingwall, N. & Sebba, J. (2018) Evaluation of the Attachment Aware Schools Programme Final Report. Prifysgol Rhydychen.

Estyn (2016) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal - adroddiad arfer orau.*

Evans, R., Hallett, S., Rees, A., Roberts, L. (2016) The acceptability of educational Interventions: Qualitative evidence from children and young people in care, *Children and Youth Services Review*, 71 68–76.

Evans, R., , Brown, R., Rees, G., a Smith, P. (2017) Systematic review of educational interventions for looked-after children and young people: Recommendations for intervention development and evaluation, *British Educational Research Journal,* Cyfrol. 43, Rhif. 1, tud. 68–94.

Finn, M. (2008) *Evaluation of Reading Rich*. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban, Caeredin.

Flynn, R. J., Marquis, R. A., Paquet, M. P., Peeke, L. M., ac Aubry, T. D. (2012). Effects of individual direct-instruction tutoring on foster children's academic skills: A randomized trial. *Children and Youth Services Review, 34*(6), 1183-1189.

Forsman, H., a Vinnerljung, B. (2012). Interventions aiming to improve school achievements of children in out-of-home care: A scoping review. *Children and Youth Services Review, 34*(6), 1084-1091.

Forsman, H. (2017) Foster carers' experiences of a paired reading literacy intervention with looked-after children, *Child and Family Social Work*, 22, tud 409–418.

Green, J. M., Biehal, N., Roberts, C., Dixon, J., Kay, C., Parry, E., Rothwell, J., Roby, A., Kapadia, D., Scott, S. a Chamberlain, P. (2014) Multidimensional treatment foster care for adolescents in English care: Randomised trial and observational cohort evaluation, British Journal of Psychiatry, 204, 214–221.

Harker, R., Dobel-Ober, D., Berridge, D. a Sinclair, R. (2004) *Taking Care of Education: An Evaluation of the Education of Looked after Children.* National Children's Bureau, Llundain.

Harper, J., a Schmidt, F. (2012). Preliminary effects of a group-based tutoring program for children in long-term foster care. *Children and Youth Services Review, 34*(6), 1176-1182.

Harper, J., a Schmidt, F. (2016). Effectiveness of a group-based academic tutoring program for children in foster care: A randomized controlled trial. *Children and Youth Services Review.*

Hass, M., Allen, Q., ac Amoah, M. (2014). Turning points and resilience of academically successful foster youth. *Children and Youth Services Review*, 44, 387-392.

Jackson, S., a Martin, P. Y. (1998) Surviving the care system: education and resilience, *Journal of Adolescence*, 21, 569-583.

Jackson, S., a Cameron, C. (2012). Leaving care: Looking ahead and aiming higher. *Children and Youth Services Review, 34*(6), 1107-1114.

Liabo, K., Gray, K., a Mulcahy, D. (2013) A systematic review of interventions to support looked-after children in school, *Child and Family Social Work 2013*, 18, pp 341–353.

Long, S. J., Evans, R. E., Fletcher, A. et al. (2016) Comparison of substance use, subjective well-being and interpersonal relationships among young people in foster care and private households: a cross sectional analysis of the School Health Research Network survey in Wales. BMJ Open 2017; 7:e014198. Doi:10.1136/bmjopen-2016- 014198.

Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., et al., 2015. *Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children in Wales.*

Mooney, J., Winter, K., a Connolly, P. (2016) Effects of a book gifting programme on literacy outcomes for foster children: A randomised controlled trial evaluation of the Letterbox Club in Northern Ireland, *Children and Youth Services Review* 65 1–8.

Ofsted (2012) *The impact of virtual schools on the educational progress of looked after children.* Manceinion: Ofsted.

Ofsted (2016) Social Care: *The report of Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills 2016.*

Osborne, C., Alfano, J., a Winn, T. (2010). Paired reading as a literacy intervention for foster children. *Adoption & Fostering, 34*(4), 17-26.

Pears, K. C., Fisher, P. A., Kim, H. K., Bruce, J., Healey, C. V. ac Yoerger, K. (2013) Immediate effects of a school readiness intervention for children in foster care, Early Education and Development, 24, 771–791.

Roberts, L., Meakings, S., Forrester, D., Smith, A., and Shelton, K. (2017) Care-leavers and their children placed for adoption, *Children and Youth Services Review*, 79, 355-361.

Starks, L. (2013) Assessing the Impact of the Buttle UK Quality Mark in Higher Education. Leeds: Buttle UK.

Sebba, J., Berridge, D., Luke, N., Fletcher, J., Bell, K., Strand, S., Thomas, S., Sinclair, I., ad O'Higgins, A. (2015) *The educational progress of looked after children in England: Linking care and educational data.* Nuffield Foundation.

Sugden, E. J. (2013) Looked-after Children: What supports them to learn? *Educational Psychology in Practice* 29:4, 367-382.

Tideman, E., Vinnerljung, B., Hintze, K., & Isaksson, A. A. (2011). Improving foster children's school achievements: Promising results from a Swedish intensive study. *Adoption & Fostering, 35*(1), 44-56.

Tordön, R., Vinnerljung, B., & Axelsson, U. (2014). Improving foster children's school performance: a replication of the Helsingborg study. *Adoption & Fostering, 38*(1), 37-48.

Weinberg, L. A., Oshiro, M., a Shea, N. (2014) Education liaisons work to improve educational outcomes of foster youth: A mixed methods case study. *Children and Youth Services Review, 41*, 45-52.

Zetlin et al. (2004) *Improving education outcomes for children in foster care: intervention by an education liaison.* Journal of Education for Students Placed at Risk, 9 (4), 421-9.

Zinn, A., & Courtney, M. E. (2014). Context matters: Experimental evaluation of home-based tutoring for youth in foster care. *Children and Youth Services Review*, 47, 198-204.